



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 13 Chwefror 2001**

**Tuesday 13 February 2001**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru  
*Questions to the First Minister*
- 19 Datganiad Busnes  
*Business Statement*
- 21 Datganiad ar Laeth i Ysgolion  
*Statement on School Milk*
- 33 Strategaeth NHS Cymru  
*The NHS Wales Strategy*
- 67 Cynnig Trefniadol  
*Procedural Motion*
- 68 Strategaeth NHS Cymru: Parhad  
*The NHS Wales Strategy: Continued*
- 70 Mabwysiadu Canllaw Diwygiedig ar Gofrestru a Datgan Buddiant yr Aelodau  
*Adoption of the Revised Guidance on the Registration of Members' Interests*
- 72 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Geidwadol Cymru): Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol  
*Minority Party Debate (Welsh Conservative Party): The National Economic Development Strategy*

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister**

### **Swyddogaethau Cabinet y Cynulliad Functions of the Assembly Cabinet**

**Q1 Jocelyn Davies:** Will the First Minister make a statement regarding the functions of the Assembly Cabinet? (OAQ9551)

**The First Minister:** There have been no changes in the functions of the Cabinet since I answered an identical question from you last week, during which time my Cabinet has made about 250 executive decisions, at an average of about 50 per working day. That is the Government side of the Assembly at work. We are accountable to the Assembly for the quality of those decisions.

**Jocelyn Davies:** Thank you for that useful information. One function of your Cabinet is the promotion of access to further and higher education. Will students who start their teaching careers in Wales in shortage subjects have their student loans paid off by the Government? Jane Davidson could not tell us that yesterday. Will the First Minister clear up this confusion?

**The First Minister:** There is no confusion. There was no Plenary meeting yesterday, as Jocelyn appeared to suggest in the curious preamble to her question. The Green Paper was published yesterday. I understand that it was clarified in the House of Commons yesterday that the Student Loans Company will repay the loans of student teachers who pursue teaching careers in shortage subjects. Those shortage subjects may be different in Wales from those in England but the principle, that the Student Loans Company will repay their loans, remains the same. That is in the Green Paper. Green Papers do not have the same status as White Papers; they are further away from being a firm decision. However, the Green Paper is based on an England and Wales common format, except that the teacher shortage subjects may be

**C1 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch swyddogaethau Cabinet y Cynulliad? (OAQ9551)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu unrhyw newidiadau i swyddogaethau'r Cabinet ers i mi ateb yr un cwestiwn yn union gennyh yr wythnos diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae fy Nghabinet wedi gwneud tua 250 o benderfyniadau gweithredol, ar gyfartaledd o tua 50 bob diwrnod gwaith. Dyma ochr Lywodraethol y Cynulliad ar waith. Rydym yn atebol i'r Cynulliad am ansawdd y penderfyniadau hynny.

**Jocelyn Davies:** Diolch am yr wybodaeth ddefnyddiol honno. Un o swyddogaethau eich Cabinet yw hyrwyddo mynediad i addysg bellach ac addysg uwch. A fydd y Llywodraeth yn ad-dalu benthyciadau myfyrwyr sydd yn dechrau ar eu gyrfaedd dysgu yng Nghymru mewn pynciau lle ceir prinder athrawon? Ni allai Jane Davidson ddweud hynny wrthym ddoe. A wnaiff y Prif Weinidog egluro'r dryswch hwn?

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes dryswch. Nid oedd Cyfarfod Llawn ddoe, fel yr edrychai'n debyg yr oedd Jocelyn yn ei awgrymu yn ei rhagarweiniad rhyfedd i'w chwestiwn. Cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd ddoe. Deallaf yr eglurwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe y bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ar gyrsiau athrawon sydd yn dilyn gyrfaedd mewn pynciau lle ceir prinder athrawon. Efallai bod y pynciau hynny lle ceir prinder yn wahanol yng Nghymru i'r rhai yn Lloegr ond yr un yw'r egwyddor, sef y bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ad-dalu eu benthyciadau. Mae hynny yn y Papur Gwyrdd. Nid oes gan Bapurau Gwyrdd yr un statws â Phapurau Gwyn; maent ymhellach o fod yn benderfyniad sicr. Fodd bynnag, mae'r Papur

different in Wales and include Welsh-medium education and Welsh-language teaching.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Given that your Cabinet is making some 250 executive decisions a week on average, do any of them concern bed-blocking? Latest reports indicate that 661 patients are currently blocking beds in Wales, preventing urgent treatments and operations from taking place. The partnership agreement talks of the partnership pioneering innovative solutions to the problem of delayed discharge. What innovative solutions are you pioneering?

**The First Minister:** The key to that is joint working with local authorities' social services departments, which varies greatly from local authority to local authority. Some innovative solutions have been worked out with Newport County Borough Council in particular, which is one of the best areas for improvement in this regard. There is still a long way to go in getting rid of bed-blocking. The problem is that our financial year, in local government and central Government, ends on 31 March. This quarter comprises the most difficult quarter in terms of pressures on the health service and is also the end of the financial year for local government and ourselves. It has always been difficult for local government and health authorities to know how much money to leave in the kitty for these final three months. The tendency to underestimate or overestimate continues to be a major problem for local government co-working with central Government.

**Nick Bourne:** That was a lengthy way of saying that nothing is happening and no progress is being made. Why are we not following what is happening in England and piloting a care trust, which is an innovative way of tackling the problem? Why has the administration set its face against doing something that might make a difference in Wales?

**The First Minister:** Nick, if there were a Nobel Prize for superciliousness you could be a contender for the Welsh nomination. You

Gwyrdd yn seiliedig ar fformat cyffredin i Gymru a Lloegr, ac eithrio'r ffaith y gall y pynciau lle ceir prinder fod yn wahanol yng Nghymru a chynnwys addysg Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Gan fod eich Cabinet yn gwneud tua 250 o benderfyniadau gweithredol yr wythnos ar gyfartaledd, a oes rhai ohonynt yn ymwneud â blocio gwelyau? Mae'r adroddiadau diweddaraf yn nodi bod 661 o gleifion yn blocio gwelyau yng Nghymru, gan atal triniaethau a llawdriniaethau brys. Mae'r cytundeb partneriaeth yn sôn am y bartneriaeth yn arloesi atebion dyfeisgar i broblem oedi cyn rhyddhau pobl. Pa atebion dyfeisgar ydych yn eu harloesi?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr allwedd i hynny yw cydweithio ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, sydd yn amrywio'n fawr o'r naill awdurdodau lleol i'r llall. Mae rhai atebion dyfeisgar wedi eu canfod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd yn arbennig, sydd yn un o'r ardaloedd gorau ar gyfer gwelliant yn y maes hwn. Mae ffordd bell i fynd o hyd i gael gwared â blocio gwelyau. Y broblem yw bod ein blwyddyn ariannol, mewn llywodraeth leol a Llywodraeth ganolog, yn dod i ben ar 31 Mawrth. Dyma'r chwarter anoddaf o ran pwysau ar y gwasanaeth iechyd ac mae hefyd yn ddiwedd y flwyddyn ariannol i lywodraeth leol ac i ninnau. Mae wastad wedi bod yn anodd i lywodraeth leol ac awdurdodau iechyd wybod faint o arian i'w gadw yn y coffrau ar gyfer y tri mis olaf. Mae'r tueddiad i amcangyfrif yn rhy isel neu'n rhy uchel yn parhau i fod yn broblem fawr i lywodraeth leol wrth gydweithio â Llywodraeth ganolog.

**Nick Bourne:** Dyna ffordd hir o ddweud nad oes unrhyw beth yn digwydd ac na wneir cynnydd. Pam nad ydym yn dilyn yr hyn sydd yn digwydd yn Lloegr a chynnal cynllun peilot o ymddiriedolaeth gofal, sydd yn ffordd arloesol o fynd i'r afael â'r broblem? Pam bod y weinyddiaeth wedi rhoi ei bryd ar beidio â gwneud rhywbeth a allai wneud gwahaniaeth yng Nghymru?

**Prif Weinidog Cymru:** Nick, pe bai Gwobr Nobel am fod yn ffroenuchel gallech gystadlu am enwebiad Cymru. Yr ydych yn rhoi

preface your question with remarks presented as objective truth when they are simply a smear against those who are attempting to solve this problem. We have always recognised that it is an extremely difficult problem to solve. It started to build up into a major political issue during the Government of which you were a supporter at the time, some 10 years ago. It has remained an intractable problem under both administrations and we are pioneering some innovative solutions in Wales. Why you choose to ignore those and say that the grass in greener over the border in England seems to me to be the height of absurdity.

sylwadau wedi'u cyflwyno fel gwirionedd gwrthrychol ar gychwyn eich cwestiwn, ond sydd mewn gwirionedd yn sarhad yn erbyn y rhai sydd yn ceisio datrys y broblem hon. Yr ydym wedi cydnabod erioed ei bod yn broblem anodd i'w datrys. Dechreuodd dyfu'n fater gwleidyddol mawr yn ystod y Llywodraeth yr oeddech chi yn ei chefnogi ar y pryd, tua 10 mlynedd yn ôl. Mae wedi parhau'n broblem anhydryn o dan y ddwy weinyddiaeth ac yr ydym yn arloesi rhai atebion dyfeisgar yng Nghymru. Mae'r ffaith eich bod yn dewis eu hanwybyddu a dweud bod pethau'n well dros y ffin yn Lloegr yn ymddangos i mi yn hollol ddisyngwyr.

### **Annog Cyfranogiad Cymunedol Promoting Community Involvement**

**Q2 Richard Edwards:** In his role as policy development co-ordinator, what is the First Minister doing to promote community involvement in the social, economic and cultural development of Wales? (OAQ9574)

**C2 Richard Edwards:** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynnydd datblygu polisi, beth a wna Prif Weinidog Cymru i annog cymunedau i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Cymru yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol? (OAQ9574)

**The First Minister:** We are committed to open consultation and full participation by poor or deprived communities in how they develop and solve the problem of deprivation. We can assist, facilitate and build capacity and can help to develop the leadership that is required within those communities. However, I am sure that you would agree, Richard, that we Welsh, are not a deferential people. We like a bottom-up approach. A top-down approach will never work in Wales. Therefore, we are concentrating, in our Communities First initiative, on how to assist communities to lift themselves by their own bootstraps from deprivation and poverty.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn ymrwymedig i ymgynghori agored a chyfranogiad llawn gan gymunedau tlawd neu ddifreintiedig wrth iddynt ddatblygu a datrys problem amddifadedd. Gallwn gynorthwyo, hwyluso ac adeiladu gallu a gallwn helpu i ddatblygu'r arweinyddiaeth angenrheidiol o fewn y cymunedau hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y cytunwch, Richard, nad ydym ni'r Cymry'n bobl daeogaidd. Yr ydym yn hoffi agwedd o'r bôn i'r brig. Ni fydd agwedd o'r brig i'r bôn fyth yn gweithio yng Nghymru. Felly yr ydym yn canolbwyntio, yn ein menter Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ar sut i gynorthwyo cymunedau i godi eu hunain o amddifadedd a thlodi.

**Richard Edwards:** If Wales is a 'community of communities', to quote Saunders Lewis—much as I am loath to as I do not want to make a habit of quoting fascists—active grassroots participation is essential to sustain national as well as community regeneration. Are you aware, Rhodri, that community regeneration is being dealt a savage blow in Milford Haven where there is despair in the Hakin, Hubberston and Mount estates—communities where social deprivation rivals

**Richard Edwards:** Os yw Cymru'n 'gymuned o gymunedau', i ddyfynnu Saunders Lewis—er fod hyn yn atgas gennyf gan nad wyf am fynd i'r arfer o ddyfynnu ffasgwyr—mae cyfranogiad gweithgar ar lawr gwlad yn hanfodol i gynnal adfywiad cenedlaethol yn ogystal â chymunedol. Fel y gwyddoch, Rhodri, mae'r adfywio cymunedol hwnnw yn dioddef ergyd drom yn Aberdaugleddau lle mae anobaith yn ystadau Hakin, Hubberston a Mount—cymunedau lle

the worst in the Valleys. These communities cry out for regeneration but are denied Objective 1, Priority 3 and community regeneration grants. That denial concerned the programme monitoring committee last week despite vigorous representation from me and others. Do you understand that apart from despair, widespread cynicism exists in these communities? They feel marginalised and forgotten, that no one gives a damn and that the county council and the National Assembly do not care. Why should they bother when the odds seem to be so heavily stacked against them? Will you join me, First Minister, on a visit to these communities to see the problems for yourself and help prevent an understandable disappointment from becoming a destructive disillusionment?

**The First Minister:** Richard, you and I attended the opening of the community centre on the Hakin and Hubberston estates about a year ago. I was impressed by the efforts made to regenerate those communities on the bottom-up principle. I understand the frustration that you and the community feel because you, Christine Gwyther and people from local authority areas have directly put some of those points to me. However the fact that, for various reasons, the statistics did not enable that area to be included within the classifications you referred to, does not mean that all hope is lost. I hope that further work will mean that that community can be placed into another category to encourage the capacity building and community leadership that will help the Hakin and Hubberston communities to improve from their present state of unemployment and deprivation.

### **Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd North Wales Regional Committee**

**Q3 Janet Ryder:** As co-ordinator of Government policy in north Wales, is the First Minister fulfilling his commitment made on 31 October 2000, in which he said he would attend every North Wales Regional Committee meeting he was invited to? (OAQ9562)

**The First Minister:** It is my intention to

mae amddifadedd cymdeithasol mor ddrwg â'r gwaethaf yn y Cymoedd. Mae'r cymunedau hyn yn erfyn am adfywiad ond yn cael eu heithrio o Amcan 1, Blaenoriaeth 3 a grantiau adfywio cymunedol. Yr oedd yr eithrio hwnnw yn destun pryder i'r pwyllgor monitro rhaglen yr wythnos diwethaf er gwaethaf cynrychiolaeth gref gennyf fi ac eraill. A ddeallwch fod sinigaeth mawr yn y cymunedau hyn yn ogystal ag anobaith? Teimlant yn ynysig ac anghofiedig, nad oes neb yn malio ac nad yw'r cyngor sir na'r Cynulliad Cenedlaethol yn pryderu. Pam y dylent drafferthu pan fo cymaint yn eu herbyn? A ymunwch â mi, Brif Weinidog, i ymweld â'r cymunedau hyn i weld y problemau drosoch chi eich hun a helpu i atal siom ddealladwy rhag troi'n ddadurthiad dinistriol?

**Prif Weinidog Cymru:** Richard, fe fu'r ddau ohonom yn agoriad y ganolfan gymuned yn Hakin a Hubberston tua blwyddyn yn ôl. Yr oeddwn yn edmygu'r ymdrechion a wnaethpwyd i geisio adfywio'r cymunedau hynny ar yr egwyddor o'r bôn i'r brig. Deallaf y rhwystredigaeth y teimlwch chi a'r gymuned oherwydd eich bod chi, Christine Gwyther a phobl o ardaloedd yr awdurdod lleol wedi cyflwyno rhai o'r pwyntiau hynny yn uniongyrchol i mi. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad oedd yr ystadegau am amrywiol resymau yn galluogi cynnwys yr ardal honno o fewn y dosbarthiadau y cyfeiriwch atynt, yn golygu nad oes unrhyw obaith. Gobeithiaf y bydd gwaith pellach yn golygu y gall y gymuned gael ei rhoi mewn categori arall i hybu meithrin gallu ac arweinyddiaeth gymunedol fydd yn helpu cymunedau Hakin a Hubberston i wella'u sefyllfa bresennol o ddiweithdra ac amddifadedd.

**C3 Janet Ryder:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynnydd polisi'r Llywodraeth yng ngogledd Cymru, a yw Prif Weinidog Cymru yn cyflawni'r ymrwymiad a wnaethpwyd ganddo ar 31 Hydref 2000, lle y dywedodd y byddai'n bresennol ym mhob cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd y byddai'n cael gwahoddiad iddo? (OAQ9562)

**Prif Weinidog Cymru:** Fy mwriad yw

attend all the meetings of the North Wales Regional Committee to which I am invited. Ann Jones and my office have been communicating on this issue to see which meetings of the Committee I can attend. I cannot break commitments that have already been entered into my diary to attend it. However, I expect to attend the meetings in May and July. I would have liked to attend the meeting on 8 March, but I have a commitment that I regard as unbreakable—the opening of the Eurofreight terminal halfway between here and Newport. I am sure that you would agree, Janet, that this is a major plank of our sustainable development transport policy.

**Janet Ryder:** On 31 October 2000, in answer to a similar question, you stated that you would make the voice of the North Wales Regional Committee heard loud and strong in the Cabinet. As you have said, you have attended just one of its meetings. I am pleased to hear that you intend to attend some of its other meetings and I hope that you will fulfil your pledge to make the Committee's voice heard loud and strong in your Cabinet.

2.10 p.m.

**The First Minister:** There are appointments in my diary to attend Committee meetings. I am pleased that you made a subtle adjustment to your supplementary question by dropping the reference to the invitation. I regard my commitment to promote the voice of north Wales in the Cabinet as one of the strongest commitments to which I have obliged and committed myself as First Minister of the National Assembly.

**Peter Rogers:** I am pleased that you agree that it is important to attend the Regional Committee meetings to hear at first hand the problems facing north Wales. I am sure that you would agree that showing more commitment to the region is the only way to underline that this is not a Cardiff-based coalition that understands little and cares nothing for events in north Wales.

**The First Minister:** I am not sure what standard of proof you require, Peter. I heard

mynychu pob cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru y caf wahoddiad iddo. Mae Ann Jones a'm swyddfa wedi bod yn cyfathrebu ar y mater hwn i weld pa gyfarfodydd o'r Pwyllgor y gallaf eu mynychu. Ni allaf dorri ymrwymadau sydd eisoes wedi eu nodi yn fy nyddiadur. Fodd bynnag, bwriadaf fynychu cyfarfodydd Mai a Gorffennaf. Byddwn wedi hoffi mynychu'r cyfarfod ar 8 Mawrth, ond mae gennyf ymrwymiad na allaf ei dorri—agor y terminal Eurofreight hanner ffordd rhwng y fan hon a Chasnewydd. Yr wyf yn sicr y cytunwch, Janet, fod hyn yn rhan bwysig o'n polisi datblygu trafnidiaeth cynaliadwy.

**Janet Ryder:** Ar 31 Hydref 2000, mewn ateb i gwestiwn tebyg, dywedasoch y byddech yn gwneud i lais Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru gael ei glywed yn uchel a chryf yn y Cabinet. Fel y dywedasoch, dim ond un o'i gyfarfodydd yr ydych wedi'i fynychu. Yr wyf yn falch o glywed eich bod yn bwriadu mynychu rhai o'i gyfarfodydd eraill a gobeithiaf y byddwch yn cyflawni eich addewid i sicrhau y caiff llais y Pwyllgor ei glywed yn uchel a chryf yn eich Cabinet.

**Prif Weinidog Cymru:** Mae apwyntiadau yn fy nyddiadur i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor. Yr wyf yn falch eich bod wedi gwneud newid bach i'ch cwestiwn atodol drwy ddileu'r cyfeiriad at wahoddiad. Yr wyf yn gweld fy ymrwymiad i hyrwyddo llais gogledd Cymru yn y Cabinet yn un o'r ymrwymadau cryfaf yr wyf wedi cytuno ac ymroi iddo fel Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol.

**Peter Rogers:** Yr wyf yn falch y cytunwch ei bod yn bwysig mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Rhanbarth i glywed yn uniongyrchol am y problemau sydd yn wynebu gogledd Cymru. Yr wyf yn sicr y cytunwch mai dangos mwy o ymrwymiad i'r ardal yw'r unig ffordd o danlinellu nad yw hon yn glymblaid i Gaerdydd sydd yn deall ychydig ac yn poeni dim am ddigwyddiadau yng ngogledd Cymru.

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf yn sicr faint o dystiolaeth sydd ei hangen arnoch, Peter.

an extraordinary allegation—not made by you, I am glad to say—that, as far as Corus is concerned, the National Assembly lobbied against the total closure of Llanwern and had it not been for that lobbying, the cold mill at Shotton would have been saved in Corus’s proposals. Nothing could have been further from the truth. We did not have an opportunity to lobby, but I keep hearing that allegation. I hope, Peter, that you will accept that it is important that this kind of unsourced rumour—I read about it in the *Flintshire Evening Leader* and, therefore, am not saying that it came from you—must be put to bed. We did not have the opportunity to lobby Corus or anyone else about whether Llanwern should close completely in order to save the cold mill at Shotton, or vice versa. I will meet workforce representatives from Shotton on Friday, along with carrying out two other official engagements in north Wales. I hope that I can put well and truly to bed any unsourced rumours that are flying around the area and published in the press. I also hope that you will assist me with that, Peter.

Clywais honiad rhyfeddol—nid gennych chi, yr wyf yn falch o ddweud—bod y Cynulliad Cenedlaethol, mewn perthynas â Corus, wedi lobio yn erbyn cau Llanwern yn gyfan gwbl ac oni bai am y lobio hwnnw, byddai’r felin oer yn Shotton wedi ei harbed yng nghynigion Corus. Yr oedd hyn yn anwiredd llwyr. Ni chawsom gyfle i lobio, ond clywaf yr honiad hwnnw o hyd. Gobeithiaf, Peter, y derbyniwch ei bod yn bwysig bod sibrydion di-sail fel hyn—darllenais amdano yn y *Flintshire Evening Leader*, felly ni ddywedaf iddo ddod oddi wrthyh chi—yn dod i ben. Ni chawsom gyfle i lobio Corus nag unrhyw un arall ynglŷn ag a ddylai Llanwern gau yn gyfan gwbl er mwyn arbed y felin oer yn Shotton, nac i’r gwrthwyneb. Byddaf yn cyfarfod cynrychiolwyr gweithlu Shotton ddydd Gwener, yn ogystal â chadw dau ymrwymiad swyddogol arall yng ngogledd Cymru. Gobeithio y gallaf roi taw gwirioneddol ar y sibrydion di-sail sydd i’w clywed yn yr ardal ac a gyhoeddir yn y wasg. Gobeithiaf hefyd y byddwch yn fy nghynorthwyo gyda hynny, Peter.

### **Hawliau Plant Children’s Rights**

**C4 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad pellach am ei ymateb yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2000, lle y dywedodd y byddai’n rhoi addewid pendant i’r Cynulliad ac i blant Cymru y byddai’r pwys dyledus yn cael ei roi ar hawliau plant? (OAQ9554)

**Q4 Elin Jones:** Will the First Minister make a further statement on his response in Plenary on 17 October 2000, in which he said that he would give the Assembly and the children of Wales his absolute assurance that children’s rights would be given the importance they deserve? (OAQ9554)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r Cynulliad wedi cymryd camau i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc. Y cam pwysicaf oedd creu comisiynydd annibynnol ar gyfer plant Cymru. Mae Mesur Comisiynydd Plant Cymru, sydd wedi cyrraedd Tŷ’r Arglwyddi erbyn hyn, yn nodi mai prif nod y Comisiynydd wrth weithredu ei swyddogaethau fydd diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru. Mae’r ddogfen yr ydym yn ymgynghori arni ar hyn o bryd, sef ‘Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth’, yn nodi cred y Cynulliad y dylai Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn fod yn sail egwyddorol wrth ymdrin â phlant.

**The First Minister:** The Assembly has taken steps to promote the rights of children and young people. The most important step was the creation of an independent commissioner for the children of Wales. The Children’s Commissioner for Wales Bill, which has now reached the House of Lords, notes that the Commissioner’s main aim in carrying out his functions will be to safeguard and promote the rights and welfare of children in Wales. The document that we are consulting on at present, namely ‘Children and Young People: A Framework for Partnership’, notes that the Assembly believes that the United Convention on the Rights of the Child should provide a foundation of principle for dealing with children.



**Elin Jones:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod gan bob plentyn hawl gyfartal i addysg o safon gyfartal? Os felly, a yw'n anghytuno â chynlluniau Tony Blair yn Lloegr i ddiddymu'r gyfundrefn addysg gyfun a buddsoddi mewn ysgolion arbenigol sydd wedi ei seilio ar yr egwyddor o ddethol?

New Labour said yesterday that, and I quote in English as it would lose much in translation,

'the bog standard comprehensive is over'.

As a product of a bog standard comprehensive, I ask the First Minister, are their days over in Wales?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr hyn sydd yn bwysig yw bod y Prif Weinidog wedi pwysleisio mai siarad ar ran Lloegr yn unig yr ydoedd, gan mai Papur Gwyrdd ar gyfer Lloegr oedd dan sylw, heblaw am yr elfen y tynnodd Jocelyn Davies sylw ati yn y cwestiwn cyntaf y prynhawn yma. Defnyddiwyd yr ymadrodd '*bog standard*' wrth sôn am ysgolion cyfun, neu 'safon lle chwech'—nid wyf yn siŵr beth fyddai'r ymadrodd Cymraeg—gan lefarydd swyddogol y Prif Weinidog, nid Tony Blair ei hun.

Oherwydd ein daearyddiaeth, nid yw ysgolion cyfun arbenigol yn bosibilrwydd, gan mai un ysgol gyfun sydd mewn unrhyw ardal wledig. Mae hynny'n wir am 90 y cant o dir Cymru. Gellid cael elfen o ddewis mewn ardaloedd trefol. Yr ydym yn deall rhai agweddau ar y gobeithion a fynegir, sef y gallai ysgolion cyfun mewn trefi afael ar rywffaint o neges, bwriad ac ethos ysgolion arbenigol. Derbynia pawb fod bod yn fwy uchelgeisiol ac yn fwy penodol yn fantais. Fodd bynnag, nid dyna yw ein polisi, ac nid yw'r Prif Weinidog wedi ei gyflwyno gerbron pobl Cymru. Mae hynny'n rhan o'r Papur Gwyrdd ar gyfer Lloegr.

**Kirsty Williams:** On promoting children's rights in Wales, will you confirm that you still intend for the Children's Commissioner to have broad-ranging responsibilities and the ability to speak on broad-ranging issues that

**Elin Jones:** Does the First Minister agree that every child has an equal right to education of an equal standard? If so, does he disagree with Tony Blair's proposals to abolish the comprehensive education system in England and to invest in specialist schools based upon the principle of selection?

Dywedodd Llafur newydd ddoe, a dyfynnaf yn Saesneg gan y byddai'n colli llawer o'i ystyr o'i gyfieithu,

Fel cynnyrch addysg gyfun '*bog standard*', gofynnaf i Brif Weinidog Cymru, a yw eu hamser ar ben yng Nghymru?

**The First Minister:** It is important to note that the Prime Minister emphasised that he was only speaking about England, because it is a Green Paper for England, apart from the element to which Jocelyn drew attention in the first question this afternoon. It was the Prime Minister's official spokesman who used the phrase 'bog standard'—I am not sure what the Welsh phrase would be—in reference to comprehensive schools, not Tony Blair himself.

Given our geography, specialist comprehensive schools are not a possibility because there is only one comprehensive school in any rural area. That is true of 90 per cent of land in Wales. There could be an element of choice in urban areas. We understand some aspects of the hopes expressed, namely that comprehensive schools in towns could embrace some of the message, mission and ethos of specialist schools. Everyone accepts that being more ambitious and more focused is an advantage. However, it is not our policy, and the Prime Minister has not presented it before the people of Wales. It is contained in the Green Paper for England.

**Kirsty Williams:** Wrth hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru, a wnewch chi gadarnhau eich bod yn parhau i fwriadu i'r Comisiynydd Plant gael cyfrifoldebau eang a'r gallu i siarad ar y materion eang sydd yn effeithio ar

affect all children in Wales? Will he also be able to speak on behalf of those children in Wales who are forced, through no fault of their own, to receive services in England? Will we be able to overcome the difficulties presented to us by the devolution settlement?

**The First Minister:** This is an important issue, but it is difficult for us to comment, as the Bill is halfway through Parliament. It has gone through the House of Commons and will come before the House of Lords towards the end of this week or next. It is good that it has made such progress through the House of Commons. It appears that, regardless of the election date—at least in terms of the dates about which there has been speculation—it is likely to receive Royal Assent. I do not know whether further amendments will be made in the House of Lords. It might happen, but I do not wish to speculate on that. Amendments have been presented by voluntary bodies that deal with children's issues, in relation to the ability to inspect premises—which is the primary duty of the Care Standards Inspectorate—and about non-devolved Home Office functions regarding children who are in jails or special facilities in Wales or England. I am sure that those issues will be raised in the House of Lords. It is important to get the Bill passed. However, I do not want to go into detailed consideration about whether it can be passed with these amendments included, because that would be to interfere in the work of another legislature. However, it will be a good Bill, which will receive Royal Assent before the election.

holl blant Cymru? A fydd hefyd yn gallu siarad ar ran y plant hynny yng Nghymru sydd yn cael eu gorfodi, er nad hwy sydd ar fai, i dderbyn gwasanaethau yn Lloegr? A fyddwn yn gallu goresgyn yr anawsterau a gyflwynir inni gan y setliad datganoli?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae hwn yn fater pwysig, ond mae'n anodd inni wneud sylw arno gan fod y Mesur hanner ffordd drwy'r Senedd. Mae wedi mynd drwy Dŷ'r Cyffredin a bydd yn dod gerbron Tŷ'r Arglwyddi erbyn diwedd yr wythnos hon neu ddechrau'r wythnos nesaf. Mae'n dda ei fod wedi gwneud cynnydd o'r fath drwy Dŷ'r Cyffredin. Ymddengys, beth bynnag fo dyddiad yr etholiad—o leiaf o ran y dyddiadau y bu dyfalu yn eu cylch—ei fod yn debygol o dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Ni wn a gaiff gwelliannau eraill eu gwneud yn Nhŷ'r Arglwyddi. Gallai ddigwydd, ond nid wyf am ddamcaniaethu ar hynny. Cyflwynwyd gwelliannau gan gyrff gwirfoddol sydd yn delio â materion yn ymwneud â phlant, mewn perthynas â'r gallu i archwilio eiddo—sef prif ddyletswydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal—ac ynglŷn â swyddogaethau'r Swyddfa Gartref sydd heb eu datganoli mewn perthynas â phlant mewn carchardai neu gyfleusterau arbennig yng Nghymru neu Loegr. Yr wyf yn sicr y codir y materion hynny yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'n bwysig pasio'r Mesur. Fodd bynnag, nid wyf am fynd i ystyriaeth fanwl ynglŷn ag a ellir ei basio gyda'r gwelliannau hyn oherwydd byddai hynny'n ymyrryd â gwaith deddfwrfa arall. Fodd bynnag, bydd yn Fesur da, a fydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol cyn yr etholiad.

### **Materion heb eu Datganoli sydd yn Ymwneud â Chymru Non-devolved Matters Concerning Wales**

**Q5 David Melding:** Has the First Minister had discussions with the Secretary of State for Wales regarding matters concerning Wales not devolved to the Assembly? (OAQ9559)

**The First Minister:** I refer you to the answer that I gave Nick Bourne last week on this issue. I have frequent discussions with the Secretary of State, most recently, in terms of non-devolved issues, on the future of RAF St Athan, now DARA St Athan, and DARA

**C5 David Melding:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch materion sydd yn ymwneud â Chymru sydd heb eu datganoli i'r Cynulliad? (OAQ9559)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiraf at yr ateb a roddais i Nick Bourne yr wythnos diwethaf ar y mater hwn. Yr wyf yn cael trafodaethau cyson gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, yn fwyaf diweddar, o ran materion heb eu datganoli, ar ddyfodol cyfleuster y Llu

Sealand.

Awyr Brenhinol yn Sain Tathan, sef DARA Sain Tathan yn awr, a DARA Sealand.

**David Melding:** This may be pertinent to your previous answer to Kirsty Williams on the Children's Commissioner for Wales. However, there are currently 389 children in Welsh prisons. Do you think that it is appropriate for children to be incarcerated? If not, will you take up this issue with the Secretary of State for Wales?

**David Melding:** Efallai bod hwn yn berthnasol i'ch ateb blaenorol i Kirsty Williams ar Gomisiynydd Plant Cymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae 389 o blant mewn carchardai yng Nghymru. A ydych o'r farn ei bod yn briodol i blant gael eu carcharu? Os nad ydych, a wnewch chi godi'r mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru?

**The First Minister:** I am happy to take up that issue with the Secretary of State for Wales.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn fwy na pharod i godi'r mater hwnnw gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Mick Bates:** Will the First Minister support the devolution of power to provide free personal care? Furthermore, does the First Minister agree that the Barnett formula should be replaced by a formula based on need?

**Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi datganoli pŵer i ddarparu gofal personol am ddim? Yn ogystal, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylid disodli fformwla Barnett gyda fformwla sydd yn seiliedig ar angen?

**The First Minister:** Those are two enormously wide-ranging issues, Mick, which reflect your contributions to these sessions, and on which I compliment you. As regards free personal care, you will be aware of the pathbreaking announcement that Jane Hutt made last week when discussing the NHS review and health policy outside of the NHS. She referred to the proposal to provide five or six weeks of free personal care after discharge from hospital. I regard that as an innovative idea. It has received a positive response across Wales. It is different from the Scottish solution, which, in turn, is different from the English solution. However, I think that the Welsh solution is the one that has been best adapted to Welsh circumstances. The issue of the Barnett formula and whether it would be replaced is not just a matter for tactical thinking. If the Barnett formula was replaced by a needs-based formula, I would be surprised if Wales finished up worse off in terms of funding: we would probably finish up better off. However, if it was replaced by nothing at all, we would definitely finish worse off. Therefore, this is not a matter for quick answers when you consider that the Barnett formula was introduced 22 or 23 years ago. We would want to be sure that it would work over the next quarter of a century if we were to make such a change.

**Prif Weinidog Cymru:** Dyna ddau fater â chwmpas eang iawn, Mick, sydd yn adlewyrchu eich cyfraniadau i'r sesiynau hyn, ac fe'ch cymeradwyaf am hynny. O ran gofal personol am ddim, byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiad arloesol a wnaethpwyd gan Jane Hutt yr wythnos diwethaf wrth drafod adolygiad yr NHS a'r polisi iechyd y tu allan i'r NHS. Cyfeiriodd at y cynnig i ddarparu pum neu chwe wythnos o ofal personol am ddim ar ôl rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Ystyriaf fod hynny'n syniad arloesol. Cafodd ymateb cadarnhaol ledled Cymru. Mae'n wahanol i'r hyn a wnaethpwyd yn yr Alban sydd, yn ei dro, yn wahanol i'r hyn a wnaethpwyd yn Lloegr. Fodd bynnag, yr wyf o'r farn mai'r hyn a wnaethpwyd yng Nghymru yw'r un a addaswyd orau i amgylchiadau Cymru. Nid yw mater fformwla Barnett a pha un ai fyddai'n cael ei ddisodli yn fater ar gyfer ystyriaeth dactegol yn unig. Pe bai fformwla Barnett yn cael ei ddisodli gan fformwla sydd yn seiliedig ar anghenion, fe synnwn pe bai Cymru yn waeth ei byd o ran cyllid: byddem fwy na thebyg yn well ein byd. Fodd bynnag, pe na bai'n cael ei ddisodli gan unrhyw beth, byddem yn sicr yn waeth ein byd. Felly, nid yw hwn yn fater ar gyfer atebion cyflym pan ystyriwch y cyflwynwyd fformwla Barnett 22 neu 23 blynedd yn ôl. Byddem am sicrhau y

byddai'n gweithio dros y chwarter canrif nesaf pe baem yn gwneud newid o'r fath.

2.20 p.m.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Yn unol ag ysbryd llywodraeth agored a thryloyw—rhywbeth yr ydych, wrth gwrs, yn awyddus i'w hyrwyddo—a wnewch chi drefnu i'r ohebiaeth rhwng y Cabinet, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Trysorlys ar fater Corus gael ei gosod yn Llyfrgell y Cynulliad fel ei bod ar gael i'r cyhoedd?

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd yr egwyddor rhyddid gwybodaeth yn effeithio yn yr un modd ag arfer ar ba ddogfennau a gyhoeddir. Nid ydym yn cyhoeddi llythyron neu wybodaeth a ddaw gan adrannau'r Llywodraeth ganolog, er enghraifft, heb ganiatâd. Mae hynny yn fater rhyddid gwybodaeth i'r corff arall. Felly, nid yw'r cyrff sydd yn anfon gwybodaeth yn ôl ac ymlaen rhwng adrannau canolog a ninnau am i'r wybodaeth honno gael ei rhyddhau heb eu caniatâd. Byddai hynny'n debygol o ddifetha ein perthynas â'r Trysorlys, er enghraifft. Yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno, Ieuan, nad ydym erioed wedi addo y byddem yn cyhoeddi eitemau o'r fath dan ein rheolau rhyddid gwybodaeth, sydd yn ymwneud â'n trefniadau ni ein hunain yn y Cynulliad. Wrth siarad am drafodaethau rhyngom a'r Trysorlys, er enghraifft, nid ydym erioed wedi gwneud addewid o'r fath.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr wyf yn siomedig â'r ateb hwnnw. Mae amwysedd mawr ynglŷn â beth yn union yw rôl y Trysorlys yn y mater hwn. Cefnogwn unrhyw ymdrech i achub swyddi Corus. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod yn rhaid i ni gael cynlluniau wrth gefn. A wnewch chi roi addewid heddiw i'r Cynulliad, yn eich trafodaethau â'r Trysorlys, os bydd angen arian i gynorthwyo'r cymunedau yr effeithir arnynt, y bydd yr arian hwnnw yn ychwanegol i arian y Cynulliad ac ni ddefnyddir arian Amcan 1 nag unrhyw ran arall o gyllideb y Cynulliad?

**Prif Weinidog Cymru:** Er i chi awgrymu i'r gwrthwyneb yn eich cwestiwn cyntaf ynglŷn â chyhoeddi llythyron, neu unrhyw wybodaeth arall, rhwng y Cynulliad a'r

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** In accordance with the spirit of open and transparent government—something that you, of course, are eager to promote—will you arrange for the correspondence between the Cabinet, the Secretary of State for Wales and the Treasury on the Corus issue to be placed in the Assembly Library so that it would be available to the public?

**The First Minister:** The freedom of information principle will effect which documents will be published in the same way as usual. We do not publish letters or information that we receive from central Government departments, for example, without permission. That is a matter of freedom of information for the other body. Therefore, the organisations that send information to and fro between central departments and ourselves, do not wish for that information to be released without their permission. That would probably destroy our relationship with the Treasury, for example. I am sure that you would accept, Ieuan, that we have never promised to publish such items under our rules on freedom of information, which deal with our own arrangements within the Assembly. We have never made such a promise in relation to discussions between ourselves and the Treasury, for example.

**Ieuan Wyn Jones:** I am disappointed with that answer. There is great ambiguity regarding the Treasury's exact role in this matter. We support any attempt to save jobs at Corus. However, it is obvious that we must have contingency plans. Will you today give a pledge to the Assembly that, in your discussions with the Treasury, if money is required to assist the affected communities, it will be additional to the Assembly's funding and that no Objective 1 funding or any other part of the Assembly's budget will be used?

**The First Minister:** Even though you suggested otherwise in your first question regarding the publication of letters, or any other information between the Assembly and

Trysorlys, yr wyf yn falch, Ieuan, eich bod yn derbyn yn awr nad oedd addewid o'r fath wedi'i wneud.

the Treasury, I am glad, Ieuan, that you now accept that no such promise was made.

Trof yn awr at eich ail gwestiwn. Wrth gynnal trafodaethau fel hyn, mae'n naturiol nad ydych yn gallu datgelu eu cynnwys nes eich bod yn cyrraedd canlyniad ac yn llunio casgliadau ar y diwedd. Pan fyddwn wedi rhoi'r pecyn at ei gilydd, byddwn yn gwneud cyhoeddiad i'r Cynulliad yn y modd arferol a bydd pawb yn gallu llunio eu casgliadau eu hunain. Ni allaf roi addewid ynglŷn ag unrhyw elfen o wariant cyhoeddus i ddweud ei fod yn dod o'r naill ffynhonnell neu'r llall. Rhaid i chi dderbyn y byddwn yn gwneud cyhoeddiad a byddwn yn atebol i'r Cynulliad am elfennau gwahanol y cyhoeddiad.

I now turn to your second question. When undertaking such discussions, it is natural that you are unable to disclose their contents until you have a result and draw conclusions at the end. When we have put the package together, we will make an announcement to the Assembly in the usual manner and everybody will be able to draw their own conclusions. I cannot give a commitment that any element of public funding will come from one source or another. You must accept that we will make an announcement and we will be accountable to the Assembly for the various elements of that announcement.

### **Cyfarfod Arweinwyr Cynghorau yn y Gogledd Meeting Council Leaders in North Wales**

**Q6 Alun Pugh:** In his capacity as north Wales policy co-ordinator, has the First Minister had an opportunity to meet with council leaders in north Wales? (OAQ9572)

**C6 Alun Pugh:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynnydd polisi yn y Gogledd, a yw Prif Weinidog Cymru wedi cael cyfle i gwrdd ag arweinwyr cynghorau yng ngogledd Cymru? (OAQ9572)

**The First Minister:** I meet leaders and chief executives of north Wales local authorities when the situation demands it. For example, I have met leaders of Flintshire County Council three times in the past three weeks because of the Corus issue. I am sure that there are particular issues that would involve the other council leaders, according to whether there is a crisis such as the flooding that occurred over the Christmas and New Year period, or any other matter. It depends on particular circumstances whether they come to Cardiff or I go up to north Wales for a meeting or whether we meet in the usual watering holes of Llandrindod Wells.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cwrdd ag arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol gogledd Cymru pan fydd y sefyllfa yn mynnu hynny. Er enghraifft, yr wyf wedi cwrdd ag arweinwyr Cyngor Sir y Fflint dair gwaith yn ystod y tair wythnos diwethaf yn sgîl mater Corus. Yr wyf yn siŵr bod materion arbennig a fyddai'n ymwneud ag arweinwyr cynghorau eraill, gan ddibynnu a oes argyfwng megis y llifogydd a gafwyd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, neu unrhyw fater arall. Mae'n dibynnu ar amgylchiadau penodol a fyddant yn dod i Gaerdydd neu a fyddaf i yn mynd i ogledd Cymru am gyfarfod neu a fyddwn yn cwrdd yn y manau cyfarfod arferol yn Llandrindod.

**Alun Pugh:** Many councillors and council leaders want to see Assembly sponsored public bodies' headquarters in north Wales. Do you agree that ASPBs and the Assembly itself should occupy offices built on brown field sites rather than on much used and well-loved children's football fields? How will we raise healthy children if we concrete over their pitches?

**Alun Pugh:** Mae nifer o gynghorwyr ac arweinwyr cynghorau am weld cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn sefydlu pencadlys yng ngogledd Cymru. A gytnwch y dylai cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a'r Cynulliad ei hun, feddu ar swyddfeydd a adeiladir ar feysydd llwyd yn hytrach nag ar gaeau pêl-droed poblogaidd, sydd yn agos at galonnau'r

plant? Sut mae magu plant iach os byddwn yn adeiladu ar eu caeau chwarae?

**The First Minister:** I have heard about the controversy around the Glan-y-Don playing fields in Colwyn Bay. I do not want to prevent the budding Neville Southalls, Mark Hugheses or Ian Rushes of the next generation from being able to ply their trade and to learn their craft because there are not enough football pitches in north Wales. When local authorities decide to bid for sites or have sites ready, whether for a call centre—I think that that is what the controversy originally arose over during the middle of last year—or for future Assembly buildings, it must be done in a way that ensures as much support from the local population as possible.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi clywed am y ddadl ynghylch caeau chwarae Glan-y-Don ym Mae Colwyn. Nid wyf am rwystro unrhyw ddarpar Neville Southall, Mark Hughes neu Ian Rush y genhedlaeth nesaf rhag gallu dysgu eu crefft oherwydd na cheir digon o gaeau pêl-droed yng ngogledd Cymru. Pan benderfyna awdurdodau lleol wneud cynnig am safleoedd neu pan feddant ar safleoedd eisoes, boed ar gyfer canolfan alwadau—yr wyf o'r farn mai hynny sydd wrth wraidd y ddadl a gododd ganol y flwyddyn ddiwethaf—neu ar gyfer adeiladau'r Cynulliad yn y dyfodol, rhaid ei wneud mewn modd a fydd yn sicrhau cymaint o gefnogaeth â phosibl gan y boblogaeth leol.

**Janet Ryder:** You said that these meetings were demand-led. Does that also relate to other groups in north Wales, such as the voluntary services, councils and the health authorities and trusts? Do you not think that, having taken on the responsibility for co-ordinating policy in north Wales, you should spend time there meeting these groups and familiarising yourself with their interests and concerns? When do you intend to do that?

**Janet Ryder:** Dywedasoeh fod y cyfarfodydd hyn yn dibynnu ar y galw. A yw hynny hefyd yn berthnasol i grwpiau eraill yng ngogledd Cymru, fel y gwasanaethau gwirfoddol, cynghorau a'r awdurdodau a'r ymddiriedolaethau iechyd? Oni chredwch, gan eich bod wedi cymryd y cyfrifoldeb dros gydlynw polisi yng ngogledd Cymru, y dylech dreulio amser yno yn cwrdd â'r grwpiau hyn ac yn ymgyswngwyo â'u buddiannau a'u pryderon? Pryd yr ydych yn bwriadu gwneud hynny?

**The First Minister:** Including the three engagements that I have this Friday, which I mentioned earlier, I will have carried out 23 official engagements in north Wales since I took on the role of policy co-ordinator in north Wales. That covers a wide variety of geographical areas and different interests from the business, education and voluntary sectors. I exclude party functions from this list. I refer to official engagements only in that figure of 23.

**Prif Weinidog Cymru:** Gan gynnwys y tri chyfarfod sydd gennyf ddydd Gwener, y soniais amdanynt yn gynharach, byddaf wedi cynnal 23 o gyfarfodydd swyddogol yng ngogledd Cymru ers imi ymgyswngwyo â rôl cydlynwdd polisi yng ngogledd Cymru. Mae hynny'n cwmpasu ystod eang o ardaloedd daearyddol a buddiannau gwahanol o'r sector busnes, y sector addysg a'r sector gwirfoddol. Ni chynhwysaf ddigwyddiadau plaid yn y rhestr hon. Cyfeiriaf at gyfarfodydd swyddogol yn unig yn y ffigur hwnnw o 23 cyfarfod.

**The Presiding Officer:** Question 7 has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl.

### **Cyfrifoldeb Arbennig am y Gogledd Special Responsibility for North Wales**

**Q8 Peter Rogers:** Will the First Minister

**C8 Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog

make a statement on whether north Wales has benefited from his decision to take on special responsibility for the region? (OAQ9576)

**The First Minister:** The most significant development during this period is that the three high profile appointments of chairs to either quangos or major public bodies have been of people from north Wales. Enid Rowlands is the Chair of the National Council for Education and Training for Wales, which was happily renamed ELWa this week. Sheila Drury was appointed Chair of the Welsh Industrial Development Advisory Board and Brian Howes was appointed to chair Finance Wales. Strictly speaking, the later is not a quango but the bank that we cannot call a bank. It is the agency for arranging finance for small and medium-sized enterprises. All those appointments were from the north Wales business community and I am sure that you are delighted about that, Peter.

**Peter Rogers:** There are problems in north Wales. The transport links to the south are a disadvantage, tourism is in decline and rural areas have problems in agriculture and increasing crime. Your becoming co-ordinator for policy in north Wales, First Minister, has made no difference to these problems. We demand more than warm words in north Wales. We need action to alleviate some of these problems.

**The First Minister:** That is why I referred to appointments rather than using warm words. I presented you with facts. Other facts include the delight felt in north-east Wales as a result of the announcement of the order for 60 air buses. I cannot take credit for that but, in terms of matters that I do not wave a magic wand over, the prospect of having 60 orders for the A300 airbus is not just warm words. This is in addition to the orders for the A380 and I understand that it will lead to 200 probably permanent jobs over the next 15 or 20 years. Perhaps you were overdoing the doom and gloom, Peter.

Cymru ddatganiad ynghylch a yw gogledd Cymru wedi elwa o'i benderfyniad i ysgwyddo cyfrifoldeb arbennig am y rhanbarth? (OAQ9576)

**Prif Weinidog Cymru:** Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn yw'r ffaith mai pobl o ogledd Cymru oedd y tri a benodwyd yn gadeiryddion pwysig cwangos neu brif gyrff cyhoeddus. Enid Rowlands yw Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, a ailenwyd yn ELWa yr wythnos hon. Penodwyd Sheila Drury fel Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru a phenodwyd Brian Howes i gadeirio Cyllid Cymru. A bod yn fanwl gywir, nid yw'r olaf yn gwango ond yn hytrach y banc na ellir ei alw'n fanc. Mae'n asiantaeth ar gyfer trefnu cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint. Daeth yr holl benodiadau hynny o gymuned fusnes gogledd Cymru ac yr wyf yn siŵr eich bod yn falch iawn o hynny, Peter.

**Peter Rogers:** Mae problemau yng ngogledd Cymru. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth i'r de yn anfantais, mae twristiaeth yn dirywio ac mae gan ardaloedd gwledig broblemau o ran amaethyddiaeth a throseddau cynyddol. Nid yw eich penodiad chi fel cydlynnydd polisi yng ngogledd Cymru Brif Weinidog, wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r problemau hyn. Yr ydym yn gofyn am fwy na geiriau cynnes yng ngogledd Cymru. Mae arnom angen gweithredu er mwyn lleihau rhai o'r problemau hyn.

**Prif Weinidog Cymru:** Dyna pahan y cyfeiriais at benodiadau yn hytrach na defnyddio geiriau caredig. Cyflwynais ffeithiau ichi. Ffaith arall yw'r boddhad a deimlir yng ngogledd-ddwyrain Cymru o ganlyniad i'r cyhoeddiad am archeb ar gyfer 60 o fsys awyr. Ni allaf gymryd y clod am hynny, ond, o ran materion nad wyf yn gallu chwifio ffon hud drostynt, nid dim ond geiriau caredig yw'r gobaith o gael 60 archeb am y bws awyr A300. Mae hyn yn ychwanegol at yr archebion am yr A380 a deallaf y bydd hynny'n arwain at 200 o swyddi parhaol fwy na thebyg dros y 15 neu 20 mlynedd nesaf. Efallai eich bod yn gorliwio'r dŵch Peter.

2.30 p.m.

**Tom Middlehurst:** Will you join me in welcoming the significant investment in the port of Mostyn that was announced last week? This is a clear demonstration that the Assembly is addressing the region's needs and development. It follows the week when extra investment was announced in Toyota. The Assembly can take credit for much, and we should recognise that. Let us not talk down what is happening in north Wales, let us talk it up.

**The First Minister:** I am grateful for that, Tom. I was involved—not as First Minister—in approving the regional selective assistance grant for Mostyn Docks. I was pleased when it finally got permission from the Department of the Environment, Transport and the Regions. Mostyn has bright prospects as a port; the P&O Group is starting a freight ferry service from Mostyn to Ireland that will contribute to the transport links from north Wales westwards to Ireland, which is significant for Mostyn. It is no longer a tiny backwater port, it will be significant. I look forward to seeing the work starting there soon.

**The Presiding Officer:** Questions 9 and 10 have been transferred for written answer.

**Tom Middlehurst:** A wnewch chi ymuno â mi wrth groesawu'r buddsoddiad sylweddol ym mhorthladd Mostyn a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf? Dengys hyn yn glir fod y Cynulliad yn mynd i'r afael ag anghenion a datblygiad y rhanbarth. Daw hynny ar ôl yr wythnos pan gyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol yn Toyota. Gall y Cynulliad gymryd y clod am lawer, a dylem gydnabod hynny. Gadewch inni beidio â thanbrisio'r hyn sydd yn digwydd yng ngogledd Cymru, gadewch inni ei ganmol.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny, Tom. Yr oeddwn yn gysylltiedig—nid fel Prif Weinidog Cymru—â chymeradwyo'r grant cymorth dethol rhanbarthol ar gyfer Dociau Mostyn. Yr oeddwn yn falch pan gafwyd caniatâd o'r diwedd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae dyfodol disglair gan Mostyn fel porthladd; mae Grŵp P&O yn dechrau gwasanaeth fferi gludo o Fostyn i Iwerddon a fydd yn ychwanegu at y cysylltiadau trafndiaeth o ogledd Cymru i'r gorllewin at Iwerddon, sydd yn arwyddocaol i Fostyn. Nid porthladd bach marwaidd mohono bellach, ond yn hytrach fe dyf yn arwyddocaol. Edrychaf ymlaen at weld y gwaith yn dechrau yno'n fuan.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiynau 9 a 10 ar gyfer ateb ysgrifenedig.

#### **Datblygu Polisi a Chydlynu Materion Trawsbynciol (Corus) Policy Development and Co-ordinating Cross-cutting Issues (Corus)**

**Q11 Alison Halford:** With regard to policy development and co-ordination of cross-cutting issues, what lessons has the Assembly learned from the recent dealings with Corus in order to prevent such actions in the future? (OAQ9578)

**The First Minister:** I am grateful for that question because Corus did itself no favours in its conduct. It was in marked contrast to the way Ford in handling the disinvestment in Cleveland, Ohio, and the welcome investment in Bridgend, operated on both sides of the Atlantic.

**C11 Alison Halford:** O safbwynt datblygu polisi a chydlynu materion trawsbynciol, pa wersi y mae'r Cynulliad wedi'u dysgu o'r trafodaethau diweddar â Corus er mwyn sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd yn y dyfodol? (OAQ9578)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cwestiwn hwnnw oherwydd ni wnaeth ymddygiad Corus unrhyw beth i helpu'r cwmni. Yr oedd yn wrthgyferbyniad llwyr i'r ffordd y mae Ford yn ymdrin â'r dadfuddsoddiad yn Cleveland, Ohio, a'r buddsoddiad a groesawyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd yn digwydd ar ddwy ochr Môr Iwerydd.



As regards Corus, we are continuing to work closely with the trade unions. There will be an enormously important meeting between the trade unions and Corus' top brass tomorrow. We had a meeting of the taskforce, which involved the trade unions, local authorities, central Government agencies such as the Department for Education and Employment, and other agencies in Wales such as the Welsh Development Agency and the training and enterprise councils. Therefore, we tried to examine this as a cross-cutting issue, allowing for the fact that the circumstances will be different in Ebbw Vale, Llanwern, Shotton and Bryngwyn. Each will need a tailor-made package suiting their exact circumstances when we know the outcome of tomorrow's negotiations. We hope that tomorrow's meeting between Corus and the steel unions in London goes well.

**Alison Halford:** Continuing the policy development theme, and bearing in mind the unnecessary criticism of you by colleagues in this Chamber about your perceived lack of interest in north Wales, can you recall that you went to a business breakfast on 12 January, and made useful statements there? Regrettably Janet Ryder or Peter Rogers did not attend it and they may wish to know what you said in their absence.

**Peter Rogers** *rose*—

**The Presiding Officer:** Order. Alison Halford asked a supplementary question and is entitled to an answer.

**The First Minister:** I am not responsible for attendance at business breakfasts. It is one of those American innovations of which I do not entirely approve. I have every sympathy, therefore, with Peter, and others, who may have chosen not to attend, who may not have been invited, or who may have been there. I do not know. All I can say is that it was incredibly well attended—

**Alun Cairns:** Peter was there.

**The First Minister:** The fact that there were

O ran Corus, yr ydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r undebau llafur. Cynhelir cyfarfod hynod o bwysig rhwng yr undebau llafur a phwysigion Corus yfory. Cawson gyfarfod o'r tasglu, a oedd yn cynnwys yr undebau llafur, awdurdodau lleol, asiantaethau Llywodraeth ganolog megis yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth, ac asiantaethau eraill yng Nghymru megis Awdurdod Datblygu Cymru a chynghorau hyfforddi a menter. Felly, ceisiwyd archwilio hyn fel mater trawsbynciol, gan gofio y bydd yr amgylchiadau yn wahanol yng Nglynebwy, Llanwern, Shotton a Bryngwyn. Bydd angen i bob un gael pecyn wedi'i deilwra'n arbennig, yn gweddu i'w hamgylchiadau penodol, pan fyddwn yn gwybod canlyniad negodiadau yfory. Gobeithiwn y bydd y cyfarfod hwnnw yfory rhwng Corus a'r undebau dur yn Llundain yn llwyddiannus.

**Alison Halford:** Gan barhau â thema datblygu polisi, a chan ystyried y feirniadaeth ddiangen a gawsoch gan eich cydweithwyr yn y Siambr hon ynglŷn â'r hyn y gellid ei ddehongli fel diffyg diddordeb yng ngogledd Cymru, a allwch gofio ichi fynychu brechwast busnes ar 12 Ionawr, a gwneud datganiadau defnyddiol yno? Yn anffodus nid oedd Janet Ryder na Peter Rogers yn bresennol ac efallai y byddent am wybod yr hyn a ddywedasochoch yn eu habsenoldeb.

**Peter Rogers** *a gododd*—

**Y Llywydd:** Trefn. Gofynnodd Alison Halford gwestiwn atodol ac mae ganddi hawl i gael ateb.

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf yn gyfrifol am bresenoldeb mewn brechwastau busnes. Mae'n un o'r dyfeisiau Americanaidd hynny nad wyf yn cytuno'n llwyr â hwy. Mae gennyf bob cydymdeimlad felly, gyda Peter, ac eraill, a ddewisodd i beidio â mynychu efallai, na wahoddyd efallai, neu a oedd yno efallai. Nid wyf yn gwybod. Yr unig beth y gallaf ei ddweud yw y cafwyd presenoldeb arbennig o dda—

**Alun Cairns:** Yr oedd Peter yno.

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r ffaith bod tua

some 300 people present may be why I did not see Peter.

It was great to speak to such a large, warm and receptive audience. It almost made it worth the effort of getting up and getting into gear a little earlier than I otherwise would, although of course you cannot eat your breakfast at a business breakfast if you are the guest of honour.

**Phil Williams:** Without exonerating Corus at all, do you agree that Corus gave many advance warnings of its problems, including the reception in the Assembly Neuadd attended by seven leading Corus managers? There were far more of them in attendance than members of the Government. Can you explain to the public why the Government's first apparent response was on 13 December? That was eight days after Corus had taken the crucial decision to restructure the UK carbon steel division.

**The First Minister:** This is an interesting point: what were we supposed to do, exactly, before 5 December? Were we supposed to say to John Bryant and his Dutch opposite number, Mr Fokko van Duyne, 'You are lying. We know that you are not going to reline the blast furnace in Llanwern. We know that you will shortly be 'caused' to depart your present office and that you are not going to be there long, we know that you are kidding us, and we know that you are going to stand on your heads shortly'. You cannot do or say that. I was one of the few who put their heads above the parapet at the time of the merger. I said that there might be problems and that a dagger might be pointed straight at Llanwern and Port Talbot. Mr Brian Moffat and his Dutch opposite number reacted angrily to my intervention in this matter in May 1999. However, if the firm states time and time again that it is pursuing a particular strategy until 5 December, you are somewhat up in the air in implying that we could have read between the lines about what was really happening in the company when you now know it was the exact opposite. They had previously said that they would reline the blast furnace and the next thing you know they are not going to reline it and are

300 o bobl yn bresennol efallai'n egluro pam na welais Peter.

Yr oedd yn brofiad gwych i siarad â chynulleidfa mor fawr, mor gynnes a derbyngar. Yr oedd bron yn werth yr ymdrech o godi a pharatoi ychydig yn gynt nag y byddwn fel arfer yn ei wneud, er, wrth gwrs, nid oes modd bwyta eich brecwast mewn brecwast busnes os mai chi yw'r gŵr gwadd.

**Phil Williams:** Heb esgusodi Corus mewn unrhyw ffordd, a gytunwch y rhoddodd Corus nifer o rybuddion ymlaen llaw am ei broblemau, gan gynnwys y dderbynwest yn Neuadd y Cynulliad a fynychwyd gan saith o brif reolwyr Corus? Yr oedd llawer mwy ohonynt hwy yn bresennol nag aelodau'r Llywodraeth. A allwch egluro i'r cyhoedd pam mai ar 13 Rhagfyr y cafwyd ymateb cyntaf y Llywodraeth? Yr oedd hynny'n wyth diwrnod ar ôl i Corus wneud y penderfyniad tyngedfennol i ailstrwythuro adran dur carbon y DU.

**Prif Weinidog Cymru:** Mae hwn yn bwynt diddorol: beth yn union y disgwyliwyd inni ei wneud cyn 5 Rhagfyr? A ddisgwyliwyd inni ddweud wrth John Bryant a'i swyddog cyfatebol yn yr Iseldiroeddl, Mr Fokko van Duyne, 'Yr ydych yn dweud celwydd. Gwyddom nad ydych yn mynd i ail-leinio'r ffwrnais chwyth yn Llanwern. Gwyddom y daw 'achos' ichi adael eich swyddfa bresennol yn fuan ac na fyddwch yno'n hir, gwyddom eich bod yn dweud celwydd wrthym, a gwyddom eich bod yn mynd i sefyll ar eich pennau yn fuan'. Ni allwch wneud na dweud hynny. Yr oeddwn i yn un o'r ychydig rai a edrychodd y tu hwnt i'r mur ar adeg yr uno. Dywedais efallai y byddai problemau ac efallai mai Llanwern a Phort Talbot fyddai'n dioddef. Ymatebodd Mr Brian Moffat a'i swyddog cyfatebol o'r Iseldiroedd yn ddiog i'm hymyrraeth yn y mater hwn ym Mai 1999. Fodd bynnag, os yw'r cwmni yn datgan dro ar ôl tro ei fod yn dilyn strategaeth benodol tan 5 Rhagfyr, nid oes llawer o sail gennych i awgrymu y gallem fod wedi darllen rhwng y llinellau ynglŷn â'r hyn a oedd yn digwydd mewn gwirionedd yn y cwmni pan wyddoch yn awr mai'r hyn a oedd yn digwydd oedd y gwrthwyneb llwyr. Dywedasant yn flaenorol y byddent yn ail-

going to shutdown the whole of the heavy industry in Llanwern. There was no way that we could have known that when the company changed direction on 5 December.

**William Graham:** Are the lessons learnt from the 1980s slim-down incorporated into the findings to which you referred previously? If so, when will we see them being implemented?

**The First Minister:** The lessons of slim-down bring back difficult memories of Ian McGregor and Margaret Thatcher as the two mad axe people of heavy industry in this country. Once they had finished with the steel industry, they went on to the coal industry. I am unsure what lessons you wish to draw from that period, but I was under the impression that Margaret Thatcher and her Government did not know what they were doing in playing around with the British economy after they first came to power. I do not believe that they intended to create the manufacturing holocaust that they did, but that is what happened. There was a 20 per cent fall in output during those first two years and nobody was buying steel. Nothing like that is happening now. There are minor, microscopic difficulties in comparison with the havoc wrought by Margaret Thatcher. Ian McGregor had to axe thousands of jobs from the steel industry. Llanwern's workforce decreased from 8,000 to 4,000. The same thing happened in Port Talbot and 8,000 jobs were axed in Shotton alone. All of that was in the first 12 months of the Thatcher Government. I am sorry that you brought that up because it brings back such dreadful memories to anyone living in Wales at the time.

leinio'r ffwrnes chwyth a'r peth nesaf a wyddoch yw nad ydynt yn mynd i'w hail-leinio a'u bod yn bwriadu cau'r holl ddiwydiant trwm yn Llanwern. Nid oedd unrhyw ffordd y gallem fod wedi gwybod hynny pan newidiodd y cwmni gyfeiriad ar 5 Rhagfyr.

**William Graham:** A ymgorfforwyd y gwersi a ddysgwyd o feinhad yr 1980au yn y casgliadau y cyfeiriasoch atynt yn flaenorol? Os felly, pa bryd y byddwn yn eu gweld yn cael eu gweithredu?

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r gwersi meinhad yn dod ag atgofion poenus yn ôl am Ian McGregor a Margaret Thatcher fel dau berson a ymosododd ar ddiwydiant trwm yn y wlad hon. Wedi iddynt orffen gyda'r diwydiant dur, aethant ymlaen at y diwydiant glo. Nid wyf yn sicr pa wersi yr ydych am eu dysgu o'r cyfnod hwnnw, ond yr oeddwn i dan yr argraff nad oedd Margaret Thatcher a'i Llywodraeth yn gwybod beth yr oeddent yn ei wneud wrth chwarae ag economi Prydain ar ôl iddynt ddod i rym gyntaf. Nid wyf o'r farn eu bod yn bwriadu creu'r holocaust diwydiannol a grëwyd ganddynt, ond dyna a ddigwyddodd. Cafwyd gostyngiad o 20 y cant mewn cynhyrchion yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ac nid oedd unrhyw un yn prynu dur. Nid oes unrhyw beth felly yn digwydd yn awr. Ceir anawsterau dibwys, pitw o'u cymharu â'r hafoc a grëwyd gan Margaret Thatcher. Bu'n rhaid i Ian McGregor gael gwared ar filoedd o swyddi o'r diwydiant dur. Gostyngodd gweithlu Llanwern o 8,000 i 4,000. Digwyddodd yr un peth ym Mhort Talbot a chafwyd gwared ar 8,000 o swyddi yn Shotton. Yr oedd hynny oll yn ystod 12 mis cyntaf Llywodraeth Thatcher. Mae'n flin gennyf eich bod wedi codi'r mater hwnnw oherwydd daw ag atgofion mor ofnadwy yn ôl i rai a oedd yn byw yng Nghymru ar y pryd.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Minister for Assembly Business (Andrew Davies):** Business for the next three weeks is as follows. The Assembly will be in recess next week. Business on Tuesday

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ganlyn. Bydd y Cynulliad ar doriad yr wythnos nesaf. Bydd busnes ar ddydd

27 February will include a debate on a basic skills strategy, motions to approve the road safety and the local transport scheme special grant report and a motion to approve the Homeless Persons (Priority Need) (Wales) Order 2001. On 1 March, St David's Day, business will include a debate on the Queen's Speech, and following the short debate the Taoiseach of Ireland, Bertie Ahern, will address the Assembly. Business on 6 March is as I reported last week. On Thursday 8 March, there will be a debate on the social disadvantage annual reports, a Plaid Cymru minority party debate and a composite motion to approve three items of subordinate legislation relating to education. On Tuesday 13 March business will include a debate on the former Pre-16 Education Committee report on information communications technology and motions to approve the following legislation: the National Health Service (Professions Supplementary to Medicine) Amendment (Wales) Regulations 2001 and the Education (Pupil Registration) Amendment (Wales) Regulations 2001. On Thursday 15 March there will be a debate on the revisions to the 'Betterwales.com' document and motions to approve the Local Education Authority (Behaviour Support Plans) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and the Highways Noise Payments (Moveable Homes) (Wales) Regulations 2001.

Finally, on the advice of the Business Committee this morning, the Deputy Presiding Officer determined, in accordance with Standing Order No. 22.5, that the following items of subordinate legislation need not be referred to a Subject Committee. These are the School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2001, the Education (School Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2001, the National Health Service Trusts (Cardiff and Vale National Health Service Trust) (Originating Capital) (Wales) Order 2001, the Slaughter Premium (Wales) Regulations 2001, the Restriction of Pithing (Wales) Regulations 2001, the Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) Regulations 2001, the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001, the Food Irradiation Provisions (Wales) Regulations 2001 and the

Mawrth 27 Chwefror yn cynnwys dadl ar strategaeth sgiliau sylfaenol, cynigion i gymeradwyo adroddiad grant arbennig diogelwch ffyrdd a'r cynllun trafndiaeth lleol a chynnig i gymeradwyo Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001. Ar 1 Mawrth, Dydd Gŵyl Dewi, bydd busnes yn cynnwys dadl ar Araith y Frenhines, ac yn dilyn y ddadl fer bydd Taoiseach Iwerddon, Bertie Ahern, yn annerch y Cynulliad. Mae busnes ar 6 Mawrth fel yr adroddais yr wythnos diwethaf. Ar ddydd Iau 8 Mawrth, bydd dadl ar adroddiadau blynyddol anfantais gymdeithasol, dadl plaid leiafrifol gan Blaid Cymru a chynnig cyfansawdd i gymeradwyo tair eitem o is-ddeddfwriaeth yn ymwneud ag addysg. Ddydd Mawrth 13 Mawrth bydd y busnes yn cynnwys dadl ar adroddiad y cyn Bwyllgor Addysg Cyn 16 ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chynigion i gymeradwyo'r ddeddfwriaeth ganlynol: Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001. Ddydd Iau 15 Mawrth ceir dadl ar y diwygiadau i ddogfen 'Gwellcymru.com' a chynigion i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001.

Yn olaf, ar gyngor y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, nad oedd angen i'r eitemau canlynol o ddeddfwriaeth eilaidd gael eu cyfeirio i Bwyllgor Pwnc. Y rhain yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001, Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001, Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001, Rheoliadau Cyfyngu Pithio (Cymru) 2001, Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001, Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001, Rheoliadau Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001 a

Learning and Skills Act 2000 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2001. Copies of the business statement will be posted to the intranet and internet today.

Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001. Bydd copïau o'r datganiad busnes yn cael eu rhoi ar y fewnwyd a'r rhyngwyd heddiw.

2.40 p.m.

**The Presiding Officer:** Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments on the business statement?

**Y Llywydd:** A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes unrhyw sylwadau ar y datganiad busnes?

**William Graham:** Andrew, in a spirit of accountability and openness, which you often demonstrate in the Business Committee, will you consider bringing forward more debates rather than statements? Statements may suit the Executive, but they do not include motions on which we can vote in Plenary, and on which we can table amendments. In that spirit, will you, in future, desist from so many statements and encourage more debates?

**William Graham:** Andrew, yn ysbyrd atebolrwydd a gonestrywdd, yr ydych yn aml yn ei ddangos yn y Pwyllgor Busnes, a ystyriwch gyflwyno mwy o ddadleuon yn hytrach na datganiadau? Efallai bod datganiadau yn addas i'r Weithrediaeth, ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw gynigion y gallwn bleidleisio arnynt mewn Cyfarfod Llawn, a chyflwyno gwelliannau arnynt. Yn yr ysbryd hwnnw, a wnewch chi, yn y dyfodol, ymatal rhag gwneud cymaint o ddatganiadau a hybu mwy o ddadleuon?

**Andrew Davies:** Thank you for that tribute to my commitment to openness and transparency. As colleagues know, I am committed to that. Regarding the balance of debates and statements, as I have said on previous occasions, most Cabinet statements in Plenary are in response to urgent questions raised usually by members of the other political parties. We will continue to do that, but as an Executive we reserve the right to bring forward items of business in the most effective way for the Government of Wales. We will honour that commitment and our commitment to openness and transparency.

**Andrew Davies:** Diolch ichi am y deyrnged honno i'm hymrwymiad i onestrwydd a thryloywder. Fel y gŵyr cyd-Aelodau, yr wyf yn ymrwymedig i hynny. Ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng dadleuon a datganiadau, fel y dywedais o'r blaen, mae'r rhan fwyaf o ddatganiadau'r Cabinet mewn Cyfarfod Llawn yn ymateb i gwestiynau brys a godir fel arfer gan aelodau o'r pleidiau gwleidyddol eraill. Byddwn yn parhau i wneud hynny, ond fel Gweithrediaeth yr ydym yn cadw'r hawl i gyflwyno eiteimau busnes yn y ffordd fwyaf effeithiol i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn anrhydeddu'r ymrwymiad hwnnw a'n hymrwymiad i onestrwydd a thryloywder.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.  
Business statement adopted.*

### **Datganiad ar Laeth i Ysgolion Statement on School Milk**

**The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones):** The School Milk (Wales) Regulations 2001 came into effect on 1 February. The regulations enable the National Assembly to ensure that all key stage 1 school children in Wales are able to receive,

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Daeth y Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) i rym ar 1 Chwefror. Mae'r rheoliadau yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod pob plentyn ysgol cyfnod allweddol 1 yng Nghymru yn gallu

at no charge, milk on each day of the school year. This provision is unique to Wales. It delivers the commitment set out in 'Putting Wales First: A Partnership for the People of Wales'. In addition, the regulations enable the National Assembly to cover the cost of the reduced subsidy from Europe under the European Community school milk scheme. For primary pupils other than those at key stage 1—those who are under the age of five or over the age of seven—this means that their parents or guardians will not be asked to make an increased financial contribution where children take milk at school. All those children in key stage 1 will be able to access free school milk.

The regulations go further than the commitment in 'Putting Wales First'. Detailed guidance has been issued to local education authorities and to the independent schools sector about the operational arrangements of the National Assembly's milk scheme for primary school pupils in Wales. Copies of those regulations and the guidance have been placed in the Library. The support of the Government of the National Assembly builds on the existing European Community school milk scheme. In the UK the scheme applies to all pupils at the primary stage of their education. The scheme is administered in the UK by the intervention board. This will also be the case for the National Assembly's school milk provision.

Under the EC scheme, local education authorities must register with the board in order for their schools to participate. This is entirely a local decision. There is no compulsion for a local education authority to join the EC scheme. Where a local education authority has registered, it becomes a matter for an individual school whether it decides to take advantage of the European subsidy for milk for primary age children at school. Under the EC scheme, parents or guardians are obliged to make a financial contribution. The Assembly will defray that charge for key stage 1 pupils. At present, 21 LEAs are registered with the board for the purposes of the EC scheme. The exception is Monmouthshire. Not all primary schools participate under the EC scheme.

derbyn llaeth ar bob diwrnod o'r flwyddyn ysgol, am ddim. Mae'r ddarpariaeth hon yn unigryw i Gymru. Mae'n cyflawni'r ymrwymiad a nodwyd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'. Yn ogystal, mae'r rheoliadau'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i dalu cost y cymhorthdal gostyngol o Ewrop o dan gynllun llaeth i ysgolion y Gymuned Ewropeaidd. Ar gyfer disgyblion cynradd ar wahân i'r rheini sydd yng nghyfnod allweddol 1—y rheini sydd o dan bump neu'n hŷn na saith mlwydd oed—golyga hyn na ofynnir i'w rhieni neu warcheidwaid wneud cyfraniad ariannol uwch pan fo plant yn derbyn llaeth yn yr ysgol. Bydd pob plentyn yng nghyfnod allweddol 1 yn gallu cael llaeth am ddim mewn ysgolion.

Aiff y rheoliadau ymhellach na'r ymrwymiad yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'. Cyhoeddwyd arweiniad manwl i awdurdodau addysg lleol ac i'r sector ysgolion annibynnol ynghylch trefniadau gweithredol cynllun llaeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddisgyblion ysgolion cynradd Cymru. Rhoddwyd copïau o'r rheoliadau hynny yn y Llyfrgell. Mae cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn adeiladu ar seiliau presennol cynllun llaeth i ysgolion y Gymuned Ewropeaidd. Yn y DU mae'r cynllun yn berthnasol i bob disgybl yng nghyfnod cynradd eu haddysg. Gweinyddir y cynllun yn y DU gan y bwrdd ymyrraeth. Dyma fydd yn digwydd hefyd ar gyfer darpariaeth llaeth i ysgolion y Cynulliad Cenedlaethol.

O dan gynllun y GE, rhaid i awdurdodau addysg lleol gofrestru gyda'r bwrdd er mwyn i'w hysgolion gymryd rhan. Penderfyniad lleol yw hwn yn gyfan gwbl. Nid oes unrhyw orfodaeth ar awdurdod addysg lleol i ymuno â chynllun y GE. Pan fo awdurdod addysg lleol wedi cofrestru, daw'n fater ar gyfer ysgol unigol pa un a yw'n penderfynu manteisio ar y cymhorthdal Ewropeaidd ar gyfer plant sydd mewn oedran cynradd yn yr ysgol. O dan gynllun y GE, rhaid i rieni neu warcheidwaid wneud cyfraniad ariannol. Bydd y Cynulliad yn talu'r taliad hwnnw ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 1. Ar hyn o bryd, mae 21 AALl wedi'u cofrestru gyda'r bwrdd at ddibenion cynllun y GE. Yr eithriad yw Sir Fynwy. Nid yw pob ysgol gynradd yn cymryd rhan o dan gynllun y GE. Gan

Acknowledging the nutritional benefits of milk, and in support of introducing younger pupils to healthier diets and lifestyle, I hope that LEAs, schools and parents will welcome this Assembly initiative and respond positively—to the key stage 1 free milk scheme and the greater participation in the European scheme for other primary pupils.

The milk at no charge scheme is aimed at primary level pupils who do not receive either nursery or key stage 2 education, which means that around 110,000 school children are eligible to take advantage of the Assembly's financial support.

As well as meeting the net cost of milk delivered at the school gate for eligible pupils, the Assembly's scheme also includes 3p per serving of milk at school to cover the LEAs' administrative costs after deducting the European subsidy element. We do not anticipate any additional burden on schools. LEAs are responsible for arranging the delivery of milk supplies to individual schools and submitting claim forms to the board for payment. The main requirement will be for schools to notify their LEA separately of the number of eligible pupils who take up the free milk provision. This aspect of the milk scheme should ensure that parents or guardians are not charged. Schools that do not currently participate in the EC scheme can take advantage of the Assembly's free milk scheme without having to commit themselves to full participation in the wider EC scheme.

On promotion, the guidance issued asks LEAs to consult their headteachers and governing bodies about participating in the free milk provision. In turn, schools are asked to consult parents and guardians. To this end, the guidance includes model letters that LEAs and schools can utilise when undertaking local consultation. Schools should decide whether to enter into the Assembly's milk support regime and, if so, when the arrangements should be introduced at local level. We have provided the statutory framework and guidance for delivery of the free milk scheme for key stage 1 pupils. I urge LEAs, schools and parents to take advantage of this.

gydnabod buddiannau maethlon llaeth, ac er mwyn cefnogi cyflwyno diet a ffordd iachach o fyw i ddisgyblion iau, gobeithiaf y bydd AALI, ysgolion a rhieni yn croesawu'r fenter hon gan y Cynulliad ac yn ymateb yn gadarnhaol—i'r cynllun llaeth am ddim i gyfnod allweddol 1 a mwy o ddisgyblion cynradd eraill yn cymryd rhan yn y cynllun Ewropeaidd.

Anelir y cynllun llaeth am ddim at ddisgyblion cynradd nad ydynt yn derbyn naill ai addysg feithrin nac addysg cyfnod allweddol 2, sydd yn golygu bod tua 110,000 o blant ysgol yn gymwys i fanteisio ar gymorth ariannol y Cynulliad.

Yn ogystal â thalu cost net llaeth a gludir at garreg drws yr ysgol ar gyfer disgyblion cymwys, mae cynllun y Cynulliad hefyd yn cynnwys 3c ar gyfer pob gwydraid o laeth yn yr ysgol er mwyn cwmpasu costau gweinyddol yr AALI ar ôl didynnu'r elfen o gymhorthdal Ewropeaidd. Ni ragwelwn unrhyw faich ychwanegol ar ysgolion. Mae AALI yn gyfrifol am drefnu i gludo'r cyflenwadau llaeth i ysgolion unigol a chyflwyno ffurflenni cais i'r bwrdd am daliadau. Y prif ofyniad fydd i ysgolion hysbysu eu AALI ar wahân ynghylch y nifer o ddisgyblion cymwys a fydd yn derbyn llaeth am ddim. Dylai'r agwedd hon ar y cynllun llaeth sicrhau na chodir tâl ar rieni na gwarcheidwaid. Gall ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan yng nghynllun y GE ar hyn o bryd fanteisio ar gynllun llaeth am ddim y Cynulliad heb orfod ymrwymo'n llawn i gynllun ehangach y GE.

O ran hyrwyddo, gofynna'r arweiniad a gyhoeddwyd i AALI ymgynghori â phenaethiaid a chyrrff llywodraethol ynglŷn â chymryd rhan yn y cynllun llaeth am ddim. Yn eu tro, gofynnir i ysgolion ymgynghori â rhieni a gwarcheidwaid. I'r perwyl hwn, cynhwysa'r arweiniad batrwm o lythyrau y gall AALI ac ysgolion eu defnyddio wrth ymgynghori'n lleol. Dylai ysgolion benderfynu a fyddant yn ymuno â threfniant cefnogi llaeth y Cynulliad ai peidio ac, os byddant, pryd y dylid cyflwyno'r trefniadau ar lefel leol. Yr ydym wedi darparu'r fframwaith statudol ac arweiniad ar gyfer rhoi'r cynllun llaeth am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ar waith. Anogaf AALI,

ysgolion a rhieni i fanteisio ar hyn.

However, we are not only relying on these measures, because we have approved additional funding of £105,000 over 3 years for the school milk research programme that is being taken forward by the WDA's food directorate. There are two facilitators: one for north Wales and one for the south, who are working directly with schools and LEAs across Wales to promote milk consumption among our younger generation. In addition, the school milk department at the Intervention Board, the Assembly's nutrition and food safety interests and the Food Standards Agency are available to deal with any queries that LEAs, schools or parents may have. Contact details are in the guidance that has been issued. Money is available to fund the provision of free milk and to cover the reduction in the European subsidy. The Minister for Finance will provide the Assembly with full details of the revised budget allocation when the supplementary budget is debated in March.

Positive benefits arise from the Assembly's school milk scheme. The nutritional value of milk is well recorded and it is important to introduce our younger generation to a healthier diet and lifestyle. There are also benefits from a dental care perspective. Increasing and sustaining milk consumption will help our own dairy industry. The Assembly Government in partnership has delivered on school milk and has laid a fundamental policy plank of the partnership agreement thereby fulfilling a promise to the people of Wales.

**Pauline Jarman:** I declare an interest as leader of Rhondda Cynon Taff County Borough Council, which introduced free milk to children some time ago in a more generous settlement than this one. Part of your statement relates to the reduction in the subsidy available from Europe. You will know that Gill Evans and Eurig Wyn, the Plaid Cymru Members of the European Parliament, opposed the reduction in EU subsidy and that the Welsh Labour MEPs supported it, which they must defend. Given that the Minister for Finance will not be announcing details of the revised budget

Fodd bynnag, nid ydym yn dibynnu ar y mesurau hyn yn unig, oherwydd yr ydym wedi cymeradwyo arian ychwanegol o £105,000 dros 3 blynedd ar gyfer y rhaglen ymchwil i laeth ysgol a ymgwymerir gan gyfarwyddiaeth fwyd y WDA. Ceir dau hwylusydd: un ar gyfer gogledd Cymru ac un ar gyfer y de, sydd yn gweithio yn uniongyrchol ag ysgolion ac AALI ar draws Cymru er mwyn hybu yfed llaeth ymhlith ein cenhedlaeth iau. Yn ogystal, mae adran laeth i ysgolion y Bwrdd Ymyrraeth, buddiannau maeth a diogelwch bwyd y Cynulliad a'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gael i ymdrin ag unrhyw ymholiadau oddi wrth AALI, ysgolion neu rieni. Ceir manylion cyswllt yn yr arweiniad a gyhoeddwyd. Mae arian ar gael er mwyn talu am ddarpariaeth llaeth am ddim ac er mwyn cwmpasu'r gostyngiad yn y cymhorthdal Ewropeaidd. Bydd y Gweinidog dros Gyllid yn darparu manylion llawn y dyraniad cyllideb diwygiedig i'r Cynulliad pan geir dadl ar y gyllideb atodol ym mis Mawrth.

Deillia buddiannau cadarnhaol o gynllun llaeth i ysgolion y Cynulliad. Mae gwerth maethlon llaeth wedi'i nodi ers amser ac mae'n bwysig cyflwyno diet a ffordd iachach o fyw i'n cenhedlaeth iau. Ceir buddiannau hefyd o safbwynt gofal dannedd. Bydd cynyddu a chynnal faint o laeth yr ydym yn ei yfed yn helpu ein diwydiant llaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad mewn partneriaeth wedi cyflwyno llaeth i ysgol ac wedi gosod un o elfennau polisi hanfodol y cytundeb partneriaeth, a thrwy hynny, wireddu addewid i bobl Cymru.

**Pauline Jarman:** Datganaf fuddiant fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cyngor Taf, a gyflwynodd laeth am ddim i blant beth amser yn ôl mewn setliad mwy hael na hwn. Mae rhan o'ch datganiad yn ymwneud â'r gostyngiad yn y cymhorthdal sydd ar gael o Ewrop. Byddwch yn ymwybodol fod Gill Evans ac Eurig Wyn, Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd Ewropeaidd, wedi gwrthwynebu'r gostyngiad yn y cymhorthdal gan y GE a bod ASE Llafur Cymreig wedi'i gefnogi, ac mae'n rhaid iddynt amddiffyn hynny. O ystyried na fydd y Gweinidog dros Gyllid yn cyhoeddi



allocation until the supplementary budget is announced in March, will there be an opportunity in the interim to amend the Order to provide free school milk to all primary level pupils in Wales from the age of three to 11?

2.50 p.m.

I note your comments that the promotion of milk consumption among our younger generation is a priority and that two facilitators are considering how we can expand this programme. Are those two facilitators not going to take evidence from those aged under five and over eight in the promotion of milk consumption? That proves the need for this issue to be re-examined. Nonetheless, I am pleased to see that urban and rural communities depend on each other in this initiative—rural communities as milk producers, and rural and urban communities as milk consumers. I pay tribute to the dairy farmers who have engaged in initiatives by local authorities that have introduced free school milk. However, is it not too late for us to revisit this issue so that, in the spirit of social inclusion, we include all children of school age in Wales between three and 11 years, to aid in their development?

**Carwyn Jones:** It is interesting that Rhondda Cynon Taff County Borough Council has a free school milk scheme. It clearly has so much money to spend and is so awash with money that there will be no need for council tax rises in Rhondda Cynon Taff during the next few months. I hope that the people who live in the area will bear that in mind.

I turn to the issue of providing free school milk for all the pupils of Wales. In nursery education, a free milk scheme already exists, operated by the Department of Health. There is no need to duplicate that scheme. Key stage 2 pupils are eligible to receive milk, but the commitment made was to provide free school milk for all children in key stage 1, between the ages of five and seven. I am disappointed that, even when a policy such as this, which commands popular support, is put before the Assembly, Plaid Cymru Members still whinge.

manyllion y dyraniad cyllideb diwygiedig nes bod y gyllideb atodol yn cael ei chyhoeddi ym mis Mawrth, a fydd cyfle yn y cyfamser i ddiwygio'r Gorchymyn i ddarparu llaeth ysgol am ddim i bob disgybl cynradd yng Nghymru o dair i 11 oed?

Nodaf eich sylwadau fod hybu yfed llaeth ymysg ein cenhedlaeth iau yn flaenoriaeth a bod dau hwylusydd yn ystyried sut y gallwn ehangu'r rhaglen hon. Oni fydd y ddau hwylusydd hynny yn derbyn tystiolaeth gan y rheini o dan bump oed a thros wyth oed wrth hybu yfed llaeth? Mae hynny'n profi'r angen am ailystyried y mater hwn. Serch hynny, yr wyf yn falch o weld bod cymunedau trefol a gwledig yn dibynnu ar ei gilydd ar gyfer y fenter hon—y cymunedau gwledig fel cynhyrchwyr llaeth, a chymunedau gwledig a threfol fel yfwyr llaeth. Talaf deyrnged i'r ffermwyr llaeth sydd wedi cymryd rhan mewn mentrau gan awdurdodau lleol i gyflwyno llaeth ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'n rhy hwyr inni ailystyried y mater hwn fel ein bod, yn ysbryd cynhwysiant cymdeithasol, yn cynnwys plant o bob oedran yng Nghymru rhwng tair ac 11 mlwydd oed, er mwyn cynorthwyo eu datblygiad?

**Carwyn Jones:** Mae'n ddiddorol fod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gynllun llaeth am ddim i ysgolion. Mae'n amlwg fod ganddo gymaint o arian i'w wario a'i fod mor gyfoethog fel na fydd unrhyw angen am godiadau yn y dreth gyngor yn Rhondda Cyngor Taf yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Gobeithiaf y bydd y bobl sydd yn byw yn yr ardal yn cadw hynny mewn cof.

Trof at y mater o ddarparu llaeth ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru. Mewn addysg feithrin, mae cynllun llaeth am ddim eisoes yn bodoli, a weithredir gan yr Adran Iechyd. Nid oes angen dyblygu'r cynllun hwnnw. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gymwys i dderbyn llaeth, ond gwnaethpwyd yr ymrwymiad i ddarparu llaeth ysgol am ddim i bob plentyn yng nghyfnod allweddol 1, rhwng pump a saith oed. Yr wyf yn siomedig, hyd yn oed pan roddir polisi fel hwn, sydd yn ennyn cefnogaeth boblogaidd, gerbron y Cynulliad,

fod Aelodau Plaid Cymru yn parhau i gwyno.

**Alun Pugh:** I speak as a former milk monitor at Cwm Clydach junior school. Many of us will remember how a UK Minister for education started her career by taking milk from school children, before progressing to take employment rights from trade unionists, benefit payments from pregnant women and an elected assembly from the people of London.

**The Presiding Officer:** Order. This statement is about milk.

**Alun Pugh:** In that case, I welcome the statement with one caveat, which comes from our experts in the Assembly's health promotion division. It recommends that key stage 1 children should be given skimmed or semi-skimmed milk, rather than the full fat variety, to combat obesity, which is a problem in some parts of Wales. We would want to have full parental choice on this, but could that choice be influenced by a clear recommendation that children of this age should not be given full fat milk?

**Carwyn Jones:** I am not sure whether the preamble to what you said was a declaration of interest as a former milk monitor. I suppose that many of us in the Chamber would have to declare the same interest. It is for parents to decide what their children receive. The choice will be between full fat, semi-skimmed or skimmed milk, either flavoured or unflavoured, in portions up to 0.25 millilitres. It is a matter of parental choice and parents will have to be guided by the information that they receive and their natural instincts. That takes matters forward as far as that is concerned.

Your point about a UK Cabinet Minister is correct. The partnership Government has today restored what Margaret Thatcher took away.

**Peter Rogers:** Alun Pugh hit a little close to home when he mentioned obesity and skimmed milk, but perhaps we can all learn lessons from that.

**Alun Pugh:** Siaradaf fel cyn fonitor llaeth yn ysgol gynradd Cwm Clydach. Bydd nifer ohonom yn cofio sut y dechreuodd Gweinidog dros Addysg yn y DU ei gyrfa drwy gymryd llaeth oddi wrth blant ysgol, cyn symud ymlaen i dynnu hawliau cyflogaeth oddi wrth undebwyr llafur, budd-daliadau oddi wrth ferched beichiog a chynulliad etholedig oddi wrth bobl Llundain.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â llaeth.

**Alun Pugh:** Gan hynny, croesawaf y datganiad gydag un rhybudd, a ddaw oddi wrth ein harbenigwyr yn adran hybu iechyd y Cynulliad. Mae'n argymhell y dylid rhoi llaeth sgim neu laeth hanner-sgim i blant cyfnod allweddol 1, yn hytrach na llaeth hufen llawn er mwyn brwydro yn erbyn gorbwysedd, sydd yn broblem mewn rhai rhannau o Gymru. Byddem o blaid rhoi'r dewis llawn i rieni ynghylch hyn, ond a ellir dylanwadu ar y dewis hwnnw gan argymhelliad clir na ddylid rhoi llaeth hufen llawn i blant o'r oedran hwn?

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn siŵr a oedd y rhagarweiniad i'r hyn a ddywedasocho yn ddatganiad o fuddiant fel cyn fonitor llaeth. Yr wyf yn tybio y byddai'n rhaid i nifer ohonom yn y Siambr hon ddatgan yr un buddiant. Penderfyniad y rhieni yw beth fydd eu plant yn ei dderbyn. Bydd dewis rhwng llaeth hufen llawn, hanner sgim neu sgim, naill ai â blas arno neu heb flas, mewn gwydraid o hyd at 0.25 mililitr. Mae'n fater o ddewis y rhieni a bydd yn rhaid i rieni gael eu harwain gan yr wybodaeth a dderbyniant a'u greddfau naturiol. Mae hynny'n datrys materion yn hynny o beth.

Mae eich pwynt ynghylch Gweinidog yng Nghabinet y DU yn gywir. Mae'r Llywodraeth bartneriaeth heddiw wedi adfer yr hyn a gipiwyd oddi arnom gan Margaret Thatcher.

**Peter Rogers:** Aeth Alun Pugh ychydig yn agos at yr asgwrn pan grybwyllodd orbwysedd a llaeth sgim, ond efallai y gall bob un ohonom ddysgu gwersi o hynny.

Following yesterday's announcement of Assembly agricultural output and income figures for farming, which show the crisis that the industry is experiencing, this is welcome news. The introduction of milk to children at an early age will be of great help to dairy farmers. It is important not only to the future of farming but to the health of the nation. Schools have promoted fizzy drinks, to the detriment of kids' teeth and bodies, for a long time. That was a backward step and came on the back of promotions to bring sports equipment into schools. We must counteract that detrimental step. Will the Minister give an undertaking that refrigeration facilities for fizzy drinks will be taken over and used to offer flavoured milk instead? David Davies and William Graham are working hard to get free milk provided in Monmouthshire. Will you meet the teaching unions to draw attention to how vital it is that every council in Wales offers free milk, to support health and the beleaguered agriculture industry? In light of the job losses in Dairy Crest, there is an even greater need to get the industry back on its feet. I am sure that you recognise that it is crucial that farmers get a better return on their produce. As well as promoting this initiative, you should be putting pressure on supermarkets to ensure that farmers have a fair return on this great produce, so that we ensure that dairy farms continue to exist. How can the Minister link initiatives such as free school milk to the Assembly's aim of supporting domestic production and processing milk in Wales?

**Carwyn Jones:** That is an important part of this initiative. Whichever way you look at it, we now have a situation where children are introduced to a food stuff that is far healthier than fizzy drinks or the drinks that you see on supermarket shelves that almost glow in the dark due to the additives that they contain.

Local education authorities will decide how the milk will be delivered. There is, therefore, scope for local delivery, thereby ensuring that that money goes into local businesses. It is also important to note that the milk must be

Yn dilyn cyhoeddiad y Cynulliad ddoe o ffigurau allbwn amaethyddol ac incwm y Cynulliad ar gyfer ffermio, a ddengys yr argyfwng y mae'r diwydiant yn ei brofi, mae hyn yn newyddion i'w groesawu. Bydd cyflwyno llaeth i blant yn gynnar o gymorth mawr i ffermwyr llaeth. Mae'n bwysig nid yn unig ar gyfer dyfodol ffermio ond ar gyfer iechyd y genedl. Mae ysgolion wedi hybu diodydd pop, gan beri niwed i ddannedd a chyrrff plant, am gyfnod hir. Yr oedd hynny'n gam yn ôl a wnaethpwyd ar yr un pryd â cheisio cyflwyno offer chwaraeon i ysgolion. Rhaid inni wyrddroi'r cam niweidiol hwnnw. A fydd y Gweinidog yn rhoi ymrwymiad y bydd cyfleusterau oergell ar gyfer diodydd pop yn cael eu defnyddio i gynnig llaeth â blas arno yn lle hynny? Mae David Davies a William Graham yn gweithio'n galed er mwyn cael darpariaeth llaeth am ddim yn Sir Fynwy. A wnewch chi gyfarfod ag undebau athrawon er mwyn tynnu sylw at ba mor hanfodol yw bod pob cyngor yng Nghymru yn cynnig llaeth am ddim, er mwyn cefnogi iechyd a'r diwydiant amaeth sydd o dan warchae? Yng ngoleuni'r diswyddiadau yn Dairy Crest, mae angen mwy byth i roi'r diwydiant yn ôl ar ben y ffordd. Yr wyf yn sicr eich bod yn cydnabod ei fod yn hanfodol i ffermwyr dderbyn mwy o elw ar eu cynnyrch. Yn ogystal â hybu'r fenter hon, dylech bwysu ar archfarchnadoedd i sicrhau bod ffermwyr yn derbyn elw teg ar y cynnyrch gwych hwn, fel ein bod yn sicrhau bod y ffermydd llaeth yn parhau i fodoli. Sut y gall y Gweinidog gysylltu mentrau megis llaeth am ddim i ysgolion â nod y Cynulliad o gefnogi cynhyrchu a phrosesu llaeth domestig yng Nghymru?

**Carwyn Jones:** Mae hynny'n rhan bwysig o'r fenter hon. Pa ffordd bynnag yr edrychwch ar y mater, bellach mae gennym sefyllfa lle cyflwynir plant i fwydydd sydd yn llawer iachach na diod pop neu'r diodydd a welwch ar silffoedd archfarchnadoedd sydd bron yn goleuo yn y tywyllwch yn sgîl yr holl ychwanegion a geir ynddynt.

Bydd awdurdodau addysg lleol yn penderfynu sut y caiff y llaeth ei ddsbarthu. Ceir cyfle, felly, i ddsbarthu'n lleol, gan sicrhau bod yr arian yn mynd i fusnesau lleol. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yn rhaid

bought from within the UK. Therefore, this will assist dairy farmers and increase the demand for milk. It can also have a positive effect on children's health. It is up to parents to decide what sort of milk their children drink. I have heard Peter say many times in the Chamber that the situation in agriculture is bad and that action must be taken. Many actions are being taken to help farming in Wales, of which this is just one.

**Lorraine Barrett:** I read with horror this morning that Coca-Cola plans to introduce some sort of flavoured milk. Without bringing in a nanny state, I would be concerned if we were to go down the road of providing flavoured milk. Children may drink Coca-Cola at home, but flavoured milk can contain additives such as aspartame, with which I have great problems, as well as caffeine. I would hate the thought of schools giving children milk that contains caffeine. Will you keep an eye on that? What are we talking about when talking about flavoured milk? Are we not creating a logistical nightmare by offering all these choices? Should we not just stick to providing milk in schools?

**Carwyn Jones:** The thought of someone selling milk that contains caffeine fills me with dread. The whole point of marketing and providing milk to schools is that it is a natural product. If you add unnatural ingredients, such as additives or chemicals, to milk, you lose the battle in terms of explaining to children that it is a natural product that can, like anything else in life, be enjoyed in moderation, and that it does not rot teeth but helps to build them up. It is important that we convey that message to children, as they are bombarded with advertising pushing sugary drinks that will undoubtedly cause them ill-health in future if drunk in great quantities.

**Mick Bates:** This is a great day for me. During the Assembly elections, I remember announcing on platforms, 'This Assembly will work. One of my first promises to you is that there will be free school milk in Welsh schools'. Thank you, Minister, for today's announcement. It is proof that determination,

prynu'r llaeth yn y DU. Felly, bydd hyn yn cynorthwyo ffermwyr llaeth ac yn cynyddu'r galw am laeth. Gall hefyd ddylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd plant. Rhieni a fydd yn penderfynu pa fath o laeth y mae eu plant yn ei yfed. Clywais Peter yn dweud sawl tro yn y Siambr hon fod y sefyllfa amaethyddol yn wael a bod angen gweithredu. Mae sawl dull o weithredu ar waith yng Nghymru, a dyma un ymhlith nifer.

**Lorraine Barrett:** Fe'm brawychwyd y bore yma pan ddarllenais fod Coca-Cola yn bwriadu cyflwyno rhyw fath o laeth â blas arno. Heb gyflwyno gwladwriaeth warchodol, byddwn yn bryderus pe baem yn dilyn trywydd darparu llaeth â blas arno. Efallai bod plant yn yfed Coca-Cola gartref, ond gall llaeth â blas arno gynnwys ychwanegion megis aspartame, y mae gennyf innau bryderon mawr yn ei gylch, yn ogystal â chaffein. Byddwn yn casáu'r syniad o ysgolion yn rhoi llaeth sydd yn cynnwys caffein i blant. A fyddwch yn cadw golwg ar hynny? Am beth yr ydym yn sôn wrth drafod llaeth â blas arno? Onid ydym yn creu hunllef logistaidd drwy gynnig yr holl ddewisiadau hyn? Oni ddylem gadw at ddarparu llaeth yn unig mewn ysgolion?

**Carwyn Jones:** Mae'r syniad o rywun yn gwerthu llaeth sydd yn cynnwys caffein yn codi arswyd arnaf. Holl ddiben marchnata llaeth a'i ddarparu i ysgolion yw am ei fod yn gynnyrch naturiol. Os ydych yn ychwanegu cynhwysion annaturiol, megis ychwanegion neu gemegau at laeth, yr ydych yn colli'r frwydr o safbwynt egluro i blant y gall cynnyrch naturiol, yn debyg i unrhyw beth arall mewn bywyd, gael ei fwynhau ar raddfa gymedrol, ac nad yw'n pydru dannedd ond yn hytrach yn gymorth i'w cryfhau. Mae'n bwysig ein bod yn cyfleu'r neges honno i blant, gan eu bod yn cael eu hamgylchynu gan hysbysebion sydd yn hyrwyddo diodydd llawn siwgr a fydd yn sicr o achosi niwed i'w hiechyd yn y dyfodol os yfir llawer ohono.

**Mick Bates:** Dyma ddiwrnod ardderchog imi. Yn ystod etholiadau'r Cynulliad, cofiaf gyhoeddi ar lwyfannau, 'Bydd y Cynulliad hwn yn gweithio. Un o'm haddewidion cyntaf ichi yw y bydd llaeth ysgol am ddim mewn ysgolion yng Nghymru'. Diolch ichi, Weinidog, am gyhoeddiad heddiw. Mae'n

and partnership, works. In May 1999, after being elected, I had the privilege of tabling a statement of opinion. I am grateful for the support of the 31 Members who signed it. It has been an interesting path to tread, and one that will bring great benefit. I thank the Minister on behalf of all those children who go to school without any nutrition—no breakfast, nothing. I thank Carwyn because this is a battle against fizzy drinks and sticky sweets. There are three questions that I wish to ask Carwyn. First, is the £105,000 that you announced for the school milk project the same £105,000 that you launched last summer? Second, will it all be Welsh milk? Thirdly, who pays for the straws? Carwyn, this carton of milk is for you on behalf of all those people.

3.00 p.m.

**The Presiding Officer:** Order. It is not in order to drink in the Chamber, except for the Welsh water on the Presiding Officer's desk.

**Mick Bates:** There is no straw in that carton, hence the final question.

**Carwyn Jones:** I am glad that this carton is not ticking. As I said in my statement, this is additional funding. It will be £105,000 over three years for the WDA's food directorate. Mick raised the point about Welsh milk. We cannot stipulate that it will be Welsh milk. We must stipulate that it is European Union produced milk but bought within the UK. In practice, I have no doubt that it will be Welsh milk for Welsh children.

Mick mentioned that he has looked forward to today. I pay tribute to his work in promoting this. I saw him outside the Assembly building at lunchtime with a van full of those cartons, shamelessly appearing before the cameras, getting publicity that I do not begrudge him. It is important that we realise that 21 out of the 22 authorities in Wales are now part of the existing scheme. We need to ensure that Tory Monmouthshire, which is not part of the scheme, joins it and

dystiolaeth fod penderfyniad, a phartneriaeth, yn gweithio. Ym mis Mai 1999, ar ôl yr etholiad, cefais y ffrainc o gyflwyno datganiad o farn. Yr wyf yn ddiolchgar am gefnogaeth y 31 Aelod a'i llofnododd. Bu'n drywydd diddorol i'w ddilyn, ac un a fydd yn sicrhau budd mawr. Diolchaf i'r Gweinidog ar ran yr holl blant hynny sydd yn mynd i'r ysgol heb unrhyw faeth—heb frecwast, heb unrhyw beth. Diolchaf i Carwyn am fod hon yn frwydr yn erbyn diodydd pop a losin melys. Mae tri chwestiwn yr hoffwn eu gofyn i Carwyn. Yn gyntaf, ai'r £105,000 a gyhoeddasoch ar gyfer y prosiect llaeth i ysgolion yw'r un £105,000 a lansiwyd gennych yr haf diwethaf? Yn ail, a fydd y llaeth i gyd yn llaeth o Gymru? Yn drydydd, pwy fydd yn talu am y gwellt? Carwyn, mae'r carton o laeth hwn ichi ar ran yr holl bobl hynny.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw mewn trefn i yfed yn y Siambr, ar wahân i'r dŵr Cymreig ar ddesg y Llywydd.

**Mick Bates:** Ni oes gwelltyn yn y carton hwnnw, a dyma'r rheswm dros y cwestiwn olaf.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn falch nad yw'r carton hwn yn tician. Fel y dywedais yn fy natganiad, mae hwn yn arian ychwanegol. Bydd yn £105,000 dros dair blynedd ar gyfer cyfarwyddiaeth fwyd y WDA. Cododd Mick y pwynt ynglŷn â llaeth o Gymru. Ni allwn fynnu ei fod yn llaeth o Gymru. Mae'n rhaid inni fynnu ei fod yn llaeth a gynhyrchwyd yn yr Undeb Ewropeaidd ond a brynwyd yn y DU. Yn ymarferol, nid oes gennyf amheuaeth y bydd yn llaeth o Gymru ar gyfer plant Cymru.

Crybwyllodd Mick ei fod wedi edrych ymlaen at heddiw. Talaf deyrnged i'w waith yn hybu hyn. Gwelais ef y tu allan i adeilad y Cynulliad dros yr awr ginio gyda fan yn llawn o'r cartonau hyn, gan ymddangos yn ewn o flaen y camerâu, yn derbyn cyhoeddusrwydd nad wyf yn ei warafun iddo. Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli bod 21 allan o'r 22 awdurdod yng Nghymru bellach yn rhan o'r cynllun presennol. Mae angen inni sicrhau bod Sir Fynwy Dorïaidd, nad

understands the value of milk to Welsh schoolchildren.

**David Lloyd:** Datganaf fuddiant fel meddyg. Croesawaf y datblygiad. A gytuna Carwyn fod hwn yn fater trawsbynciol sydd yn ymwneud ag amaethyddiaeth, addysg ac iechyd, a bod angen cydlynu rhwng yr adrannau hynny?

A gytuna â'r astudiaethau sydd yn dangos bod yfed ychydig o laeth yn rheolaidd bob dydd fel plant a phobl ifanc yn gallu helpu atal datblygiad osteoporosis yn ddiweddarach yn ein bywydau ni i gyd? A gytuna fod angen ehangu'r syniad hwn i feysydd eraill o fwyta'n iach, megis sicrhau bod ffrwythau ar gael yn ein hysgolion?

A gytuna hefyd fod polisi maeth yn holl bwysig ac y dylem hybu'r sgiliau i fedru paratoi pryd o fwyd yn llawn maeth yn ein hysgolion?

**Carwyn Jones:** Pwy ydw i i anghytuno â meddyg? Mae hwn yn gam mawr ymlaen o safbwynt rhoi maeth i blant yn ysgolion Cymru. Yn y dyfodol gallem edrych ar ffyrdd o roi ffrwythau a llysiau i blant, a sefydlu clybiau brechwast. Nid yw'r frwydr i sicrhau bod iechyd plant Cymru yn gwella blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ben, ond mae hwn yn gam mawr ymlaen.

**Ann Jones:** What about children who perhaps cannot drink cow's milk or dairy produce? What will we do for those children? I would hate to see two or three small children at Key Stage 1 being left out of any distribution. Will you consider a milk substitute for them?

**Carwyn Jones:** In the guidance that has been issued to local authorities, in particular to schools, there is a requirement that schools ascertain which children are allergic to lactose. That is important. Schools have a responsibility to those children. Lactose-reduced cows' milk is eligible under this scheme. Therefore, if a child is unable to digest a great deal of lactose, that type of milk will also be available. In such a situation, parents will have to make a

yw'n rhan o'r cynllun, yn ymuno ag ef ac yn sylweddoli gwerth llaeth i blant ysgol Cymru.

**David Lloyd:** I declare an interest as a general practitioner. I welcome this development. Does Carwyn agree that this is a cross-cutting issue that relates to agriculture, education and health, and that there is a need for co-ordination between those departments?

Does he agree with studies that show that drinking a little milk regularly everyday as children and young people can help stop osteoporosis later on in all our lives? Does he agree that this idea needs to be extended to other areas of healthy eating, such as ensuring that fruit is available in schools?

Does he also agree that a nutrition policy is crucial and that we should promote the skills needed to prepare a nutritious meal in our schools?

**Carwyn Jones:** Who am I to disagree with a doctor? This is a big step forward in giving nutrition to children in the schools of Wales. In future we could look at ways of giving fruit and vegetables to children, and establishing breakfast clubs. The battle to ensure that the health of children in Wales improves year on year is not over, but this is a big step forward.

**Ann Jones:** Beth am blant nad ydynt efallai yn gallu yfed llaeth buwch neu gynnyrch llaeth? Beth fyddwn yn ei wneud ar gyfer y plant hynny? Byddwn yn casáu gweld dau neu dri phlentyn bach yng Nghyfnod Allweddol 1 yn cael eu heithrio o unrhyw ddarpariaeth. A fyddwch yn ystyried rhywbeth yn lle hynny ar eu cyfer hwy?

**Carwyn Jones:** Yn yr arweiniad a gyhoeddwyd i awdurdodau lleol, yn benodol i ysgolion, ceir gofyniad bod ysgolion yn holi pa blant sydd ag alergedd i lactos. Mae hynny'n bwysig. Mae gan ysgolion gyfrifoldeb dros y plant hynny. Mae llaeth buwch gyda llai o lactos ynddo yn gymwys o dan y cynllun hwn. Felly, os na all plentyn dreulio llawer o lactos, bydd y math hwnnw o laeth hefyd ar gael. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd yn rhaid i rieni wneud penderfyniad ar

decision on behalf of their children. As I said to Dai Lloyd, this is one step forward, and it is an extremely important step forward. It also rights the injustices of the past 26 or 27 years since the days of a certain Minister who took the milk away in the first place. There are many other steps that we will take in partnership with Jane Hutt and others in the National Assembly to ensure that reasonably priced fruit and vegetables and healthy, nutritious food becomes available to children in future. We should all aim at that.

ran eu plant. Fel y dywedais wrth Dai Lloyd, mae hwn yn un cam ymlaen, ac mae'n gam hynod bwysig ymlaen. Mae hefyd yn gwneud iawn am anghyfiawnderau'r 26 neu 27 mlynedd diwethaf ers y dyddiau pan wnaeth Gweinidog penodol atal y llaeth yn y lle cyntaf. Ceir nifer o gamau eraill y byddwn yn eu cymryd mewn partneriaeth â Jane Hutt ac eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ffrwythau a llysiau sydd wedi'u prisio'n rhesymol, a bwyd iach, maethlon ar gael i blant yn y dyfodol. Dylem oll anelu at hynny.

### **Pwyntiau o Drefn Points of Order**

**The Minister for Assembly Business (Andrew Davies):** Regarding comments made last week in Plenary and comments in the record on making statements available electronically, those statements have now been made available electronically to all Members as promised last week.

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Ynghylch y sylwadau a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf yn y Cyfarfod Llawn a'r sylwadau yn y cofnod ar sicrhau bod datganiadau ar gael ar ffurf electroneg, mae'r datganiadau hynny bellach ar gael ar ffurf electroneg i'r holl Aelodau fel yr addawyd wythnos diwethaf.

**The Presiding Officer:** As someone who made a comment last week to the effect that this should happen, I express my gratitude to the Minister for Assembly Business. I always express my gratitude to the Executive when it is deserved.

**Y Llywydd:** Fel rhywun a wnaeth sylwadau yr wythnos diwethaf oedd yn awgrymu y dylai hyn ddigwydd, mynegaf fy niolch i'r Trefnydd. Mynegaf fy niolch i'r Weithrediaeth pan fydd yn haeddiannol.

**David Davies:** I raise a point of order under Standing Order No. 6.11, which relates to ministerial statements made in Plenary. Once again, another statement was read out this afternoon. Leaving aside the fact that the Minister for Assembly Business has, up until today apparently, been e-mailing the contents of these statements to members of the Labour group before other Members have had a chance to look at them, we have other concerns about the increased use of statements. The format, with the Minister reading from a prepared text that is not seen by Members of opposition parties until the last minute, makes it difficult for ordinary Members to exercise their rights, indeed their duty, to scrutinise the Cabinet's actions. There are many occasions when it is necessary to issue statements as a matter of extreme urgency. A recent example was the Corus closure. On those occasions, in the wider interest of Wales, Assembly Members

**David Davies:** Codaf bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.11, sydd yn ymwneud â datganiadau gweinidogol a wnaethpwyd yn y Cyfarfod Llawn. Unwaith eto, darllenwyd datganiad arall y prynhawn yma. Gan anwybyddu'r ffaith y bu'r Trefnydd, hyd heddiw yn ôl pob sôn, yn anfon negeseuon e-bost o gynnwys y datganiadau hyn i aelodau'r grŵp Llafur cyn i'r Aelodau eraill gael cyfle i edrych arnynt, mae gennym bryderon eraill am y cynnydd yn y defnydd o ddatganiadau. Mae'r fformat, gyda'r Gweinidog yn darllen o destun a baratowyd nad yw Aelodau'r gwrthbleidiau yn ei weld tan y funud olaf, yn ei gwneud yn anodd i Aelodau cyffredin arfer eu hawliau, yn wir eu dyletswydd, i archwilio gweithredoedd y Cabinet yn fanwl. Ceir sawl achlysur lle mae angen cyhoeddi datganiadau ar fyrder. Yr oedd cau Corus yn enghraifft ddiweddar. Ar yr achlysuron hynny, er budd ehangach Cymru, mae Aelodau'r Cynulliad, yn ddigon

are quite rightly willing to accept restrictions on their ability to scrutinise. However, this milk statement did not need to be read out urgently. It is welcome news, which is welcome to Members of all parties. However, it could just as easily have been published next week or the following week. Comments were made in today's statement about Monmouthshire County Council's actions. I was unable to answer those comments and to make the point that the difficulties arose because of the teachers' unions.

By making a statement today, the Government of Wales has restricted Members' ability to examine the small print behind the announcement to see whether it is as good as the Ministers claim. It also delays discussions of the crisis in the NHS, just so that the Liberal Democrats and the Labour party can indulge in a mutual admiration contest. These statements are becoming all too frequent. They are not a replacement for democratic debate and should not be used unless absolutely urgent. I would regret very much if this Assembly Chamber became, instead of a place for public debate and discussion, nothing more than a Labour party press conference. I seek your guidance, Llywydd.

**The Presiding Officer:** I can assure you, David, that the National Assembly for Wales will never become a Labour party press conference or a Conservative party, Plaid Cymru—Party of Wales, or Welsh Liberal Democrat party press conference as long as the Deputy Presiding Officer and myself preside over activities. Statements provide an opportunity for Members to ask questions. I would argue, as a sometime parliamentarian in other places, that statements provide a more effective opportunity for scrutiny than debates. Debates provide an opportunity for speeches to be made, but statements allow an opportunity for incisive questions and concise answers. I suggest that it might be appropriate for this matter to be considered further as part of the Assembly review of procedure. It has already been alluded to in our discussions in the Assembly review, but I would welcome the opportunity for it to be taken further. It is important that statements are made to the Assembly and not outside it.

teg, yn barod i dderbyn cyfyngiadau ar eu gallu i archwilio'n fanwl. Fodd bynnag, nid oedd angen darllen y datganiad llaeth hwn ar fyrder. Mae'n newyddion i'w groesawu, ac fe'i croesewir gan Aelodau pob plaid. Fodd bynnag, gallai fod wedi ei gyhoeddi yr un mor rhwydd yr wythnos nesaf neu'r wythnos ganlynol. Gwnaethpwyd sylwadau yn natganiad heddiw am weithredoedd Cyngor Sir Fynwy. Ni allwn ateb y sylwadau hynny na gwneud y pwynt bod yr anawsterau wedi codi oherwydd undebau'r athrawon.

Drwy wneud datganiad heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar allu'r Aelodau i archwilio'r print mân y tu ôl i'r cyhoeddiad yn fanwl i weld a yw cystal ag y mae'r Gweinidogion yn ei honni. Mae hefyd yn oedi trafodaethau ar yr argyfwng yn yr NHS, dim ond er mwyn i'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r blaid Lafur gymryd rhan mewn cystadleuaeth o ganmol ei gilydd. Gwneir y datganiadau hyn yn llawer rhy aml. Nid ydynt yn disodli dadl ddemocrataidd ac ni ddylid eu defnyddio oni bai fod brys mawr. Byddai'n resyn pe byddai Siambur y Cynulliad, yn hytrach na bod yn lle ar gyfer dadl a thrafodaeth gyhoeddus, yn troi yn ddim byd mwy na chynhadledd i'r wasg gan y blaid Lafur. Gofynnaf am eich arweiniad, Llywydd.

**Y Llywydd:** Gallaf eich sicrhau, David, na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru byth yn troi'n gynhadledd i'r wasg gan y blaid Lafur nac yn gynhadledd i'r wasg gan y blaid Geidwadol, Plaid Cymru—Party of Wales, neu Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru cyn belled â bod y Dirprwy Lywydd a minnau yn llywyddu'r gweithgareddau. Rhydd datganiadau gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau. Byddwn yn dadlau, fel cyn aelod seneddol mewn manau eraill, bod datganiadau'n darparu cyfle mwy effeithiol i archwilio'n fanwl na dadleuon. Rhydd dadleuon gyfle i wneud areithiau, ond rhydd datganiadau gyfle i ofyn cwestiynau llym a chael atebion cryno. Awgrymaf efallai y byddai'n briodol ystyried y mater hwn ymhellach fel rhan o adolygiad o weithdrefnau'r Cynulliad. Cyfeiriwyd ato eisoes yn ein trafodaethau yn adolygiad y Cynulliad, ond byddwn yn croesawu'r cyfle i fynd ag ef ymhellach. Mae'n bwysig y gwneir datganiadau i'r Cynulliad ac nid y tu



It is preferable that statements be made when we are in session rather than published to the intranet or announced at a press conference. That is a parliamentary principle that I welcome, as does my colleague in Scotland, who was recently involved in an altercation with the Scottish Executive on the making of statements to Parliament rather than outside it.

allan iddo. Mae'n fwy dymunol i ddatganiadau gael eu gwneud pan fyddwn mewn cyfarfod yn hytrach na chael eu cyhoeddi ar y fewnwyd neu mewn cynhadledd i'r wasg. Mae honno'n egwyddor seneddol a groesawaf, fel y gwna fy nghyd-Aelod yn yr Alban, a gymerodd ran mewn ymgiprys â Gweithrediaeth yr Alban ar wneud datganiadau i'r Senedd yn hytrach na'r tu allan iddi.

3.10 p.m.

**Andrew Davies:** Further to that point of order and your comments, which were helpful, I could not help but notice that David, in criticising us for reading statements, was reading out his point of order. However, I agree with you, Llywydd, on how we deal with statements. If David's Business Manager had reported back to him, he would know that, in Business Committee around a week ago, I suggested that we consider how to handle statements in Plenary, and that we should have all-party support on that. There are different types of statements, but as an administration, we feel that we should make statements on the Assembly's positive achievements as well as on difficult issues. The Business Committee is considering that, as is the review of Assembly procedures.

**Andrew Davies:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn a'ch sylwadau, a oedd yn ddefnyddiol, ni allwn beidio â sylwi bod David, wrth ein beirniadu ni am ddarllen datganiadau, yn darllen ei bwynt o drefn. Fodd bynnag, cytunaf â chi, Lywydd, ar sut y byddwn yn ymdrin â datganiadau. Pe bai Rheolwr Busnes David wedi adrodd yn ôl iddo, byddai'n gwybod fy mod, yn y Pwyllgor Busnes tuag wythnos yn ôl, wedi cynnig y dylid ystyried sut i ymdrin â datganiadau mewn Cyfarfodydd Llawn, ac y dylem gael cefnogaeth pob plaid ar hynny. Ceir gwahanol fathau o ddatganiadau, ond fel gweinyddiaeth, teimlwn y dylem wneud datganiadau ar gyflawniadau cadarnhaol y Cynulliad yn ogystal ag ar faterion anodd. Mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried hynny, yn ogystal â'r adolygiad o weithdrefnau'r Cynulliad.

### Strategaeth NHS Cymru The NHS Wales Strategy

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies and amendments 3, 5 and 6 in the name of William Graham.

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 3, 5 a 6 yn enw William Graham.

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** I propose that

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cynigiau fod

*the National Assembly*

*y Cynulliad Cenedlaethol*

1. *Endorses 'Improving Health in Wales - A Plan for the NHS with Its Partners' (laid in the Table Office on 5 February 2001) and the actions it puts forward.*

1. *Yn cymeradwyo 'Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid' (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001), a'r camau y mae yn eu hargymell.*

2. *Congratulates the partnership*

2. *Yn llongyfarch y weinyddiaeth*

<i>administration on a plan which is both bold and radical and which:</i>	<i>bartneriaeth ar gynllun sydd yn feiddgar yn ogystal ag yn radical, ac sydd:</i>
<i>simplifies the administration of the health service in Wales and makes it easier to understand;</i>	<i>yn symleiddio'r modd y gweinyddir y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a'i wneud yn haws i'w ddeall;</i>
<i>makes a reality of a primary-led health service in Wales;</i>	<i>yn creu gwasanaeth iechyd yng Nghymru sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol;</i>
<i>emphasises the role of preventative and public health measures in improving the health of the population;</i>	<i>yn pwysleisio rôl mesurau ataliol, yn ogystal â mesurau iechyd y cyhoedd, i wella iechyd y boblogaeth;</i>
<i>enhances the local planning and delivery of services;</i>	<i>yn gwella'r agwedd leol ar gynllunio a darparu gwasanaethau;</i>
<i>strengthens the democratic voice in the delivery and strategic planning of health services in Wales;</i>	<i>yn cryfhau'r llais democrataidd yn y broses o ddarparu a chynllunio'r gwasanaeth iechyd yn strategol yng Nghymru;</i>
<i>builds on essential partnerships with local government and others;</i>	<i>yn adeiladu ar bartneriaethau hanfodol gyda llywodraeth leol ac eraill;</i>
<i>provides record levels of resources for improving the health of the Welsh population;</i>	<i>yn darparu lefelau adnoddau uwch nag erioed er mwyn gwella iechyd poblogaeth Cymru;</i>
<i>values the contribution of staff at all levels;</i>	<i>yn gwerthfawrogi cyfraniad staff ar bob lefel;</i>
<i>confirms the administration's commitment to tackling health inequalities;</i>	<i>yn cadarnhau ymroddiad y weinyddiaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd;</i>
<i>reaffirms the importance to the people of Wales of a health service which is of the highest quality and based on need and not ability to pay.</i>	<i>yn ailgadarnhau'r pwysigrwydd y mae pobl Cymru yn ei roi ar wasanaeth iechyd sydd o'r ansawdd uchaf, ac sydd wedi'i seilio ar angen yn hytrach na'r gallu i dalu.</i>

I am delighted to present this plan to you for improving the health of people in Wales. The NHS is a key public service that must be at the heart of our efforts to improve the quality of life for our people, patients, families and communities. The plan presents challenges that will demand clarity of purpose and direction that the Assembly, uniquely, can provide. Imagination and courage are needed to tackle and overcome the health and social challenges that we face, to drive up the quality and standards of health care and to improve the health of our nation.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cynllun hwn ichi ar gyfer gwella iechyd pobl Cymru. Mae'r NHS yn wasanaeth cyhoeddus allweddol y mae'n rhaid iddo fod wrth wraidd ein hymdrechion i wella ansawdd bywyd ein pobl, cleifion, teuluoedd a chymunedau. Cyflwyno'r cynllun heriau fydd yn gofyn am eglurder pwrpas a chyfeiriad y gall y Cynulliad, yn unigryw, ei ddarparu. Mae angen dychymyg a hyder i ymdrin â'r heriau iechyd a chymdeithasol a wynebwn, a'u goresgyn, i godi ansawdd a safonau gofal iechyd a gwella iechyd ein cenedl.

It is important that the plan is endorsed and the overwhelming response from health professionals, patient groups and local

Mae'n bwysig y cymeradwyr y cynllun, a'r ymateb ysgubol gan bobl broffesiynol ym maes iechyd, grwpiau cleifion a llywodraeth

government was to endorse it. We must also be clear and confident to ensure the successful implementation of the plan. The NHS in Wales looks to the Assembly for leadership and direction. Endorsement of the plan is needed to provide these essential qualities. Therefore, I will not support Jocelyn Davies's amendment 1 and William Graham's amendment 5 to 'note' the plan. None of the developments outlined in the plan are possible without the dedication, skills, commitment and expertise consistently demonstrated by NHS staff in Wales. We owe it to the 75,000 people who work in the NHS—our largest public sector employer—as well as to the population of Wales, to get this plan right. Building on those foundations, the plan shows how the workforce is to be extended, which is vital to improve the capacity of our service. For example, by 2004, there will be 1,360 more students training in health-related fields than today. By that time, more than 4,300 nurses, midwives and health visitors and over 1,750 therapists and other professionals will have completed training.

**David Melding:** These figures are significant, and it is important that the Minister outlines them today. However, even more significant is how many staff will be in the front line of the NHS. How many extra staff will be employed by NHS Cymru by 2004?

**Jane Hutt:** It is important that we drive up the capacity and, as I announced on Friday, when I went to Swansea to approve in principle the development of the clinical school there, by 2004, there will be 400 more medical students in training. That figure is important. Yesterday, I met with Professor Ian Cameron, the Vice Chancellor of the University of Wales College of Medicine to discuss plans for wider expansion of medical education research facilities in Wales. We agreed that it is now time to produce implementation that will include other higher education institutions throughout Wales and forge more partnerships between them and local NHS trusts. The plan requires final recommendation to be made to me in September this year to achieve that all-Wales development in medical education. Good

leol oedd ei gymeradwyo. Rhaid inni hefyd fod yn glir a hyderus i sicrhau y gweithredir y cynllun yn llwyddiannus. Edrycha'r NHS yng Nghymru tuag at y Cynulliad am arweiniad a chyfeiriad. Mae angen cymeradwyo'r cynllun i ddarparu'r nodweddion hanfodol hyn. Felly, ni chefnogaf welliant 1 Jocelyn Davies a gwelliant 5 William Graham i 'nodi'r' cynllun. Nid fyddai unrhyw un o'r datblygiadau a amlinellir yn y cynllun yn bosibl heb yr ymroddiad, sgiliau, ymrwymiad ac arbenigedd a arddangosir yn gyson gan staff yr NHS yng Nghymru. Mae arnom ddydd i'r 75,000 o bobl sydd yn gweithio yn yr NHS—ein cyflogwr sector cyhoeddus mwyaf—yn ogystal â phobl Cymru, i gael y cynllun hwn yn gywir. Gan adeiladu ar y seiliau hynny, dengys y cynllun sut y dylid ymestyn y gweithlu, sydd yn hanfodol i wella cynhwysedd ein gwasanaeth. Er enghraifft, erbyn 2004, bydd 1,360 yn fwy o fyfyrwyr yn hyfforddi mewn meysydd yn ymwneud ag iechyd nag sydd heddiw. Erbyn hynny, bydd mwy na 4,300 o nyrsys, bydragedd ac ymwelwyr iechyd a thros 1,750 o therapyddion a phobl broffesiynol eraill wedi cwblhau eu hyfforddiant.

**David Melding:** Mae'r ffigurau hyn yn arwyddocaol, ac mae'n bwysig bod y Gweinidog yn eu hamlinellu heddiw. Fodd bynnag, yn fwy arwyddocaol byth yw faint o staff fydd yn llinell flaen yr NHS. Faint o staff ychwanegol a gyflogir gan NHS Cymru erbyn 2004?

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig ein bod yn cynyddu'r cynhwysedd ac, fel y cyhoeddais ddydd Gwener, pan euthum i Abertawe i gymeradwyo mewn egwyddor ddatblygiad yr ysgol glinigol yno, erbyn 2004, bydd 400 yn fwy o fyfyrwyr meddygol yn derbyn hyfforddiant. Mae'r ffigur hwnnw'n bwysig. Ddoe, cyfarfûm â'r Athro Ian Cameron, Is-ganghellor Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru i drafod cynlluniau ar gyfer ehangu cyfleusterau ymchwil addysg feddygol yng Nghymru ymhellach. Cytunwyd ei bod erbyn hyn yn amser i gynhyrchu proses weithredu fydd yn cynnwys sefydliadau addysg uwch eraill ledled Cymru a ffurfio mwy o bartneriaethau rhyngddynt ac ymddiriedolaethau lleol yr NHS. Yn ôl y cynllun, dylid gwneud argymhellion terfynol imi ym mis Medi eleni i gyflawni'r

employment practices are vital to underpin our health care delivery in Wales and to retain our staff. High-quality education and training will be provided to all staff and issues of equality, culture and language will underpin our programmes. The NHS pay system will be reformed to provide better, fairer rewards for NHS staff, and the contractual arrangements for consultants will be modernised. We will issue guidance on replacing compulsory competitive tendering in the NHS in Wales with a Best Value approach. An example of how the plan approaches our partnership staff, is the staff representatives, which will be introduced onto NHS boards in Wales from September 2001.

In my statement in Plenary on 1 February 2001, I described the structural changes for the NHS. The plan presents challenges that will demand new approaches. These will be based on new partnerships between the NHS in Wales, local government and the communities they serve. This will require strong leadership and clear accountability at all levels. For this reason, I have announced my intention to strengthen the role of local health groups and the National Assembly and I will chair a newly created Health and Wellbeing Partnership Council. This will remove the need for health authorities, abolishing a tier in the current hierarchy between the Assembly and the patients.

**Rod Richards:** I can see the logic of abolishing health authorities. However, have you considered the impact of strengthening the local health groups on some of the more deprived parts of Wales? Have you considered that in the longer term you might be creating health ghettos in deprived areas?

**Jane Hutt:** Rod, you will see from my statement and from this debate, that we are strengthening how we enable the most deprived and disadvantaged communities to gain and benefit from better health care. They do not do that at the moment because of how we provide our services.

I would like to thank the opposition parties for their constructive amendments because

datblygiad Cymru-gyfan mewn addysg feddygol. Mae arferion cyflogaeth da yn hanfodol fel sail i'n dull o gyflawni gofal iechyd yng Nghymru ac i gadw ein staff. Darperir addysg a hyfforddiant o ansawdd i'n holl staff a bydd cydraddoldeb, diwylliant ac iaith yn sail i'n rhaglenni. Caiff system gyflogau'r NHS ei diwygio i ddarparu gwobrau gwell, tecach i staff yr NHS, a chaiff y trefniadau cytundebol ar gyfer ymgynghorwyr eu moderneiddio. Byddwn yn cyhoeddi arweiniad ar ddisodli tendro cystadleuol gorfodol yn yr NHS yng Nghymru gydag ymagwedd Gwerth Gorau. Mae'r cynrychiolwyr staff, a gaiff eu cyflwyno ar fyrddau'r NHS yng Nghymru o fis Medi 2001 yn enghraifft o sut mae'r cynllun yn cysylltu â'n staff partneriaeth.

Yn fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Chwefror 2001, disgrifiais y newidiadau strwythurol ar gyfer yr NHS. Cyflwyno'r cynllun heriau a fydd yn galw am ymagweddau newydd. Bydd y rhain yn seiliedig ar bartneriaethau newydd rhwng yr NHS yng Nghymru, llywodraeth leol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd hyn yn galw am arweinyddiaeth gref ac atebolrwydd clir ar bob lefel. Oherwydd hyn, datganais fy mwriad i gryfhau rôl grwpiau iechyd lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol a byddaf yn cadeirio Cyngor Partneriaeth Iechyd a Lles sydd newydd ei greu. Bydd hyn yn dileu'r angen am awdurdodau lleol, gan ddiddymu haen yn yr hierarchaeth bresennol rhwng y Cynulliad a'r cleifion.

**Rod Richards:** Gwelaf resymeg diddymu awdurdodau iechyd. Fodd bynnag, a ydych wedi ystyried effaith cryfhau'r grwpiau iechyd lleol ar rai o rannau mwyaf difreintiedig Cymru? A ydych wedi ystyried efallai yn y tymor hwy y byddwch yn creu getos iechyd mewn ardaloedd difreintiedig?

**Jane Hutt:** Rod, gwelwch o'm datganiad ac o'r ddadl hon, ein bod yn cryfhau sut yr ydym yn galluogi i'r cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd dan yr anfantais fwyaf i ennill ac elwa ar well gofal iechyd. Ni wnânt hynny ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y darparwn ein gwasanaethau.

Hoffwn ddiolch i'r gwrthbleidiau am eu gwelliannau adeiladol oherwydd eu bod yn

they demonstrate a strong measure of consensus. I call on Members not to support Jocelyn Davies's amendment 2 and William Graham's amendment 6.

The plan states the need to ensure that the National Assembly provides a new sense of leadership, direction and oversight. It proposes a new assertion of the National Assembly's direct, democratic control of its health responsibilities. Similarly, William Graham's amendments 5 and 6 regarding local health groups do not fit our aspirations. Arrangements that we propose are geared to suit the circumstances and needs of Wales. Appropriate structural issues will be identified as part of the implementation process and through consultation. As I have said repeatedly, structural change is not an end in itself, it is a means of improving patient care and increasing democracy in the NHS.

To highlight the many other improvements proposed, I want to concentrate on what the plan will mean for patients. This plan offers universal and fairer access to high-quality services at primary and secondary care level. The plan turns our ambition for a primary care-led service into a reality in Wales. Primary care is uniquely placed to manage and co-ordinate care and to play a full part in protecting and promoting improved health and tackling health inequalities. The plan shows how this will happen in the future; developing primary care teams with salaried health professionals; nurse-led opportunities; an increased role for physiotherapists and social care staff.

At secondary level, our report, 'Access and Excellence', which has been widely discussed throughout the service in Wales, identified a secure future for the network of major acute hospitals in Wales. The plan confirms that conclusion and shows how, as more services are provided locally, hospitals will develop as new specialist and general centres, based on integrated care.

Preventing ill-health and disease and health promotion will characterise the increasing

arddangos cryn gytundeb barn. Galwaf ar yr Aelodau i beidio â chefnogi gwelliant 2 Jocelyn Davies a gwelliant 6 William Graham.

Noda'r cynllun yr angen i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu ymdeimlad newydd o arweiniad, cyfeiriad ac arolygaeth. Cynigia arddeliad newydd o reolaeth uniongyrchol, democrataidd y Cynulliad Cenedlaethol ar ei gyfrifoldebau iechyd. Yn yr un modd, nid yw gwelliannau 5 a 6 William Graham ynghylch grwpiau iechyd lleol yn cyd-fynd â'n dyheadau. Anelir y trefniadau a gynigiwn i gyd-fynd ag amgylchiadau ac anghenion Cymru. Caiff materion strwythurol priodol eu henwi fel rhan o'r broses weithredu a thrwy ymgynghoriad. Fel y dywedais dro ar ôl tro, nid yw newid strwythurol yn ddiben ynddo'i hun, golyga wella gofal cleifion a chynyddu democratiaeth yn yr NHS.

I amlinellu'r sawl gwelliant arall a gynigiwyd, hoffwn ganolbwyntio ar yr hyn y bydd y cynllun yn ei olygu i gleifion. Cynigia'r cynllun hwn fynediad cyffredinol a thecach i wasanaethau o ansawdd uchel mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Gwiredda'r cynllun ein huchelgais o gael gwasanaeth wedi'i arwain gan ofal sylfaenol yng Nghymru. Mae gofal sylfaenol mewn sefyllfa unigryw i reoli a chydlynu gofal ac i chwarae rhan lawn wrth ddiogelu a hybu gwell iechyd ac ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd. Dengys y cynllun sut y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol; datblygu timau gofal sylfaenol gyda phobl broffesiynol gyflogedig ym maes iechyd; cyfleoedd o ran nyrsio; rôl gynyddol ar gyfer ffisiotherapyddion a staff gofal cymdeithasol.

Ar lefel eilaidd, nododd ein hadroddiad, 'Mynediad a Rhagoriaeth', a drafodwyd yn eang drwy'r gwasanaeth yng Nghymru, ddyfodol diogel ar gyfer y rhwydwaith o brif ysbytai gofal llym yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cadarnhau'r casgliad hwnnw ac yn dangos sut y bydd ysbytai yn datblygu'n ganolfannau arbenigol a chyffredinol newydd, yn seiliedig ar ofal integredig wrth i fwy o wasanaethau gael eu darparu'n lleol.

Bydd atal salwch ac afiechyd a hybu iechyd yn nodweddu pwysigrwydd cynyddol iechyd

importance of public health in Wales. In our efforts to address health inequalities and the problems of our poorest communities, the NHS has an important national and local responsibility to ensure that health is on everyone's agenda. As an advocate for health, it must lead by example in how it manages its services and in its contribution to the social, economic and environmental development of Wales. The plan shows how more energy, resources and time will be invested in partnerships to improve joint-working in health and social care, from childhood through to older age, which is vital to the most vulnerable people in Wales. Patients will be more involved in decisions about their care, and advocacy and support services will be developed. Community health councils in Wales will be retained and the people of Wales will have a greater involvement in their NHS, and a more significant role in the NHS Wales public appointments process.

However, the period of structural change over the next two years must be dynamic. We still face the challenges presented by winter pressures and we must continue to be vigilant, energetic and innovative in ensuring that services are maintained at all times.

3.20 p.m.

The service must remain fully on track with the other important aims set out in the plan. Many service objectives are included in the plan. For example, by the end of 2001, all services providing cancer care must demonstrate that they can meet published minimum standards. By 2004-05, all coronary heart disease care services must meet the many targets in the coronary heart disease national service framework implementation plan, which has been discussed fully in the Health and Social Services Committee.

There has been an unprecedented level of investment in the health service. An additional £1 billion will be invested over the next three years. The major resource allocation review, chaired by Professor Peter Townsend, is proceeding as planned, addressing the health needs of areas of socio-

cyhoeddus yng Nghymru. Yn ein hymdrechion i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd a phroblemau ein cymunedau tlotaf, mae gan yr NHS gyfrifoldeb cenedlaethol a lleol pwysig i sicrhau bod iechyd ar agenda pawb. Fel eiriolwr dros iechyd rhaid iddo arwain drwy esiampl yn y ffordd y rheola ei wasanaethau ac yn ei gyfraniad at ddatblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru. Dengys y cynllun sut y buddsoddir mwy o egni, adnoddau ac amser mewn partneriaethau i wella cydweithio mewn gofal iechyd a chymdeithasol, o blentynodod i henaint, sydd yn hanfodol i'r bobl fwyaf diamddiffyn yng Nghymru. Bydd cleifion yn cymryd mwy o ran mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal, a datblygir gwasanaethau eiriolaeth a chymorth. Caiff cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru eu cadw a bydd pobl Cymru'n ymwneud mwy â'u NHS, a bydd ganddynt rôl fwy helaeth ym mhroses penodiadau cyhoeddus NHS Cymru.

Fodd bynnag, rhaid i'r cyfnod o newid strwythurol dros y ddwy flynedd nesaf fod yn ddeinamig. Yr ydym yn dal i wynebu'r heriau a ddaw yn sgil pwysau'r gaeaf a rhaid inni barhau i fod yn wylidwrs, yn egnïol ac yn arloesol wrth sicrhau y cynhelir gwasanaethau bob amser.

Rhaid i'r gwasanaeth barhau i fod ar yr un trywydd â'r nodau pwysig eraill a amlinellir yn y cynllun. Caiff nifer o amcanion gwasanaeth eu cynnwys yn y cynllun. Er enghraifft, erbyn diwedd 2001, rhaid i bob gwasanaeth sydd yn darparu gofal canser ddangos y gallant gwrdd â'r isafswm safonau cyhoeddedig. Erbyn 2004-05, rhaid i bob gwasanaeth gofal clefyd y galon gwrdd â'r targedau niferus yng nghynllun gweithredu fframwaith gwasanaeth cenedlaethol clefyd y galon, a drafodwyd yn llawn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cafwyd lefel digyffelyb o fuddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd. Buddsoddir £1 biliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r prif adolygiad o ddyraniad adnoddau, a gadeirir gan yr Athro Peter Townsend, yn parhau fel y bwriadwyd, gan ymdrin ag anghenion iechyd ardaloedd sydd dan

economic disadvantage and dealing with health inequalities. In the meantime, I have set up a health inequalities fund, with £15 million to be spent over the next three years. In the first year, the fund will target the prevention of heart disease in areas suffering social disadvantage. It will also fund a dental fissures sealant programme for children in areas where there is high dental decay among the population.

The centrally-funded capital programme will increase to £47 million in 2002-03 and we will aim to sustain and improve this in future years. That will ensure that we can modernise our hospitals and health centres and replace outdated lifesaving equipment. That must be a first priority. Buildings, equipment and information systems will be made fit for purpose, to support the changing requirements of professional practice. Beyond these long-term efforts, I have allocated an extra £9 million next year, rising to £10.5 million by 2003, from within existing health budgets, for key elements of the plan. That money is targeted at priority services such as improved orthopaedic services, the modernisation of audiology services—including better hearing aids—and implementing the diabetes national service framework and the sexual health strategy.

I will support amendment 4 in the name of Jocelyn Davies, which calls for further discussion of the personal care proposals of the Royal Commission on long-term care for the elderly, chaired by Sir Stewart Sutherland. However, I want to place on record the context in which I will do so. I have already announced, as part of the plan, the administration's decision to seek an enabling, rather than a restrictive, definition of nursing care. I have also announced the administration's decision to provide six weeks' free home care for older people when they are discharged from hospital. Our considerations are therefore already well-developed. In supporting the amendment, I do not want to give the impression that I believe that there is a wide scope for developing policy on a blank piece of paper.

anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd. Yn y cyfamser, yr wyf wedi sefydlu cronfa anghydraddoldebau iechyd, gyda £15 miliwn i'w wario dros y tair blynedd nesaf. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y gronfa yn targedu atal clefyd y galon mewn ardaloedd sydd dan anfantais gymdeithasol. Bydd hefyd yn ariannu rhaglen selio holltau deintyddol ar gyfer plant mewn ardaloedd lle ceir pydredd dannedd uchel ymysg y boblogaeth.

Bydd y rhaglen gyfalaf a ariennir yn ganolog yn cynyddu i £47 miliwn yn 2002-03 ac anelwn at gynnal a gwella hyn mewn blynyddoedd i ddod. Sicrha hynny y gallwn foderneiddio ein hysbytai a'n canolfannau iechyd a phrynu offer achub bywyd newydd i gymryd lle offer hen ffasiwn. Rhaid i hynny fod yn brif flaenoriaeth. Gwneir adeiladau, offer a systemau gwybodaeth yn addas at y pwrpas, er mwyn cynorthwyo gofynion cyfnewidiol arfer broffesiynol. Y tu hwnt i'r ymdrechion hir dymor hyn, yr wyf wedi dyrannu £9 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn nesaf, yn codi i £10.5 miliwn erbyn 2003, o fewn cyllidebau iechyd presennol, ar gyfer elfennau allweddol y cynllun. Targedir yr arian hwnnw at wasanaethau blaenoriaeth fel gwell gwasanaethau orthopedig, moderneiddio gwasanaethau clywedeg—yn cynnwys cymhorthion clywed gwell—a rhoi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol clefyd siwgr a'r strategaeth iechyd rhywiol ar waith.

Cefnogaf welliant 4 yn enw Jocelyn Davies, sydd yn galw am drafodaeth bellach o gynigion gofal personol y Comisiwn Brenhinol ar ofal hir dymor ar gyfer yr henoed, a gadeirir gan Syr Stewart Sutherland. Fodd bynnag, hoffwn gofnodi'r cyd-destun y gwnaf hynny. Cyhoeddais eisoes, fel rhan o'r cynllun, benderfyniad y weinyddiaeth i geisio cael diffiniad o ofal nysio sydd yn galluogi yn hytrach nag yn cyfyngu. Cyhoeddais hefyd benderfyniad y weinyddiaeth i ddarparu gofal yn y cartref am ddim am chwe wythnos i'r henoed pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty. Felly mae ein hystyriaethau eisoes wedi'u datblygu'n dda. Wrth gefnogi'r gwelliant, nid wyf am roi'r argraff fy mod yn credu bod cyfle eang ar gyfer datblygu polisi ar ddarn gwag o bapur. Mae gennym grŵp llywio i ddatblygu

We have a steering group to develop a strategy for older people, chaired by Dr Brian Gibbons. The issue is bound to be discussed in that group, and rightly so. The group's discussions will be reported for debate in Committee and in Plenary. On that basis, I support the amendment.

Taken together, our proposals add up to a huge undertaking. This new vision of care is based on making the NHS work as a whole, minimising the fragmentation that has led to barriers and divisions between the patient and an open, equitable, effective health service. It confirms our determination to achieve joined-up working, training and thinking in the vital areas of public service that we can influence. There is much to be done and we must start immediately on this ambitious plan. For this purpose, I will chair a steering group to oversee the implementation of the plan by March 2003. The group will include senior and experienced representatives from the Assembly, the NHS, local government and other partner organisations and sectors. The new director of NHS Wales, Ann Lloyd, will be personally accountable for the successful implementation of the plan. We are determined to rise to the challenges of the vision—

**Pauline Jarman** *rose*—

**The Presiding Officer:** Order. There is no time for interventions.

**Jane Hutt:** The motion provides the clearest statement of the direction in which the NHS in Wales is set to travel. As I said in my foreword to the plan, we are embarking on a project to renew the NHS. We are doing so by putting people and health first.

**David Lloyd:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Cynigiaf welliant 1. Dileer 'cymeradwyo' o'r cymal cyntaf gan roi 'nodi' yn ei le.

Cynigiaf welliant 2. Dileer popeth o '(a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001)' ac ychwaneger y canlynol fel ail gymal newydd:

strategaeth ar gyfer pobl hŷn, a gadeirir gan Dr Brian Gibbons. Mae'r mater yn siŵr o gael ei drafod yn y grŵp hwnnw, a hynny'n briodol. Rhoddir adroddiad am drafodaethau'r grŵp ar gyfer y ddadl yn y Pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn. Ar y sail honno, cefnogaf y gwelliant.

O'u casglu ynghyd, mae ein cynigion yn llunio ymrwymiad cryf. Mae'r weledigaeth newydd hon o ofal yn seiliedig ar wneud i'r NHS weithio'n gyffredinol, gan leihau'r datgymalu a arweiniodd at rwystrau a rhaniadau rhwng y claf a gwasanaeth iechyd agored, teg ac effeithiol. Cadarnha hyn ein penderfyniad i gyflawni gweithio, hyfforddiant a meddwl wedi'i gyd-gysylltu yn y meysydd hanfodol o wasanaeth cyhoeddus y gallwn ddylanwadu arnynt. Mae llawer o waith i'w wneud a rhaid inni gychwyn ar unwaith ar y cynllun uchelgeisiol hwn. I'r diben hwn, byddaf yn cadeirio grŵp llywio i oruchwyllo gweithredu'r cynllun erbyn mis Mawrth 2003. Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr mewn uwch swyddi a chynrychiolwyr profiadol o'r Cynulliad, yr NHS, llywodraeth leol a sefydliadau partneriaeth a sectorau eraill. Ann Lloyd, cyfarwyddwraig newydd NHS Cymru fydd yn bersonol gyfrifol am weithredu'r cynllun yn llwyddiannus. Yr ydym yn benderfynol o oresgyn her y weledigaeth—

**Pauline Jarman** *a gododd*—

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes amser i ymyrryd.

**Jane Hutt:** Mae'r cynnig yn darparu'r datganiad cliraf o'r cyfeiriad y bydd yr NHS yng Nghymru yn anelu ato. Fel y dywedais yn fy rhagair i'r cynllun, yr ydym yn cychwyn ar brosiect i adnewyddu'r NHS. Gwawn hynny drwy roi pobl ac iechyd yn gyntaf.

**David Lloyd:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. I propose amendment 1. Delete 'endorses' from the first clause and replace with 'notes'.

I propose amendment 2. Delete all from '(laid in the Table Office on 5 February 2001)' and insert as a new second clause:



<i>yn cydnabod mai trwy'r camau a gymerir, yn ogystal â'r ymrwymiad a leisir, y mae mesur llwyddiant arweinyddiaeth radical, ac felly mae'n ymrwymo'r weinyddiaeth bartneriaeth i:</i>	<i>recognises that the success of radical leadership is to be seen in actions taken, as well as in commitment expressed, and therefore commits the partnership administration to:</i>
<i>greu corff strategol Cymru-gyfan yn lle'r awdurdodau iechyd a fydd yn cael eu diddymu er mwyn rhoi diwedd ar y loteri cod post sydd mewn bod ar hyn o bryd o ran darparu gwasanaethau;</i>	<i>replacing the abolished health authorities with an all-Wales strategic body that will bring an end to the postcode lottery of service provision;</i>
<i>cynyddu ymhellach nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael ar gyfer staff yr NHS a datblygu model 'campws Cymru-gyfan' ar gyfer addysgu israddedigion meddygaeth;</i>	<i>further increasing the numbers of training places available for NHS staff and developing the 'all-Wales campus' model of medical undergraduate education;</i>
<i>cydnabod yr angen i bennu targedau cydlynol ym maes adnoddau dynol er mwyn sicrhau llwyddiant wrth gynllunio'r gweithlu yn y tymor hir;</i>	<i>acknowledging the need to set coherent human resource targets in order to achieve long-term workforce planning;</i>
<i>ailwerthuso rôl y fenter cyllid preifat;</i>	<i>re-evaluating the role of PFI;</i>
<i>datblygu dull cydlynol o weithredu wrth fynd ati i leihau amserau aros, nad yw'n dibynnu'n unig ar bennu targedau, ond ar gynyddu gallu er mwyn rhoi gofal gwell i gleifion, yn ogystal â phennu amserlen gyhoeddus ar gyfer cyflwyno system neilltuo lle a blaenoriaethu ar draws Cymru.</i>	<i>developing a coherent approach to reducing waiting times that does not rely on the imposition of targets alone but on increasing capacity in order to deliver improved patient care and further sets a public time-scale for the introduction of a booking and prioritisation system across Wales.</i>
<i>Yn croesawu unrhyw gynllun ar gyfer yr NHS sydd yn:</i>	<i>Welcomes any plan for the NHS that:</i>
<i>pwysleisio rôl mesurau ataliol, yn ogystal â mesurau iechyd y cyhoedd, o ran gwella iechyd y boblogaeth;</i>	<i>emphasises the role of preventative and public health measures in improving the health of the population;</i>
<i>gwella'r agwedd leol ar gynllunio a darparu gwasanaethau;</i>	<i>enhances the local planning and delivery of services;</i>
<i>cryfhau'r llais democrataidd yn y broses o ddarparu a chynllunio gwasanaethau iechyd yn strategol yng Nghymru;</i>	<i>strengthens the democratic voice in the delivery and strategic planning of health services in Wales;</i>
<i>adeiladu ar bartneriaethau hanfodol gyda llywodraeth leol ac eraill;</i>	<i>Builds on essential partnerships with local government and others;</i>
<i>gwerthfawrogi cyfraniad staff ar bob lefel;</i>	<i>Values the contribution of staff at all levels;</i>
<i>ail-gadarnhau'r pwysigrwydd y mae pobl Cymru yn ei roi ar wasanaeth iechyd gwladol sydd o'r ansawdd uchaf ac sydd wedi'i seilio</i>	<i>reaffirms the importance to the people of Wales of a national health service which is of the highest quality and based on need and not</i>

*ar angen yn hytrach na'r gallu i dalu.*

Cynigiad welliant 4. Ychwaneger fel trydydd cymal:

*ymrwymo'r weinyddiaeth bartneriaeth i ystyried, mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ac yn y Pwyllgorau, ganlyniadau ymestyn gofal personol rhad ac am ddim fel rhan o'r newidiadau i'r dulliau o ariannu gofal y bwriedir eu cyflwyno fel rhan o'r strategaeth ar gyfer yr henoed a amlinellir gan y weinyddiaeth bartneriaeth yng nghynllun yr NHS.*

Datganaf fuddiant fel meddyg teulu a chynghorydd sir. Mae Plaid Cymru yn croesawu strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru fel man cychwyn. Mae diddymu awdurdodau iechyd i'w groesawu, a mabwysiadodd Plaid Cymru y polisi o leihau'r nifer o lefelau gweinyddu nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae'r ymlyniad i gadw, cryfhau a datblygu'r cynghorau iechyd cymunedol i'w groesawu.

Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynglŷn â'r gallu i ddarparu'r gwelliannau yr honnir y gellid eu cyflawni. Yr ydym yn pryderu am niferoedd nyrsus, meddygon a gwelyau. Mae pryderon hefyd ynglŷn â gallu ein grwpiau iechyd lleol i ymateb i'r disgwyliadau a fydd ar eu hysgwyddau, yn ogystal â phryderon ynglŷn â'r ymrwymiad parhaol i'r fenter cyllid preifat.

The Assembly has been operating for 21 months—nearly two years. England had its national plan last July, now we have ours. The commitment to abolish health authorities is welcome, but what will replace them? We need an all-Wales strategic body, which can end the post-code lottery and will direct all-Wales strategies for the major disease profiles, with a strong primary-care element, linked to the strengthened local health groups.

However, local health groups face a significant challenge to develop the capacity, backup and expertise to deliver their increased role. Significant additional

*ability to pay.*

I propose amendment 4. Add as a third clause:

*commits the partnership administration to examine, in both Plenary and Committee debate, the consequences of extending free personal care as part of the care funding reforms planned as part of the partnership administration's strategy for older people discussed in the NHS plan.*

I declare an interest as a general practitioner and a county councillor. Plaid Cymru welcomes the Government's strategy for the health service in Wales as a starting point. The abolishment of health authorities is to be welcomed, and Plaid Cymru adopted the policy of reducing the number of administrative levels many years ago. The commitment to retain, strengthen and develop the community health councils is to be welcomed.

However, we have concerns about the ability to deliver the improvements that—it is claimed—can be achieved. We are concerned about the numbers of nurses, doctors and beds. There are also concerns about our local health groups' ability to respond to the expectations that they will have to shoulder, as well as concerns about the continuing commitment to the private finance initiative.

Bu'r Cynulliad yn gweithredu am 21 mis—bron i ddwy flynedd. Cafodd Lloegr ei chynllun cenedlaethol fis Gorffennaf diwethaf, bellach mae gennym ni ein cynllun. Croesewir yr ymrwymiad i ddiddymu awdurdodau iechyd, ond beth fydd yn cymryd eu lle? Mae angen corff strategol Cymru-gyfan arnom, a all ddod â'r hapchwarae ar sail codau post i ben ac a fydd yn rheoli strategaethau Cymru-gyfan ar gyfer y prif broffiliau afiechyd, gydag elfen gofal sylfaenol gref, wedi'i gysylltu â'r grwpiau iechyd lleol.

Fodd bynnag, mae'r grwpiau iechyd lleol yn wynebu her sylweddol i ddatblygu cynhwysedd, cymorth wrth gefn ac arbenigedd i gyflawni eu rôl fwy. Rhaid rhoi

resources must be directed to them and to primary care. While we welcome the focus on general practitioners and community nurses, increased expectations need to be matched by increased resources. If the Government is serious about ready access to GPs and increasing the length of consultations with GPs and nurses—on page 66 of this strategy it states that surgeries are to be open 24 hours a day and 7 days a week—then the number of GPs and nurses in primary care will have to double. National service frameworks may also compromise routine patient care.

My patients are wondering about the effect that the NHS strategy will have on them. Patients are still waiting on trolleys in hospitals and there are horrendous queues for treatment. There is a desperate need to reduce waiting lists and therefore a desperate need to increase the NHS's capacity to treat patients. The summary to chapter 7 of the strategy states that patients will be treated according to clinical need, which is welcome. However, the policy approach is fragmented. We find that the maximum waiting time for cataract surgery will be four months, and that there will be an increase of 10 per cent in the number of hip-replacement operations. We need a prioritisation system for positioning within the waiting times, based on clinical and social need. When will this be operational nationally? On page 69 of the strategy we read that health organisations will review the five major waiting-list specialities by March 2002 and agree plans to tackle long waiting times. That is a long deadline for an action that means nothing. On the same page we read that targets will be agreed annually to ensure that Welsh waiting times quickly fall to levels that compare with the best. The first of these targets is to be issued early in 2001. However, targets in themselves do not ensure anything.

We urgently need, over the long term, to increase the NHS's capacity to treat patients. We need meaningful long-term strategies to recruit and retain nurses, doctors and workers in professions allied to medicine. We are one of the most 'underdoctored' countries in

adnoddau ychwanegol sylweddol iddynt ac i ofal sylfaenol. Er y croesewir y ffocws ar feddygon teulu a nyrsys cymunedol, mae angen i adnoddau cynyddol gyfateb â disgwyliadau cynyddol. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif ynghylch mynediad parod i feddygon teulu a chynyddu hyd ymgynghoriadau â meddygon teulu a nyrsys—ar dudalen 66 y strategaeth hon noda y bydd meddygfeydd ar agor 24 awr y dydd a 7 diwrnod yr wythnos—yna rhaid i nifer y meddygon teulu a'r nyrsys mewn gofal sylfaenol ddyblu. Efallai y bydd fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol hefyd yn peryglu gofal rheolaidd i gleifion.

Mae fy nghleifion yn pendroni am yr effaith a gaiff strategaeth yr NHS arnynt. Mae cleifion yn dal i aros ar drolïau mewn ysbytai a cheir ciwiau ofnadwy ar gyfer triniaeth. Mae angen dybryd i leihau rhestrau aros ac felly mae angen dybryd i leihau gallu'r NHS i drin cleifion. Noda crynodeb pennod 7 y strategaeth y caiff cleifion eu trin yn ôl yr angen clinigol, a groesewir. Fodd bynnag, mae ymagwedd y polisi yn ddarniog. Canfyddwn y bydd uchafswm yr amser aros ar gyfer llawdriniaeth cataract yn bedwar mis, ac y bydd cynnydd o 10 y cant yn nifer y llawdriniaethau i gael clun newydd. Mae angen system flaenoriaethu arnom i'w gosod o fewn yr amseroedd aros, yn seiliedig ar angen clinigol a chymdeithasol. Pryd y gweithredir hyn yn genedlaethol? Ar dudalen 69 y strategaeth darllenwn y bydd sefydliadau iechyd yn adolygu'r pum prif arbenigedd rhestrau aros erbyn mis Mawrth 2002 ac yn cytuno ar gynlluniau i ymdrin ag amseroedd aros hir. Mae hynny'n derfyn amser hir ar gyfer gweithred nad yw'n golygu unrhyw beth. Ar yr un dudalen darllenwn y cytunir ar dargedau yn flynyddol i sicrhau y bydd amseroedd aros yng Nghymru yn gostwng yn gyflym i lefelau sydd yn cymharu â'r gorau. Bwriedir cyhoeddi'r targed cyntaf ar ddechrau 2001. Fodd bynnag, nid yw targedau yn sicrhau unrhyw beth ynddynt eu hunain.

Mae angen inni gynyddu gallu'r NHS i roi triniaeth i gleifion ar fyrder, dros y tymor hir. Mae angen strategaethau tymor hir ystyrllon arnom i recriwtio a chadw nyrsys, meddygon a gweithwyr mewn proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth. Yr ydym yn un

Europe. Increasing capacity must be central to any NHS strategy for Wales. Yet, in 80 pages of strategy, there are only a couple of paragraphs devoted to that theme, which should be central to the future of the NHS in Wales.

I welcome the medical school campus development in Swansea. When you were there last Friday, Jane, I was healing my patients next door. They told me about the day-to-day problems facing them of waiting in corridors. That campus development is a start in addressing the problem of capacity, but the NHS has been run down for years. We lost 27 per cent of our bed capacity between 1988 and 1998. Nearly 6,000 beds were lost in Wales. Yet chapter 4 maintains that the Government will merely 'endeavour' to increase general and critical bed capacity, without giving any figures. On page 50 we read that each health organisation and profession experiencing shortages will produce its own recruitment and retention strategy by September 2001. The professions have been telling governments their concerns for years; this Government needs to commit the resources, and act.

Finally, capacity is also a matter of equipment and the need to invest urgently in updating and procuring new medical equipment. New medical technologies need to be developed in community settings to better treat patients clinically using innovative, ambulatory care such as endoscopies and day surgery, ensuring a true community focus to health care with improved access to care. Decreasing front line staff stress, improving staff morale by addressing staffing issues and replacing obsolete equipment will improve patient care. Wales has some of the worst health statistics. Health inequalities are widening. This NHS strategy is a start, but huge challenges remain.

3.30 p.m.

**David Melding:** I propose the amendments in the name of William Graham. I propose

o'r gwledydd â'r lleiaf o feddygon yn Ewrop. Rhaid i gynyddu gallu fod yn ganolog i unrhyw strategaeth yr NHS ar gyfer Cymru. Serch hynny, mewn 80 tudalen o strategaeth, dim ond dau baragraff sydd yn ymroddedig i'r thema honno a ddylai fod yn ganolog i ddyfodol yr NHS yng Nghymru.

Croesawaf ddatblygiad campws yr ysgol feddygol yn Abertawe. Pan oeddech yno ddydd Gwener diwethaf, Jane, yr oeddwn yn gwella fy nghleifion drws nesaf. Dywedasant wrthyf am y problemau dyddiol sydd yn eu hwynebu o aros mewn coridorau. Mae'r datblygiad campws hwnnw yn ddechreuad wrth ymdrin â'r broblem gallu, ond mae'r NHS wedi gweld blynyddoedd o ddirywiad. Collasom 27 y cant o'n nifer gwelyau rhwng 1988 ac 1998. Collwyd bron i 6,000 o welyau yng Nghymru. Er hynny, noda pennod 4 mai dim ond ymdrechu i gynyddu gallu gwelyau cyffredinol a chritigol y bydd y Llywodraeth, heb roi unrhyw ffigurau. Ar dudalen 50 darllenwn y bydd pob sefydliad a phroffesiwn iechyd sydd yn profi diffygion yn cynhyrchu ei strategaeth recriwtio a chadw ei hun erbyn mis Medi 2001. Bu'r proffesiynau yn lleisio eu pryderon wrth lywodraethau ers blynyddoedd; mae angen i'r Llywodraeth hon ymrwymo'r adnoddau, a gweithredu.

Yn olaf, mae gallu hefyd yn fater o offer a'r angen i fuddsoddi ar fyrder i ddiweddarau a phrynu offer meddygol newydd. Mae angen datblygu technolegau meddygol newydd mewn lleoliadau cymunedol i roi gwell triniaeth i gleifion yn glinigol gan ddefnyddio gofal arloesol, symudol fel endosgopau a meddygfa ddyddiol, gan sicrhau ffocws cymunedol gwirioneddol ar ofal iechyd gyda gwell mynediad i ofal. Bydd lleihau straen ar staff llinell flaen, gwella ysbryd y staff drwy ymdrin â materion staffio a phrynu offer newydd yn lle offer hen ffasiwn yn gwella gofal cleifion. Mae gan Gymru rai o'r ystadegau iechyd gwaethaf. Mae anghydraddoldebau iechyd yn ehangu. Mae'r strategaeth NHS hon yn ddechreuad, ond erys heriau anferth.

**David Melding:** Cynigiau y gwelliannau yn enw William Graham. Cynigiau welliant 3.

amendment 3. Delete all of clause two and replace with:	Dileer yr ail gymal i gyd, gan roi'r canlynol yn ei le:
<i>2. Regrets that the Liberal Democrat/Labour administration has:</i>	<i>2. Yn gresynu bod y weinyddiaeth Ddemocrataidd Ryddfrydol/Llafur wedi:</i>
<i>failed to set core targets for the recruitment of staff and the maximum length of waiting times;</i>	<i>methu â phennu targedau craidd ar gyfer recriwtio staff ac ar gyfer yr amserau hiraf y dylai cleifion aros;</i>
<i>ruled out the piloting of care trusts in Wales as permitted in the Health and Social Care Bill currently before Parliament;</i>	<i>diystyru'r posibilrwydd o ragbrofi ymddiriedolaethau gofal yng Nghymru fel sydd yn cael ei ganiatáu yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd;</i>
<i>decided to centralise operational control of NHS Cymru in the Minister's office.</i>	<i>penderfynu canoli'r gwaith o reoli NHS Cymru yn swyddfa'r Gweinidog.</i>
I propose amendment 5. Add new clause three:	Cynigiau welliant 5. Ychwaneger fel trydydd cymal newydd:
<i>3. Notes that when health authorities are abolished the statutory basis for local health groups disappears and thus recommends that LHGs be reconstituted under Part I of the Health Act 1999.</i>	<i>3. Yn nodi y bydd y sail statudol ar gyfer grwpiau iechyd lleol yn diflannu pan ddiddymir yr awdurdodau iechyd ac yn argymhell felly bod y grwpiau iechyd lleol yn cael eu hail gyfansoddi o dan Ran I Deddf Iechyd 1999.</i>
I propose amendment 6. At end of motion, add:	Cynigiau welliant 6. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:
<i>After the abolition of health authorities, any health authority powers not transferred to local health groups be vested in an all-Wales arms length body called Wellbeing Wales which will:</i>	<i>Ar ôl diddymu'r awdurdodau iechyd, yn breinio unrhyw bwerau sydd gan yr awdurdodau iechyd nad ydynt yn cael eu trosglwyddo i grwpiau iechyd lleol mewn corff hyd braich Cymru-gyfan, o'r enw Lles Cymru, a fydd yn:</i>
<i>implement the strategic decisions taken by the National Assembly to promote the health and wellbeing of the people of Wales;</i>	<i>gweithredu'r penderfyniadau strategol sydd yn cael eu cymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol i hybu iechyd a lles pobl Cymru;</i>
<i>remove politicians from the operational control of the NHS, and;</i>	<i>sicrhau nad yw gwleidyddion yn cael rhan yn y gwaith o reoli'r NHS, ac;</i>
<i>on the advice of an independent panel, recommend any major health service reorganisations that may be necessary.</i>	<i>ar ôl cael cyngor panel annibynnol, argymhell unrhyw ad-drefnu mawr ar y gwasanaeth iechyd a fydd, o bosibl, yn angenrheidiol.</i>
I regret that the time for this debate is limited. The shadow spokesperson on health barely had six minutes, the Minister had 13, and I will be restricted to around five. These are	Gresynaf fod yr amser ar gyfer y ddadl hon yn gyfyngedig. Cwta chwe munud a gafodd llefarydd yr wrthblaid ar iechyd, cafodd y Gweinidog 13, a chaf fi fy nghyfyngu i tua

serious issues. This is the first time that we have debated the NHS plan for the next 10 years in Plenary and I hope that, in the Assembly review, we re-examine how we deal with major issues of significance like this one—

**The First Minister:** Get on with it, then.

**David Melding:** I will get on with it because at the heart of this plan is a hospital closure programme. That may take the smile off your face, First Minister. Jane Hutt must clarify the following sentences on page 16 of the plan that was, presumably written by her:

‘a substantial change in the hospital network in Wales’

and

‘we will see an overall reduction in the number of traditional hospitals.’

What does that mean? I will give way to the First Minister if he wishes to speak, but he is glued to his seat. Will any accident and emergency departments close? If so, where? Will any District General Hospitals close? If so, where? We need answers to these fundamental questions. Coming forward with a plan that has at its core, a major reduction in the number of hospitals raises concerns that require more than an hour and a quarter’s debate in this Assembly.

Given that the Minister wants to implement such major changes in the hospital network, the abolition of health authorities causes a particular problem. Health authorities currently recommend major changes to the health service and consults on them. Community health councils can then refer such proposals to the Minister for final decision. All such powers may be centralised in the Minister’s office and, given her response to an earlier intervention, that will be the case. She will propose major hospital closures, consult on them and, if necessary, will refer them back to herself and make the ultimate decision. Acting, literally, as a health commissar. That is the system at the

phum munud. Mae’r rhain yn faterion difrifol. Dyma’r tro cyntaf inni gael dadl ar gynllun yr NHS ar gyfer y 10 mlynedd nesaf mewn Cyfarfod Llawn a gobeithiaf, yn adolygiad y Cynulliad, y byddwn yn ailarchwilio sut y byddwn yn ymdrin â materion mawr pwysig fel hwn—

**Prif Weinidog Cymru:** Bwrwch ati, felly.

**David Melding:** Gwnaf hynny, oherwydd wrth wraidd y cynllun hwn ceir rhaglen cau ysbytai. Efallai y bydd hynny’n tynnu’r wên oddi ar eich wyneb, Brif Weinidog. Rhaid i Jane Hutt egluro’r brawddegau canlynol ar dudalen 16 y cynllun, y cymeraf yr ysgrifennwyd ganddi hi:

‘newid sylweddol yn y rhwydwaith ysbytai yng Nghymru’

a

‘byddwn yn gweld gostyngiad cyffredinol yn y nifer o ysbytai traddodiadol.’

Beth yw ystyr hynny? Ildiaf i’r Prif Weinidog os bydd yn dymuno siarad, ond mae’n sownd yn ei sedd. A fydd unrhyw adrannau damwain ac achosion brys yn cau? Os felly, yn lle? A fydd unrhyw Ysbytai Cyffredinol Rhanbarthol yn cau? Os felly, yn lle? Mae angen atebion arnom i’r cwestiynau sylfaenol hyn. Mae cyflwyno cynllun sydd â gostyngiad mawr yn nifer yr ysbytai wrth ei wraidd yn codi pryderon sydd yn golygu mwy nag awr a chwarter o ddadl yn y Cynulliad hwn.

O ystyried fod y Gweinidog am weithredu newidiadau mawr o’r fath yn y rhwydwaith ysbytai, mae diddymu awdurdodau iechyd yn achosi problem benodol. Ar hyn o bryd mae awdurdodau iechyd yn argymhell newidiadau mawr i’r gwasanaeth iechyd ac maent yn ymgynghori arnynt. Yna gall cynghorau iechyd cymuned gyfeirio cynigion o’r fath i’r Gweinidog wneud penderfyniad terfynol arnynt. Gellir canoli pob pŵer o’r fath yn swyddfa’r Gweinidog ac, o ystyried ei hymateb i ymyrriad cynharach, dyna fydd yr achos. Bydd yn cynnig bod ysbytai mawr yn cau, bydd yn ymgynghori arnynt, ac os oes angen, bydd yn eu cyfeirio yn ôl ati hi ac yn gwneud y penderfyniad terfynol, gan

heart of this NHS plan.

That system will not be reasonable, and I wonder whether it will stand the test of certain human rights laws to which we have now signed up. In England, there will be an independent panel that will recommend major health service changes. England still has health authorities. We will not have that layer to at least review some of those proposals. That will all be in the Minister's power. I challenge her, this afternoon, to commit to the establishment of an independent panel to recommend all major health service reorganisation. That is the only way to get some check and balance into the system that she proposes.

I will refer to other structural changes in this plan. The Minister says naively that structures are not so important and that she wants to concentrate on service delivery. We all want to concentrate on that, but we all know that the structures in place to achieve that are also important. I accept that there is an argument for abolishing health authorities, but the crucial question, as Dai Lloyd asked, is what will replace them? We cannot simply abolish something and then say that we can rest on the Minister's decision on all these issues, or that we can consult on them in some sort of vague, future exercise. If we are going to abolish health authorities, we need exact details of what will follow. We cannot sign up carte blanche to this sort of radical change without knowing some of the likely consequences.

The Minister seems determined to acquire the residual powers of health authorities. I agree with Plaid Cymru that a better approach would be to establish some all-Wales organisation. We would rather have an arms-length agency, and we suggest calling it something like 'Wellbeing Wales'. That organisation would implement the Assembly's major strategic decisions and would remove politicians from operation and control of the NHS. Lord only knows that the operational control that the Minister for Health and Social Services has had on

weithredu, yn llythrennol, fel comisâr iechyd. Dyna'r system sydd wrth wraidd y cynllun NHS hwn.

Ni fydd y system honno'n rhesymol, a thybed a fydd yn gallu gwrthsefyll cyfreithiau hawliau dynol penodol yr ydym wedi ymrwmo iddynt yn awr. Yn Lloegr, bydd panel annibynnol a fydd yn argymell newidiadau mawr i'r gwasanaeth iechyd. Mae gan Loegr awdurdodau iechyd o hyd. Ni fydd gennym yr haen honno o leiaf i adolygu rhai o'r cynigion hynny. Bydd hynny i gyd o fewn pŵer y Gweinidog. Heriaf hi, y prynhawn yma, i ymrwmo i sefydlu panel annibynnol i argymell pob ad-drefnu mawr yn y gwasanaeth iechyd. Dyna'r unig ffordd o gyflwyno gwiriad a chydbwysedd i'r system a gynigia.

Cyfeiriaf at newidiadau strwythurol eraill yn y cynllun hwn. Dywed y Gweinidog yn ddiniwed nad yw strwythurau yn bwysig iawn a'i bod am ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth. Mae pawb ohonom am ganolbwyntio ar hynny, ond gŵyr pawb ohonom fod y strwythurau sydd yn eu lle i gyflawni hynny hefyd yn bwysig. Derbyniaf fod dadl dros ddiddymu awdurdodau iechyd, ond y cwestiwn hanfodol, fel y gofynnodd Dai Lloyd, yw beth fydd yn cymryd eu lle? Ni allwn ddiddymu rhywbeth ac yna dweud y gallwn ddibynnu ar benderfyniad y Gweinidog ar yr holl faterion hyn, neu y gallwn ymgynghori arnynt mewn rhyw fath o ymarfer amhendant yn y dyfodol. Os ydym am ddiddymu awdurdodau lleol, mae angen manylion manwl o'r hyn fydd yn dilyn arnom. Ni allwn lofnodi carte blanche i'r math hwn o newid radical heb wybod rhai o'r canlyniadau tebygol.

Ymddengys bod y Gweinidog yn benderfynol o gael y pwerau sydd yn weddill gan yr awdurdodau lleol. Cytunaf â Phlaid Cymru y byddai creu math o sefydliad Cymru-gyfan yn well. Byddai'n well gennym gael asiantaeth hyd braich, ac awgrymwn y dylid ei galw'n rhywbeth fel 'Lles Cymru'. Byddai'r sefydliad hwnnw'n rhoi penderfyniadau strategol mawr y Cynulliad ar waith ac yn tynnu gweithrediad a rheolaeth yr NHS oddi wrth y gwleidyddion. Dyn a wŷr y bu'r rheolaeth weithredol a gafodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau

waiting lists has been a catastrophic disaster. That will be aggravated further in March, when we see the full failure of her policy. An independent arm's-length agency could recommend major health service reorganisations on the advice of an independent panel. It is not feasible to have major hospital closures without some form of independent review. It will not be good enough for the Minister to have all this power.

The plan makes no provision for care trusts to combine health and social care. It must be a model worth testing. It is one thing to say that they can do it in England if they want to, but we should look across the border for good ideas and at least test them. I am not saying that that model is the answer, but it needs examination. It has been done for many years in Northern Ireland, so even if you do not like the English NHS, perhaps you can look at Northern Ireland.

There is no concordat in this plan for co-operation with the private and independent sector, which is likely to grow. Whatever your ideological reservations, that sector will grow, and it must also be utilised for NHS provision. Most disgracefully perhaps, there is no commitment to graded inspection systems for NHS organisations. They will be graded annually in England. Patients there will know the performance of their local district general hospital, but patients in Wales will not know. That is a great failing.

The structure of primary care will be languid and I fear that it will fall behind best practice in England. Local health groups will not be given trust status. Let me spell out what that means. At the moment, local health groups are sub-committees of health authorities. When health authorities go, the statutory basis for local health groups disappears. They will have to be recreated in some form, and if they are not given trust status, they will be directly controlled by the Minister. No other system is available to us if we abolish health authorities. Such a system of absolute power in the Minister's hands is unlikely to lead to

Cymdeithasol ar restrau aros yn drychineb ofnadwy. Gwaethygir hynny ymhellach ym mis Mawrth, pan welwn fethiant llawn ei pholisi. Gallai asiantaeth hyd braich annibynnol argymhell ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd ar raddfa fawr ar gyngor panel annibynnol. Nid yw'n ymarferol cau ysbytai mawr heb ryw fath o adolygiad annibynnol. Ni fydd yn ddigon da i'r Gweinidog gael y pŵer hwn i gyd.

Ni wna'r cynllun unrhyw ddarpariaeth i ymddiriedolaethau gofal gyfuno iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid iddo fod yn fodel sydd yn werth ei brofi. Un peth yw dweud y gallant ei wneud yn Lloegr os ydynt am wneud hynny, ond dylem edrych dros y ffin am syniadau da a'u profi o leiaf. Nid wyf yn dweud mai'r model hwnnw yw'r ateb, ond mae angen ei archwilio. Gwnaethpwyd hyn am sawl blwyddyn yng Ngogledd Iwerddon, felly hyd yn oed os nad ydych yn hoffi'r NHS yn Lloegr, efallai y gallwch edrych ar Ogledd Iwerddon.

Nid oes concordat yn y cynllun hwn i gydweithredu â'r sector preifat ac annibynnol, sydd yn debygol o dyfu. Beth bynnag fo'ch rhwystredigaethau ideolegol, bydd y sector honno'n tyfu, a hefyd rhaid ei defnyddio ar gyfer darpariaeth yr NHS. Yn fwyaf gwarthus o bosibl, ni cheir ymrwymiad i systemau arolygu graddedig ar gyfer sefydliadau'r NHS. Cânt eu graddio'n flynyddol yn Lloegr. Bydd cleifion yno yn gwybod am berfformiad eu hysbyty cyffredinol rhanbarthol leol, ond ni fydd cleifion yng Nghymru'n gwybod. Mae hynny'n fethiant mawr.

Bydd strwythur gofal sylfaenol yn wan ac ofnaf y bydd yn disgyn y tu ôl i arfer orau yn Lloegr. Ni roddir statws ymddiriedolaeth i grwpiau iechyd lleol. Gadewch imi esbonio'r hyn y mae hynny'n ei olygu. Ar hyn o bryd, is-bwyllgorau awdurdodau lleol yw grwpiau iechyd lleol. Pan fydd yr awdurdodau iechyd yn diflannu, bydd y sail statudol ar gyfer grwpiau iechyd lleol yn diflannu. Bydd yn rhaid eu hail-greu ar ryw ffurf, ac os na roddir statws ymddiriedolaeth iddynt, cânt eu rheoli'n uniongyrchol gan y Gweinidog. Nid oes unrhyw system arall ar gael inni os byddwn yn diddymu awdurdodau iechyd. Nid



an innovative and healthy NHS.

yw'n debygol y bydd system o bŵer absoliwt yn nwylo'r Gweinidog yn arwain at NHS arloesol ac iach.

We will support all of Plaid Cymru's amendments. We robustly agree with the reference to reviewing the private finance initiative in amendment 2. We believe that PFI is an outstanding success and that it should be extended.

Byddwn yn cefnogi pob un o welliannau Plaid Cymru. Cytunwn yn gryf â'r cyfeiriad at adolygu'r fenter cyllid preifat yng ngwelliant 2. Credwn fod y fenter cyllid preifat yn llwyddiant ysgubol ac y dylid ei hymestyn.

**Kirsty Williams:** It is extremely difficult to respond to this wide-ranging strategy, which covers everything from national plans for cardiac and cancer care to the state of the NHS estate and the computerised systems that will be employed for better patient planning.

**Kirsty Williams:** Mae'n hynod o anodd ymateb i'r strategaeth eang ei chwmpas hon, sydd yn cwmpasu popeth o gynlluniau cenedlaethol ar gyfer gofal cardiaidd a chanser i gyflwr ystad yr NHS a'r systemau cyfrifiadurol a ddefnyddir er mwyn cynllunio'n well ar gyfer cleifion.

Nobody would disagree with the capacity issues that Dai raised. He is correct; we need extra beds and extra staff to man them. It is only by addressing those basic capacity issues that we will tackle the long waiting lists that Welsh patients face.

Ni fyddai unrhyw un yn anghytuno â'r materion gallu a godwyd gan Dai. Mae'n gywir; mae angen gwelyau ychwanegol arnom a staff ychwanegol i weithio arnynt. Dim ond drwy ymdrin â'r materion gallu sylfaenol hynny y gallwn ddelio â'r rhestrau aros hir sydd yn wynebu cleifion yng Nghymru.

I will highlight a few issues that could be glossed over in today's debate. First, the role of patients and the public is crucial and that is the main component of this plan. I am particularly glad to see an entire chapter of the strategy dedicated to how patients will be involved in planning the NHS for the future and in shaping the services that they will receive. For too long, we have told patients what treatment they will have, and when and in what situations they will have it. Now we have the opportunity to truly engage the public in helping to plan for services, and to have their voices heard when, unfortunately, things go wrong. All Members should welcome the retention of community health councils.

Amlygaf ychydig o faterion na chaiff llawer o sylw ei roi iddynt efallai yn nadl heddiw. I ddechrau, mae rôl cleifion a'r cyhoedd yn hanfodol a dyna brif elfen y cynllun hwn. Yr wyf yn arbennig o falch o weld pennod gyfan o'r strategaeth wedi'i hymroi i sut y caiff cleifion eu cynnwys wrth gynllunio'r NHS ar gyfer y dyfodol ac wrth siapio'r gwasanaethau y byddant yn eu derbyn. Yn rhy hir, dywedasom wrth gleifion pa driniaeth y byddant yn ei chael, a phryd ac ym mha sefyllfa y byddant yn ei chael. Yn awr cawn y cyfle i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o helpu i gynllunio ar gyfer gwasanaethau, a lleisio eu barn pan, yn anffodus, y bydd pethau'n mynd o'i le. Dylai'r holl Aelodau groesawu cadw cynghorau iechyd cymuned.

I am particularly keen to hear from the Minister on how she intends to involve professionals in taking these strategy plans forward. I welcome the Health and Wellbeing Partnership Council. It will now, hopefully, give the service the clarity and strategic leadership that it has long asked for. However, Minister, in chairing this group,

Yr wyf yn arbennig o awyddus i glywed gan y Gweinidog sut y bwriada gynnwys pobl broffesiynol wrth ddatblygu'r cynlluniau strategol hyn. Croesawaf y Cyngor Partneriaeth Iechyd a Lles. Bydd yn awr, gobeithio, yn rhoi'r eglurder a'r arweiniad strategol i'r gwasanaeth y gofynnwyd amdano ers peth amser. Fodd bynnag,

you must be guided by a broad range of NHS professionals. Only then, in conjunction and co-operation with those in the service, can we provide realistic and relevant policies that will translate into changes for patients on the ground. By doing that, I hope that we will begin to see the end of the passing of the buck culture, the blame culture and 'it is not me, it is them' culture that has perhaps assisted management sometimes. These have blocked changes to patient services.

3.40 p.m.

I also welcome your comments on the need to keep an eye on the ball. We know what a destabilising effect structural change within the service can have and the effects it has on patient care. We need to send a clear message to all those who manage our services that this is not the time for them to be distracted by any concerns that they may have about their future careers and let that affect their ability to deliver for patients throughout Wales. In strengthening the local health groups, we have a great opportunity to address the problems that Rod mentioned. We must respond to local need and the ghettos of ill-health in communities. I know from experience in my own county that health statistics in Powys compare favourably with the average. However, there are pockets of deprivation and ill-health in the Newtown, Welshpool and Ystradgynlais areas. It has been impossible for the health authority, which is based in Carmarthen, to tackle the needs of these communities. The Powys LHG and the Powys NHS trust have the opportunity now to plan for those pockets of deprivation and ill-health, put in place the strategies and services those communities need and commission those services in a way that the health authority has failed to do.

However, LHGs since their creation have suffered—

**Cynog Dafis:** Soniodd Kirsty Williams am Ymddiriedolaeth Iechyd Powys a'r angen i gynllunio yno. A yw hi'n cytuno y bydd angen dialog gyson rhwng y Gweinidog ac

Weinidog, wrth gadeirio'r grŵp hwn, rhaid ichi gael eich arwain gan ystod eang o bobl broffesiynol yr NHS. Dim ond wedyn, ar y cyd ac mewn cydweithrediad â'r rhai hynny yn y gwasanaeth, y gallwn ddarparu polisiau realistig a pherthnasol a fydd yn troi'n newidiadau ar gyfer cleifion ar lawr gwlad. Drwy wneud hynny, gobeithio y byddwn yn dechrau gweld diwedd ar y diwylliant o osgoi cyfrifoldeb, a'r diwylliant bai a 'nhw sydd yn gyfrifol nid fi' sydd wedi bod o help i reolwyr weithiau efallai. Mae'r rhain wedi rhwystro newidiadau i wasanaethau cleifion.

Hefyd croesawaf eich sylwadau ar yr angen i gadw eich llygaid ar agor. Gwyddom oll am yr effaith ansefydlog y gall newid strwythurol o fewn y gwasanaeth ei gael a'r effeithiau a gaiff ar ofal cleifion. Mae angen inni anfon neges glir i'r holl rai hynny sydd yn rheoli ein gwasanaethau nad dyma'r amser iddynt gael eu llygad-dynnu gan unrhyw bryderon y gall fod ganddynt am eu gyrfaedd yn y dyfodol a gadael i hynny effeithio ar eu gallu i gyflawni ar gyfer cleifion ledled Cymru. Wrth gryfhau'r grwpiau iechyd lleol, mae gennym gyfle gwych i ymdrin â'r problemau a grybwyllodd Rod. Rhaid inni ymateb i'r angen lleol a'r getos salwch mewn cymunedau. Gwn o brofiad yn fy sir fy hun fod ystadegau iechyd ym Mhowys yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd. Fodd bynnag, ceir ardaloedd o amddifadedd a salwch yn y Drenewydd, y Trallwng ac Ystradgynlais. Bu'n amhosibl i'r awdurdod iechyd, a leolir yng Nghaerfyrddin, ymdrin ag anghenion y cymunedau hyn. Mae gan grŵp iechyd lleol Powys ac ymddiriedolaeth yr NHS ym Mhowys y cyfle yn awr i gynllunio ar gyfer yr ardaloedd hyn o amddifadedd a salwch, rhoi'r strategaethau a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y cymunedau hyn ar waith a chomisïynu'r gwasanaethau hynny mewn modd y methodd yr awdurdod iechyd ei wneud.

Fodd bynnag, mae grwpiau iechyd lleol ers cael eu creu wedi dioddef—

**Cynog Dafis:** Kirsty Williams mentioned Powys NHS Trust and the need for planning there. Does she agree that constant dialogue will be needed between the Minister and

Aelodau o'r Cynulliad, y grwpiau iechyd lleol a'r colegau brenhinol er mwyn sicrhau bod y math o ganllawiau y maent yn eu datblygu, gweithredu ac argymhell yn berthnasol i'r math o amgylchiadau sydd gennym yng Nghymru? Yr wyf yn meddwl yn arbennig am—ac mae Kirsty Williams yn ymwybodol o hyn—yr uned famolaeth yn Ysbyty Coffa Aberhonddu.

**Kirsty Williams:** Absolutely. That is why I welcome the commitment in the NHS strategy, Cynog, to the Health and Wellbeing Partnership Council having regional capacity. We must reflect on the different needs of communities, particularly rural needs—as you mentioned—in developing policies and strategies throughout Wales because those needs sometimes differ. In giving extra responsibilities to the LHGs, there is an opportunity to consider the membership of LHGs. I welcome the increased representation from local authorities. Local authorities have a huge role to play in improving the health of people in Wales. It is not only the social services department that is responsible; it is the housing department and the economic development department as well. By bringing greater representation of local authorities to the LHGs and developing local health alliances, we can truly begin to work in partnership and not only in the box of health and social services. It is time to consider the role of professions allied to medicine and LHGs who are not represented and to enhance the role of nurses by ensuring that they have a place on the Executive.

Finally—I am aware of the time—staff who currently work for the health authorities are suffering a great deal of anxiety. That needs to be recognised. I know from discussions that I have had with the Minister that there will be opportunities to bring some of those staff to the centre. I also know that the enhanced role of the LHGs will mean that they will need additional staff to manage their new functions, as will the trusts. I know, from past discussions, that the Powys NHS Trust will be looking to recruit people who might lose their jobs in the health authorities. It is necessary today, Jane, to send a message to those people who are worried about what

Assembly Members, the local health groups and the royal colleges to ensure that the kind of guidelines that they are developing, implementing and recommending are relevant to our circumstances in Wales? I am thinking particularly about—and Kirsty Williams is aware of this—the maternity unit at the Brecon War Memorial Hospital.

**Kirsty Williams:** Yn sicr. Dyna pam imi groesawu'r ymrwymiad yn strategaeth yr NHS, Cynog, i roi gallu rhanbarthol i'r Cyngor Partneriaeth Iechyd a Lles. Rhaid inni ystyried gwahanol anghenion cymunedau, yn arbennig anghenion gwledig—fel y nodwyd gennych—wrth ddatblygu polisiau a strategaethau ledled Cymru oherwydd bod yr anghenion hynny'n wahanol weithiau. Wrth roi cyfrifoldebau ychwanegol i'r grwpiau iechyd lleol, ceir cyfle i ystyried aelodaeth y grwpiau iechyd lleol. Croesawaf y gynrychiolaeth gynyddol o awdurdodau lleol. Mae gan awdurdodau lleol rôl anferthol i'w chwarae wrth wella iechyd pobl yng Nghymru. Nid yr adran nawdd cymdeithasol yn unig sydd yn gyfrifol; mae'r adran dai a'r adran datblygu economaidd yn gyfrifol hefyd. Drwy ddod â chynrychiolaeth fwy o awdurdodau lleol i'r grwpiau iechyd lleol a datblygu cynghreiriau iechyd lleol, gallwn ddechrau gweithio'n wirioneddol mewn partneriaeth ac nid ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Mae'n bryd ystyried rôl pobl broffesiynol sydd yn gysylltiedig â meddygaeth a grwpiau iechyd lleol na chânt eu cynrychioli a gwella rôl nrysys drwy sicrhau bod ganddynt le ar y Weithrediaeth.

Yn olaf—yr wyf yn ymwybodol o'r amser—mae staff sydd ar hyn o bryd yn gweithio i'r awdurdodau iechyd yn dioddef llawer o bryder. Mae angen cydnabod hynny. Gwn o drafodaethau a gefais â'r Gweinidog y bydd cyfleoedd i ddod â rhai o'r staff hynny i'r ganolfan. Hefyd gwn y bydd rôl y grwpiau iechyd lleol a gafodd eu gwella yn golygu y bydd angen staff ychwanegol arnynt i reoli eu swyddogaethau newydd, fel yr ymddiriedolaethau. Gwn, o drafodaethau yn y gorffennol, y bydd Ymddiriedolaeth yr NHS ym Mhowys yn ceisio recriwtio pobl a allai golli eu swyddi yn yr awdurdodau iechyd. Mae'n angenrheidiol heddiw, Jane,

will happen to their careers, that there are opportunities for professionals in healthcare management to join the centre, to work for the LHGs or to work for the trusts.

**Geraint Davies:** I declare an interest as a pharmacist and a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council. Having a plan for the NHS in Wales is a good thing. Until now, the lack of a plan has been a major deficiency. At last, we can have a debate and the parties can put forward their proposals to see exactly what we want in that plan. I am delighted that resources are being shifted away from administration into the coal-face of healthcare, in-patient care. As a pharmacist, I welcome a number of proposals; the recognition of pharmacy as a key partner in the health service; the adoption of the proposals in the Crown Report which will make the distribution of medicines better and more accessible; the commitment to consider the recommendations of the task and finish group on prescribing, which is due to report next month.

However, more needs to be done. It is essential that a profession such as pharmacy, as an integral member of the health service, is included in the new Health and Wellbeing Partnership Council, as it will be responsible for implementing that plan. The plan does not go far enough to abolish charges for prescriptions for those under 25. All charges should be abolished, not only for prescriptions but also for dental checks and eye tests. If we are to have a healthy population, the service must be free at the point of use. Likewise, the information technology infrastructure must be improved so that all pharmacists are linked directly to the central system. All of these improvements are necessary if we are to give our customers the best possible effective and efficient service using the best technology.

Many hospital buildings throughout Wales, and particularly in the Valleys, are in a deplorable condition. I welcome any money to improve the infrastructure. However, I cannot accept that private finance initiative

anfon neges i'r bobl hynny sydd yn poeni am beth fydd yn digwydd i'w gyrfaeodd, bod cyfleoedd i bobl broffesiynol ym maes rheoli gofal iechyd i ymuno â'r ganolfan, i weithio i'r grwpiau iechyd lleol neu i weithio i'r ymddiriedolaethau.

**Geraint Davies:** Datganaf fuddiant fel fferylllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae cael cynllun i'r NHS yng Nghymru yn beth da. Hyd yma, bu diffyg cynllun yn wendid mawr. O'r diwedd, gallwn gael dadl a gall y pleidiau gyflwyno eu cynigion i weld beth yr ydym am roi yn y cynllun hwnnw yn union. Yr wyf wrth fy modd y caiff adnoddau eu symud o weinyddiaeth i ofal iechyd ei hun, gofal cleifion mewnol. Fel fferylllydd, croesawaf nifer o'r cynigion; cydnabod fferylliaeth fel partner allweddol yn y gwasanaeth iechyd; mabwysiadu'r argymhellion a geir yn Adroddiad Crown a wna'r gwaith o ddsbarthu moddion yn well ac yn fwy hygrych; ymrwymo i ystyried argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen o ran rhagnodi, sydd yn bwriadu cyflwyno adroddiad y mis nesaf.

Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy. Mae'n hanfodol y cynhwysir proffesiwn fel fferylliaeth, sef aelod annatod o'r gwasanaeth iechyd, yn y Cyngor Partneriaeth Iechyd a Lles newydd, gan y bydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun hwnnw. Nid â'r cynllun yn ddigon pell i ddiddymu taliadau presgripsiynau ar gyfer pobl o dan 25 oed. Dylid diddymu pob taliad, nid yn unig ar gyfer presgripsiynau ond hefyd ar gyfer archwiliadau deintyddol a phrofion llygaid. Os ydym am gael poblogaeth iach, rhaid i'r gwasanaeth fod am ddim pan y'i defnyddir. Yn yr un modd, rhaid gwella'r isadeiledd technoleg gwybodaeth fel y caiff pob fferylllydd ei gysylltu'n uniongyrchol â'r system ganolog. Mae angen pob un o'r gwelliannau hyn os ydym am roi i'n cwsmeriaid y gwasanaeth mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl gan ddefnyddio'r dechnoleg orau.

Mae llawer o adeiladau ysbytai ledled Cymru, ac yn enwedig yn y Cymoedd, mewn cyflwr alaethus. Croesawaf unrhyw arian i wella'r isadeiledd. Fodd bynnag, ni allaf dderbyn y caiff y fenter cyllid preifat ei

will be used. Invariably, PFI means fewer beds to pay for it. That money goes into shareholders' pockets. We must look seriously for alternatives to PFI.

It is good to see an allocation of £4 million for the health inequalities fund but how will this money be targeted? What type of initiatives will there be? How will the fund interact with Communities First? How will the fund deal with specific problems of ill health and poverty that affect the Valleys? None of this has been made clear. While we are doing well to take a different tack from the English plan, which is to abolish the community health councils and so abolish the effectiveness of the complaints procedure, that is not enough. Community health councils need to be given more authority and resources for their support services so that they can operate effectively. There is also a need for improved in-hospital staff development. Another area that needs to be addressed is staff access to occupational health services such as physiotherapy, which would prevent the loss of days due to sickness and back problems. It would also help to improve morale, with staff feeling more valued. Plans for England indicate that it will want to move the NHS in the direction of providing occupational health services for private companies. In the Welsh plan, the role of offering an occupational health service to improve recruitment and retention has not even been discussed. This oversight must be remedied.

Waiting lists are being discussed and many promises have been made. I am particularly concerned about the cardiac waiting lists in Rhondda Cynon Taff. I welcome the proposals for waiting lists for the professions allied to medicine, such as physiotherapists and speech therapists. Too many of our children are being deprived of essential services because of the backlog of those waiting for appointments. When these waiting lists are known, will additional resources be forthcoming to tackle them? This plan is heading in the right direction but falls far short of what is needed and what is possible. I urge the Government to take steps to remedy the plan's deficiencies.

defnyddio. Yn ddieithriad, golyga'r fenter cyllid preifat fod llai o welyau i dalu amdano. Â'r arian hwnnw i bocedi'r cyfranddalwyr. Rhaid inni edrych o ddifri am opsiynau amgen i'r fenter cyllid preifat.

Mae'n braf gweld y dyrennir £4 miliwn i'r gronfa anghydraddoldebau iechyd ond sut y caiff yr arian hwn ei dargedu? Pa fath o fentrau a fydd? Sut bydd y gronfa yn rhyngweithio â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? Sut bydd y gronfa yn delio â phroblemau penodol afiechyd a thlodi sydd yn effeithio ar y Cymoedd? Nid esboniwyd unrhyw rai o'r cwestiynau hyn. Er y gwnawn yn dda i fynd ar drywydd gwahanol i gynllun Lloegr, sef diddymu'r cynghorau iechyd cymuned ac felly ddiddymu effeithiolrwydd y weithdrefn gwyno, nid yw hynny'n ddigon. Mae angen rhoi mwy o awdurdod ac adnoddau i wasanaethau cymorth y cynghorau iechyd cymuned fel y gallant weithredu'n effeithiol. Mae angen datblygu staff yn yr ysbyty yn well hefyd. Maes arall y mae angen ymdrin ag ef yw mynediad staff i wasanaethau iechyd galwedigaethol megis ffisiotherapi, a fyddai'n eu hatal rhag colli diwrnodau gwaith oherwydd salwch a phroblemau cefn. Byddai hefyd yn helpu i godi morâl, a byddai'r staff yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi'n fwy. Noda cynlluniau ar gyfer Lloegr y bydd am symud yr NHS i gyfeiriad darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol i gwmnïau preifat. Yn y cynllun Cymreig, ni thrafodwyd y rôl o gynnig gwasanaeth iechyd galwedigaethol i wella'r gwaith o recriwtio a chadw staff hyd yn oed. Rhaid unioni'r amryfusedd hwn.

Trafodir rhestrau aros a gwnaethpwyd llawer o addewidion. Pryderaf yn benodol am y rhestrau aros ar gyfer triniaeth y galon yn Rhondda Cynon Taf. Croesawaf y cynigion ar gyfer rhestrau aros ar gyfer y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth, fel ffisiotherapyddion a therapyddion lleferydd. Amddifadir gormod o'n plant o wasanaethau hanfodol oherwydd yr holl bobl sydd yn aros am apwyntiadau. Pan fydd y rhestrau aros hyn yn hysbys, a roddir adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â hwy? Â'r cynllun hwn i'r cyfeiriad cywir ond mae ymhell o ateb y galw a'r hyn sydd yn bosibl. Pwysaf ar y Llywodraeth i gymryd camau i wella diffygion y cynllun.

**Brian Gibbons:** One of the main reasons why I commend this plan is its emphasis on a primary-care led NHS. We have had rhetorical commitment to a primary-care led NHS for many years but abolishing the internal market is the first chance that we have had to test this care model. We need to move towards a primary-care led NHS for many reasons. Over 90 per cent of contacts with the NHS are at a primary care level. The majority of personal preventive services and the continuing management of care will be delivered at that level. It is essential that primary care is developed to provide a holistic view for patients in the use of the service. Documents such as 'Access and Excellence' show that a move towards some specialisation is taking place. We need a strong primary-care led NHS to guide patients through the diverse clinical pathways of care that will inevitably develop during the next decade or so.

**Brian Gibbons:** Un o'r prif resymau pam y cymeradwyaf y cynllun hwn yw ei bwyslais ar NHS sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol. Cawsom ymrwymiad rhethregol i NHS sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol ers blynyddoedd lawer ond diddymu'r farchnad fewnol yw'r cyfle cyntaf a gawsom i brofi'r model gofal hwn. Mae angen inni symud tuag at NHS sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol am lawer o resymau. Mae mwy na 90 y cant o gysylltiadau o fewn yr NHS ar lefel gofal sylfaenol. Caiff y mwyafrif o'r gwasanaethau ataliol personol a'r gwaith o reoli gofal yn barhaus eu cyflwyno ar y lefel honno. Mae'n hanfodol datblygu gofal sylfaenol i roi darlun cyfannol i'r cleifion wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Dengys dogfennau megis 'Mynediad a Rhagoriaeth' y cymerir rhai camau tuag at arbenigo. Mae angen NHS cryf sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol arnom i dywys cleifion drwy'r llwybrau gofal clinigol gwahanol a fydd yn datblygu yn anochel yn ystod y degawd nesaf neu ddau.

3.50 p.m.

Primary care is traditionally regarded as the gatekeeper of the NHS. However, as was said in the Scottish document, we need to change that paradigm from being the gatekeeper to being the gateway into the NHS. A primary-care led NHS will facilitate the patient's walk through the service. We need a strong primary-care led NHS to provide a needs-based service for our patients. Before 1990, policy planning in the NHS was virtually non-existent. It basically boiled down to the wish list of consultants in the glamorous specialities. Unless there is a primary care led-NHS, we will not be able to change the shift in power to allow services to be provided on the identified needs of our patients.

Ystyrir gofal iechyd yn draddodiadol fel gwarchodwr yr NHS. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn nogfen yr Alban, mae angen inni newid y patrwm hwnnw o fod yn warchodwr i fod yn borth i'r NHS. Hwylusa NHS sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol daith cleifion drwy'r gwasanaeth. Mae arnom angen NHS cryf sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol i ddarparu gwasanaeth ar sail anghenion ar gyfer ein cleifion. Cyn 1990, ni chynlluniwyd polisiau yn yr NHS bron o gwbl. Mater o restr dymuniadau meddygon ymgynghorol yn yr arbenigeddau hudolus ydoedd yn y bôn. Oni cheir NHS sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol, ni allwn newid cyfeiriad i adael i wasanaethau gael eu darparu yn ôl anghenion penodol ein cleifion.

This document must also be commended for reflecting patients' needs and identifying the correct priorities that the NHS in Wales must now address. These include the need to tackle issues such as heart disease, which is currently the single biggest cause of premature death in Wales, and the single biggest disease category in terms of health

Rhaid cymeradwyo'r ddogfen hon hefyd am adlewyrchu anghenion cleifion a nodi'r blaenoriaethau cywir y mae'n rhaid i'r NHS yng Nghymru ymdrin â hwy erbyn hyn. Ymhlith y rhain mae'r angen i fynd i'r afael â materion megis clefyd y galon, sef ar hyn o bryd yr un achos mwyaf dros farwolaethau cynamserol yng Nghymru, a'r un categori

inequality. We must tackle the priorities for cancer services as outlined by the cancer care co-ordination group. We need to outline the targets that will be included in the national service framework for mental health disease, older people and mental health services. We need to deliver clinically effective services such as the cataract treatments that make such a difference to the quality of life of older people. We need to tackle the black hole of waiting lists particularly for trauma and orthopaedic services, which constitute anything from a quarter to a third of the waiting patients in the NHS. We must also tackle the general issue of waiting lists in the NHS—I am surprised that David Melding has not jumped up yet—particularly with the renewed emphasis on waiting times.

In making a choice, even with the prospect of a 25 per cent increase in resources to the NHS over the next three years, we must prioritise. As I have said, we have outlined some of our priorities. There are also the priorities between health and social care. Jocelyn Davies's amendments bring us to some of the issues in relation to this balance. In Scotland, for example, they only gave about 5.5 per cent or 5.7 per cent increases in allocations to their health service. It left them able to make more ambitious offers in terms of health and social care, particularly free personal care.

In Wales, we have given an allocation of about 7.5 per cent to 7.7 per cent to health authorities. That was our choice and we have offered a more innovative package in terms of support care within the community. We have made a choice by supporting people in the community rather than allowing resources to be spent in supporting people in institutions. Therefore, we must prioritise. At this stage, it is not enough to say that we want more of this, more of that and more of the other. It is a time of choice. Nye Bevan said that the politics of socialism is about choice. To paraphrase Nye Bevan yet again, we have declared our priorities to challenge you to tell us your priorities.

clefyd mwyaf o ran anghydraddoldeb iechyd. Rhaid inni fynd i'r afael â'r blaenoriaethau o ran gwasanaethau canser a amlinellwyd gan y grŵp cydlynu gofal canser. Mae angen inni amlinellu'r targedau a gaiff eu cynnwys yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer salwch y meddwl, pobl hŷn a gwasanaethau iechyd y meddwl. Mae angen inni gyflwyno gwasanaethau sydd yn glinigol effeithiol megis trin cataractau a wna gymaint o wahaniaeth i ansawdd bywyd pobl hŷn. Mae angen inni fynd i'r afael â phroblem ddi-ddiwedd rhestrau aros yn enwedig ar gyfer gwasanaethau trawma ac orthopedig, sydd yn cynnwys rhwng chwarter a thraean o'r cleifion sydd yn aros yn yr NHS. Rhaid inni fynd i'r afael â mater cyffredinol rhestrau aros yn yr NHS hefyd—synnaf nad yw David Melding wedi neidio i fyny eto—yn enwedig yn sgîl y pwyslais o'r newydd ar amserau aros.

Wrth ddewis, hyd yn oed gyda'r cynnydd 25 y cant arfaethedig o ran adnoddau a roddir i'r NHS dros y tair blynedd nesaf, rhaid inni flaenoriaethu. Fel y dywedais, amlinellasom rai o'n blaenoriaethau. Ceir blaenoriaethau hefyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Daw gwelliannau Jocelyn Davies â ni i rai o'r materion yn ymwneud â'r cydbwysedd hwn. Yn yr Alban, er enghraifft, dim ond 5.5 y cant neu 5.7 y cant o gynnydd a roddwyd i ddyraniadau eu gwasanaeth iechyd. Ar ôl gwneud hynny, gallent wneud cynigion mwy uchelgeisiol o ran iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig gofal personol am ddim.

Yng Nghymru, rhoddasom ddyraniad o tua 7.5 y cant i 7.7 y cant i'r awdurdodau iechyd. Ein dewis ni oedd hynny a chynigiasom becyn mwy arloesol o ran gofal cymorth o fewn y gymuned. Gwnaethom ddewis drwy roi cymorth i bobl yn y gymuned yn hytrach na gadael i adnoddau gael eu gwario i roi cymorth i bobl mewn sefydliadau. Felly, rhaid inni flaenoriaethu. Erbyn hyn, nid yw'n ddigon dweud ein bod am gael mwy o hyn a mwy o'r llall. Mae'n amser i ddewis. Dywedodd Nye Bevan fod gwleidyddiaeth sosialaeth yn ymwneud â dewis. I aralleirio Nye Bevan unwaith eto, datganasom ein blaenoriaethau i'ch herio chi i sôn wrthym am eich blaenoriaethau.

**Nick Bourne:** I am surprised that Nye Bevan believed so much in choice, and I am pleased to hear that Brian Gibbons does also. I am sure that we would all wish to endorse that.

I welcome what I think is the best part of this package, namely the abolition of health authorities. That is widely welcome on all sides of the Chamber and throughout Wales. I wish to ask the Minister about funding, with the abolition of the health authorities, which I understand are destined to end by April 2003. I visited Usk House, a day centre for palliative care, in Brecon last week. People there were concerned about funding decisions being made in the interim for perhaps a longer time frame and how funding will be affected in the transitional period. I am sure that there is an answer to that, but I would be anxious to hear it so that that message can be conveyed to others.

I move from that specific query to concerns about this statement. The main concern is about what are to replace health authorities. By saying that we are abolishing health authorities and that that is welcome, we are not addressing the real issue of where we put power. It seems to me that, in this system, power is very much centralised in the hands of the Minister in the National Assembly. There is talk about direct democratic control of health responsibility. That will send a shudder down the spine of many people. The power on clinical and medical decisions, and the running of health should be left to local health groups and trusts. We must move away from the suggestion that they should be highly centralised in the National Assembly, particularly when—and David Melding referred to this—there is an omen in the document of future hospital closures. There is talk of cuts in accident and emergency departments and an overall reduction in the number of traditional hospitals. That will be of concern because many of us remember Jon Owen Jones's statement not so long ago about the over-supply of district general hospitals in mid and west Wales. There is concern in Llanelli, Carmarthen, Withybush and Aberystwyth about that statement. To find it here dressed up in a different form will cause fresh concerns. Therefore, the Minister needs to comment on this. Which traditional

**Nick Bourne:** Synnaf y credodd Nye Bevan cymaint mewn dewis, ac yr wyf yn falch o glywed bod Brian Gibbons yn credu felly hefyd. Yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom am ategu hynny.

Croesawaf y rhan orau o'r pecyn hwn yn fy marn i, sef diddymu awdurdodau iechyd. Croesewir hynny yn eang ar bob ochr o'r Siambr a ledled Cymru. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog am ariannu, wrth ddiddymu'r awdurdodau iechyd, y deallaf y bwriedir eu dirwyn i ben erbyn Ebrill 2003. Ymwelais â Usk House, canolfan ddydd ar gyfer gofal lleddfol, yn Aberhonddu yr wythnos diwethaf. Yr oedd pobl yno yn pryderu am y penderfyniadau ariannu a wneir yn y cyfamser ar gyfer y tymor hwy efallai a sut yr effeithir ar ariannu yn ystod y cyfnod trosiannol. Yr wyf yn siŵr bod ateb i hynny, ond byddwn yn awyddus i'w glywed fel y gellir cyfleu'r neges honno i bobl eraill.

Symudaf o'r cwestiwn penodol hwnnw i bryderon am y datganiad hwn. Mae'r prif bryder yn ymwneud â'r hyn sydd am gymryd lle'r awdurdodau iechyd. Drwy ddweud ein bod yn diddymu awdurdodau iechyd ac y croesewir hynny, nid ymdriniwn â'r mater gwirioneddol sef ble i roi'r pŵer. Ymddengys i mi y canolir pŵer yn nwylo'r Gweinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn y system hon. Sonnir am reolaeth ddemocrataidd uniongyrchol o gyfrifoldeb iechyd. Gyrra hynny ias i lawr cefn llawer o bobl. Grwpiau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol ddylai gael y pŵer o ran penderfyniadau clinigol a meddygol, a sut i redeg iechyd. Rhaid inni symud i ffwrdd o'r awgrym y dylid eu canoli'n sylweddol yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn enwedig—a chyfeiriodd David Melding at hyn—pan argoelir yn y ddogfen y bydd ysbytai yn cau yn y dyfodol. Sonnir am dorri adrannau damweiniau ac achosion brys a lleihau'n gyffredinol nifer yr ysbytai traddodiadol. Bydd hynny yn peri pryder gan fod llawer ohonom yn cofio datganiad Jon Owen Jones yn gymharol ddiweddar am y ffaith fod gormod o ysbytai cyffredinol dosbarth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Ceir pryderon yn Llanelli, Caerfyrddin, Llwyn Helyg ac Aberystwyth am y datganiad hwnnw. Bydd y ffaith y'i cyflwynir yma ar ffurf wahanol yn achosi pryderon newydd. Felly, mae angen i'r



hospitals does she think will be reduced? Is it the district general hospitals or the good community hospitals that we have in Powys and in other parts of Wales? Where are the hospital cuts that are mentioned in this document?

I turn to a second serious issue, namely the comparisons that are being made with England. During questions today, the First Minister, in one of his petulant moods, said that we should not refer to England and that we do things better and differently in Wales. Sometimes I am sure that we do, but I still have not had an answer to the question, which David Melding also posed, on why we cannot pilot a care trust in Wales. Care trusts are being piloted in England to try to deal with some of the problems that we have on waiting lists and bed-blocking, for example.

**Kirsty Williams:** Do you agree that the term 'bed-blocking' is inappropriate? It implies fault on the people who, unfortunately, cannot be discharged from hospital. Perhaps you could reconsider your statement and refer to that problem as 'delayed discharge', although we commonly use the term that you used.

**Nick Bourne:** I am happy to put blame where it properly applies. I am not surprised that you are on your feet, because the blame properly applies to the administration. I am certainly not putting blame on the patients; it is not their fault. It is delayed discharge on their part, but it is bed-blocking on the part of politicians who are trying to centralise this system in Cardiff, rather than giving proper control where it should be—in hospitals and local health groups throughout Wales.

I return to the comparison with England. The First Minister said earlier that we should not always assume that the grass is greener in England. Will the Minister for Health and Social Services tell us why, in the English plan, the target is a six-month wait for inpatient care, whereas it is 12 months in Wales? Are we really going to treat our patients as second-class citizens in Wales? It appears that, in this instance, the grass will be very much greener in England. Why is that,

Gweinidog wneud sylwadau ar hyn. Pa ysbytai traddodiadol a gaiff eu lleihau yn ei barn hi? Ai'r ysbytai dosbarth cyffredinol neu'r ysbytai cymunedol da sydd gennym ym Mhowys ac mewn rhannau eraill o Gymru ydynt? Ble mae'r gwaith o gau ysbytai a grybwyllir yn y ddogfen hon yn digwydd?

Trof at ail fater difrifol, sef y cymariaethau a wneir heddiw â Lloegr. Yn ystod y cwestiynau heddiw, dywedodd Prif Weinidog Cymru, pan oedd mewn un o'i hwyliau diamynedd, na ddylem gyfeirio at Loegr ac y gwnawn bethau yn well ac mewn ffordd wahanol yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr ein bod ni weithiau, ond ni chefais ateb o hyd i'r cwestiwn, a ofynnwyd gan David Melding hefyd, ynglŷn â pham na allwn gynnal prosiect peilot yng Nghymru. Rhagbrofir ymddiriedolaethau gofal yn Lloegr i geisio delio â rhai o'r problemau sydd gennym o ran rhestrau aros a blocio gwelyau, er enghraifft.

**Kirsty Williams:** A gytunwch fod y term 'blocio gwelyau' yn amhriodol? Ensynia fod bai ar y bobl na ellir, yn anffodus, eu rhyddhau o'r ysbyty. Efallai y gallech ailystyried eich datganiad gan gyfeirio at y broblem honno fel 'oedi cyn rhyddhau cleifion', er y defnyddiwn y term a ddefnyddiasoch chi yn gyffredin.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn fodlon beio pwy bynnag sydd yn berthnasol. Ni synnaf eich bod ar eich traed, gan fod y bai yn perthyn yn gywir i'r weinyddiaeth. Yn sicr, ni feiaf y cleifion; nid hwy sydd ar fai. Oedi cyn cael eu rhyddhau ydyw ar eu rhan hwy, ond blocio gwelyau ydyw ar ran y gwleidyddion sydd yn ceisio canoli'r system hon yng Nghaerdydd, yn hytrach na rhoi rheolaeth briodol lle y dylai fod—mewn ysbytai a grwpiau iechyd lleol ledled Cymru.

Dychwelaf at y gymhariaeth â Lloegr. Dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach na ddylem gymryd yn ganiataol bob amser bod y sefyllfa yn well yn Lloegr. A ddywed y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym pam, yng nghynllun Lloegr, mai chwe mis yw'r targed aros am ofal cleifion mewnol, ond mai 12 mis ydyw yng Nghymru? A ydym o ddifrif yn bwriadu trin ein cleifion fel dinasyddion ail ddosbarth yng Nghymru? Ymddengys, yn yr achos

Minister? Will you also say whether it is proposed, as it is in England, that by 2004 all patients will have televisions and telephones by their beds? It seems to me that that is a sensible aspiration in England. It is also a sensible aspiration for Wales.

What I find objectionable is that health care in Wales is already lagging far behind England, and it seems from this plan that we are destined to fall further behind. That is because of the obsession with Stalinist centralised control in Cardiff, rather than giving proper power where it properly belongs—to the doctors and clinicians who understand more than Jane Hutt about medical care and the treatment of patients.

4.00 p.m.

**Lynne Neagle:** I welcome, in general, the fact that we have published a plan for the NHS in Wales. I also welcome the abolition of health authorities and the retention of community health councils. The abolition of health authorities will significantly increase the transparency of the NHS in Wales and dramatically improve accountability. I will vote in favour of the plan today, as it represents a step forward from where we are at present. However, I have some serious reservations.

Although it is a start, the plan does not present a sufficiently clear vision of where we want the NHS in be in 10 years' time, or a clear plan for how we will get there. The plan makes much of being made in Wales. If it was made in Wales to suit the needs of Wales, I would have expected a document that was more radical in delivering the improvements in healthcare to tackle some of the worst health problems in Europe. In key areas, the plan lacks detail and specific measures that are essential to address the challenges that we face in the NHS. The lack of targets, compared with the English plan, is a weakness. We, and the public, want to know what will happen, how it will happen and when it will happen. It was argued in the Committee last week that targets are only a means to an end. I agree; targets are drivers of reform, measures of success and signals to

hwn, y bydd y sefyllfa yn llawer gwell yn Lloegr. Pam hynny, Weinidog? A ddywedwch hefyd a yw'n fwriad, fel yn Lloegr, sicrhau bod gan bob claf deledu a theleffon wrth ymyl eu gwelyau erbyn 2004? Ymddengys i mi fod hynny'n ddyhead synhwyrol yn Lloegr. Mae'n ddyhead synhwyrol i Gymru hefyd.

Mae'n gas gennyf y ffaith fod gofal iechyd yng Nghymru eisoes yn llusgo ymhell y tu ôl i Loegr, ac ymddengys o'r cynllun hwn y byddwn yn llusgo ymhellach y tu ôl. Y rheswm dros hynny yw'r obsesiwn gyda rheolaeth ganolog Staliniaidd yng Nghaerdydd, yn hytrach na rhoi'r pŵer priodol ble y dylai fod—i'r meddygon a'r clinigwyr sydd yn deall mwy na Jane Hutt am ofal meddygol a sut i drin cleifion.

**Lynne Neagle:** Croesawaf, yn gyffredinol, y ffaith y cyhoeddasom gynllun i'r NHS yng Nghymru. Croesawaf hefyd y ffaith y diddymir awdurdodau iechyd ac y cedwir cynghorau iechyd cymuned. Bydd diddymu awdurdodau iechyd yn cynyddu tryloywder yr NHS yng Nghymru yn sylweddol a bydd yn gwella atebolrwydd yn sylweddol. Pleidleisïaf o blaid y cynllun heddiw, gan ei fod yn cynrychioli cam ymlaen o'r sefyllfa sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae amheuan mawr gennyf.

Er ei fod yn ddechrau, ni chyflwyna'r cynllun weledigaeth ddigon clir o ble y dymunwn i'r NHS fod ymhen 10 mlynedd, neu gynllun clir ynglŷn â sut y cyrhaeddwn yno. Pwysleisia'r cynllun y ffaith y'i lluniwyd yng Nghymru. Os y'i lluniwyd yng Nghymru i gyd-fynd ag anghenion Cymru, byddwn wedi disgwyl dogfen fwy radical o ran gwella gofal iechyd i fynd i'r afael â rhai o'r problemau iechyd gwaethaf yn Ewrop. Mewn meysydd allweddol, mae diffyg manylion a mesurau penodol yn y cynllun sydd yn hanfodol i ymdrin â'r heriau a wynebwn yn yr NHS. Mae'r diffyg targedau, o'i gymharu â chynllun Lloegr, yn wendid. Yr ydym ni, a'r cyhoedd, am wybod beth fydd yn digwydd, sut y bydd yn digwydd a phryd y bydd yn digwydd. Dadleuwyd yn y Pwyllgor yr wythnos diwethaf bod targedau ond yn fodd i gyrraedd nod. Cytunaf â hynny; mae

the people. Without appropriate targets there will be no effective measurement about how new investment that we are providing is being used over time. Our entire programme, as set out in 'Betterwales.com', is based on the use of targets. Thirty-seven of those are related to health and social services alone, with a total of 125 targets in the whole document. If they were a valid tool for a programme of government less than 12 months ago, then surely they are just as valid for our plan for the NHS today. For those who say that the English targets are undeliverable, I say to them that there are few deliverable Welsh targets in the document.

targedau yn llywio diwygiadau, yn fesurau llwyddiant ac yn arwyddion i'r bobl. Heb dargedau priodol, ni fydd modd i fesur yn effeithiol sut y defnyddir y buddsoddiad newydd a ddarparwn dros amser. Mae ein rhaglen gyfan, fel ag y nodir yn 'Gwellcymru.com', yn seiliedig ar ddefnyddio targedau. Mae 37 o'r targedau hynny yn gysylltiedig ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn unig, gyda chyfanswm o 125 o dargedau yn y ddogfen gyfan. Os oeddent yn ddilys ar gyfer rhaglen waith y llywodraeth lai na 12 mis yn ôl, mae'n sicr eu bod yr un mor ddilys ar gyfer ein cynllun i'r NHS heddiw. I'r bobl hynny sydd yn dweud na ellir cyflawni targedau Lloegr, dywedaf wrthynt mai prin yw'r targedau Cymreig yn y ddogfen y gellir eu cyflawni.

Tackling health inequalities is an example of where we fall short. We will have to wait a further 16 months for an announcement on targeted measures for tackling health inequalities in Wales. A strategy for which we must wait 16 months will be seen as unacceptable in my constituency, because we know what the greatest health inequalities are and where they are. People in my constituency are experiencing those inequalities day in day out. I welcome the announcement on the health inequalities fund. However, in general, there is little detail in the plan about how to tackle health inequalities, which is, supposedly, one of the Assembly's priorities. The English plan has, in comparison, a separate section on health inequalities, which announces initiatives on access to services, children, smoking, diet and nutrition, teenage pregnancy and drugs and alcohol.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn enghraifft o sefyllfa lle y methwn. Bydd yn rhaid inni aros 16 mis arall i gael cyhoeddiad ar fesurau â thargedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Ystyrir strategaeth y mae'n rhaid inni aros 16 mis amdani yn annerbyniol yn fy etholaeth i, oherwydd gwyddom beth yw'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf a ble y maent. Mae pobl yn fy etholaeth yn profi'r anghydraddoldebau hynny bob dydd. Croesawaf y cyhoeddiad ar y gronfa anghydraddoldebau iechyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ychydig o fanylion a geir yn y cynllun ynglŷn â sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, sydd, yn ôl pob sôn, yn un o flaenoriaethau'r Cynulliad. Mae gan gynllun Lloegr, ar y llaw arall, adran ar wahân yn ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd, sydd yn cyhoeddi mentrau ynglŷn â mynediad i wasanaethau, plant, ysmegu, bwyd a maeth, beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a chyffuriau ac alcohol.

Our plan tells us that developments in primary care are vital for Wales. We know that communities with the worst health can also suffer from the worst access to primary care. Yet, the vision of primary care for Wales in this document is below that which is offered for deprived communities in England. I welcome our commitment to develop primary care pilot projects in Communities First areas, and the pledge of access within

Dywed ein cynllun wrthym fod datblygiadau mewn gofal sylfaenol yn hanfodol i Gymru. Gwyddom y gall y cymunedau gyda'r iechyd gwaethaf hefyd ddiodeff y mynediad gwaethaf i ofal sylfaenol. Serch hynny, mae'r weledigaeth o ran gofal sylfaenol i Gymru a geir yn y ddogfen hon yn is na'r hyn a gynigir i gymunedau difreintiedig yn Lloegr. Croesawaf ein hymrwymiad i ddatblygu prosiectau peilot gofal sylfaenol yn ardaloedd

24 hours to a primary care professional. However, we must ask why we have not made a commitment for new primary medical services schemes in deprived communities. In England, a clear pledge has been made to create 200 new schemes by 2004. Why is there also a pledge in the English plan to initiate a major programme for the modernisation of primary healthcare centres in deprived communities, and not in our plan?

The English plan is specific in how it will tackle cancer, from funding and staffing to the number of extra scanners and their impact. Other welcome measures in England are a colo-rectal screening programme and a prostate cancer action plan. While I welcome the ambitious pledge in our plan to provide a consultant appointment for a cancer patient within 10 days of an urgent referral, there is a general lack of detail and targets in relation to cancer services. Cancer does not respect national boundaries and there can be no justification for fewer or lesser targets that lead to a poorer quality of health service in Wales than elsewhere in the NHS.

On the key issue of waiting times, in comparison with England, there is a relative lack of targets across the board and, where there are targets, they are not as ambitious as those in the English plan. I accept that we may not need the same targets as England because our needs are different. However, we need to know what those targets are. I make no apology to the Assembly for comparing our plan with the English plan. We should all be open-minded enough to look for good practice, wherever it exists. Our constituents will expect nothing less. The test should always be how we deliver the best possible service to the people we represent, not how distinctively Welsh we can be, especially if the service provided is not good.

This plan should be welcomed for some of its reforms, but we could, and should, have done

Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, a'r addewid i gael mynediad o fewn 24 awr i weithiwr proffesiynol gofal sylfaenol. Fodd bynnag, rhaid inni ofyn pam na wnaethom ymrwymiad i ddarparu cynlluniau gwasanaethau meddygol gofal sylfaenol newydd mewn cymunedau difreintiedig. Yn Lloegr, gwnaethpwyd addewid clir i greu 200 o gynlluniau newydd erbyn 2004. Hefyd, pam bod addewid yng nghynllun Lloegr i gychwyn rhaglen fawr i foderneiddio canolfannau gofal iechyd sylfaenol mewn cymunedau difreintiedig, ac nid yn ein cynllun ni?

Rhydd cynllun Lloegr fanylion penodol am sut y bydd yn mynd i'r afael â chanser, o ariannu a staffio i nifer y sganwyr ychwanegol a'u heffaith. Mesurau eraill a groesewir yn Lloegr yw rhaglen sgrinio colrhafrol a chynllun gweithredu canser y brostad. Er y croesawaf yr addewid uchelgeisiol a geir yn ein cynllun i gleifion â chanser weld meddyg ymgynghorol o fewn 10 niwrnod o gael eu cyfeirio ar frys, mae diffyg manylion a thargedau o ran gwasanaethau canser ar y cyfan. Nid yw canser yn parchu ffiniau cenedlaethol ac ni ellir cyfiawnhau llai o dargedau neu dargedau llai sydd yn arwain at wasanaeth iechyd gwaeth yng Nghymru nag mewn mannau eraill yn yr NHS.

Ynglŷn â mater pwysig amserau aros, o'u cymharu â Lloegr, mae diffyg cymharol o ran targedau cyffredinol ac, lle ceir targedau, nid ydynt mor uchelgeisiol â'r rheini a geir yng nghynllun Lloegr. Derbyniaf na fydd angen yr un targedau arnom â Lloegr efallai, gan fod ein hanghenion yn wahanol. Fodd bynnag, mae angen inni wybod beth yw'r targedau hynny. Nid ymddiheuraf i'r Cynulliad am gymharu ein cynllun ni â chynllun Lloegr. Dylai pob un ohonom fod â meddwl digon agored i chwilio am arferion da, lle bynnag y bônt. Ni ddisgwylia ein hetholwyr unrhyw beth llai na hynny. Dylid defnyddio sut y cyflwynwn y gwasanaeth gorau posibl i'r bobl a gynrychiolwn fel prawf bob amser, nid pa mor nodweddiadol Gymreig y gallwn fod, yn enwedig os nad yw'r gwasanaeth a ddarperir yn dda.

Dylid croesawu'r cynllun hwn oherwydd rhai o'i ddiwygiadau, ond gallem, a dylem, fod

more. More people visit my surgery to discuss health problems than any other issue. People are deeply concerned about the NHS. The Labour Government and the Assembly's administration have provided record levels of funding for the NHS. However, unless the money is matched by an ambitious, radical and measurable plan of action, we will not deliver the badly needed changes to the NHS in Wales.

**Helen Mary Jones:** Lynne Neagle mentioned some of the things that I wanted to say about lack of targets. In that context, I look forward to Lynne's support for amendment 1, which proposes that the plan should be noted, not endorsed. No-one denies that, overall, there are important steps forward in this strategy. Dr Dai Lloyd welcomed some of those steps in his contribution, particularly the abolition of health authorities. I will highlight further gaps in the strategy, in the hope that the Minister will agree to revisit them.

As it is national eating disorders week, I urge the Minister to give urgent attention, within the mental health strategy and the overall strategy, to the provision of integrated specialist community tertiary services for people with eating disorders in Wales. It is a national scandal that those needing specialist hospital treatment must always travel outside Wales, and that specialist community services are, more or less, non-existent.

We are grateful that the Minister supports amendment 4 on long-term care for the elderly. However, I differ from her in what she said about the scope for further debate on this issue. The Minister and I were present in the Health and Social Services Committee when the Royal Commission made its powerful presentation. Many questions that it raised on that day remain unanswered. For example, when is a bath a nursing bath and when is it a social bath, and how on earth is that to be determined? Will the Minister take the Royal College of Nursing's advice and urge the re-examination of clause 48 (1) of the Health and Social Care Bill. There is still time. This clause excludes the care given by a

wedi gwneud mwy. Mae mwy o bobl yn ymweld â'm cymhorthfa i drafod problemau iechyd nag unrhyw fater arall. Mae pobl yn poeni'n fawr am yr NHS. Darparodd y Llywodraeth Lafur a gweinyddiaeth y Cynulliad lefelau ariannu uwch nag erioed i'r NHS. Fodd bynnag, oni cheir cynllun gweithredu uchelgeisiol, radical a mesuradwy yn ogystal â'r arian, ni chyflawnwn y newidiadau sydd eu hangen yn ddirfawr ar yr NHS yng Nghymru.

**Helen Mary Jones:** Crybwyllodd Lynne Neagle rai o'r pethau yr oeddwn am eu dweud am ddiffyg targedau. Yn y cyd-destun hwnnw, edrychaf ymlaen at gael cefnogaeth Lynne ar gyfer gwelliant 1, sydd yn cynnig y dylid nodi'r cynllun, nid ei gymeradwyo. Nid oes neb yn gwadu y ceir camau pwysig ymlaen yn y strategaeth hon, ar y cyfan. Croesawodd Dr Dai Lloyd rai o'r camau hynny yn ei gyfraniad, yn enwedig diddymu awdurdodau iechyd. Amlygaf fylchau pellach yn y strategaeth, gan obeithio y cytuna'r Gweinidog i'w hailystyried.

Gan ei bod yn wythnos genedlaethol salwch bwyta, pwysaf ar y Gweinidog i roi sylw brys, o fewn y strategaeth iechyd i'r meddwl a'r strategaeth gyffredinol, i ddarparu gwasanaethau trydyddol cymunedol arbenigol integredig i bobl yng Nghymru sydd yn dioddef o salwch bwyta. Mae'n sgandal genedlaethol bod yn rhaid i'r rheini y mae angen triniaeth arbenigol yn yr ysbyty arnynt deithio y tu allan i Gymru bob amser, ac nad oes bron dim gwasanaethau cymunedol arbenigol.

Yr ydym yn ddiolchgar bod y Gweinidog yn cefnogi gwelliant 4 ar ofal tymor hir i'r henoed. Fodd bynnag, anghytunaf â hi o ran yr hyn a ddywedodd am y lle i ddadlau ymhellach ar y mater hwn. Yr oedd y Gweinidog a minnau yn bresennol yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, pan wnaeth y Comisiwn Brenhinol ei gyflwyniad pwerus. Erys llawer o'r cwestiynau a godwyd y diwrnod hwnnw heb eu hateb. Er enghraifft, pryd y mae bath yn fath nyrsio a phryd y mae'n fath cymdeithasol, a sut ar y ddaear y gellir penderfynu hynny? A gymer y Gweinidog gyngor Coleg Brenhinol y Nyrsys ac annog gwaith i ailarchwilio cymal 48 (1) y Mesur

nursing assistant under a registered nurse's supervision from the definition of nursing care. That is surely unacceptable to us in the Assembly.

The further debate on the strategy must address these issues and many other questions. A strong Assembly position might persuade the Westminster Government to re-examine its ill thought-out and parsimonious response to the Royal Commission's recommendations overall. We have a duty to the older people of Wales to try at the very least.

Finally, to reiterate some of Dr Dai Lloyd's points, the Minister must ensure that new resources that come with this strategy do not only go to high-visibility, high-prestige new developments. To illustrate, the capital developments at Prince Philip Hospital in my constituency are, of course, welcome. They are seen as a commitment to the future of that hospital and, contrary to what was said by the Leader of the Welsh Conservatives, we are becoming reassured that the hospital has a future. The question is, what kind of future? The capital developments are welcome but we still do not have the fourth consultant surgeon that we were promised two years ago. Several beds are still permanently occupied by older people who would be better cared for in nursing homes, operations are cancelled on a daily basis because of lack of intensive care beds, and dying patients are cared for in open general wards while a fully equipped hospital stands empty and unstaffed a hundred yards away. Tributes have been paid during this debate to the frontline staff who work wonders, in the hospital in my constituency as in the rest of Wales. However, they are up against it. This strategy and the administration will be judged by how it deals with the health service's nitty-gritty day-to-day problems. My constituents, and all the people of Wales, expect much from the administration on this. You had better not let them down.

**Ann Jones:** This plan, as many have said,

Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae amser ar gael i wneud hynny. Mae'r cymal hwn yn eithrio'r gofal a roddir gan gynorthwy-ydd nyrsio, o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, o'r diffiniad gofal nyrsio. Siawns nad yw hynny'n dderbyniol i ni yn y Cynulliad.

Rhaid i'r ddadl bellach ar y strategaeth ymdrin â'r materion hyn a llawer o gwestiynau eraill. Gallai safbwynt cryf yn y Cynulliad ddarbwylo'r Llywodraeth yn San Steffan i ailystyried ei hymateb gorgynnol, byrbwyll i argymhellion cyffredinol y Comisiwn Brenhinol. Mae'n ddyletswydd arnom i geisio gwneud hynny o leiaf er mwyn pobl hŷn yng Nghymru.

Yn olaf, i ailadrodd rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Dr Dai Lloyd, rhaid i'r Gweinidog sicrhau nad yw'r adnoddau newydd a ddaw gyda'r strategaeth hon ond yn mynd i ddatblygiadau newydd amlwg, mawr eu bri. Fel enghraifft, croesewir, wrth gwrs, y datblygiadau cyfalaf yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn fy etholaeth i. Fe'u hystyriar fel ymrwymiad i ddyfodol yr ysbyty hwnnw ac, yn groes i'r hyn a ddywedwyd gan Arweinydd Ceidwadwyr Cymru, teimlwn fod dyfodol gan yr ysbyty. Ond pa fath o ddyfodol, dyna'r cwestiwn. Croesewir y datblygiadau cyfalaf ond nid oes gennym y pedwerydd llawfeddyg ymgynghorol a addawyd inni ddwy flynedd yn ôl. Caiff nifer o welyau eu defnyddio'n barhaol o hyd gan bobl hŷn a gâi well gofal mewn cartrefi nyrsio, caiff llawdriniaethau eu canslo'n ddyddiol oherwydd prinder gwelyau gofal dwys, a gofelir am gleifion sydd yn marw mewn wardiau cyffredinol agored er bod ysbyty â'r holl offer sydd eu hangen yn aros yn wag a heb staff ond can llath i ffwrdd. Talwyd teyrngedau yn ystod y ddadl hon i staff y rheng flaen sydd yn gwneud gwrthiau, yn yr ysbyty yn fy etholaeth i ynghyd ag yng ngweddill Cymru. Fodd bynnag, mae pethau'n anodd arnynt. Bernir y strategaeth hon a'r weinyddiaeth yn ôl sut y mae'n delio â mân broblemau bob dydd y gwasanaeth iechyd. Mae fy etholwyr, a phobl Cymru gyfan, yn disgwyl llawer gan y weinyddiaeth ynglŷn â hyn. Mae'n well ichi beidio â'u siomi.

**Ann Jones:** Bwriada'r cynllun hwn, fel y

aims at delivering a national health service for Wales, transformed from what it has become to what we know it can be. That means delivering faster and more convenient services of the highest quality for patients. It will be a NHS redesigned around its patients. I welcome the decision to strip away the tier of health authorities. I was pleased that North Wales Health Authority has accepted this decision readily and is committed to working with the Assembly on its implementation.

4.10 p.m.

However, this is not only about reforming the structure of the service; it is about transforming the patients' view on how it works. I am also pleased that we will retain community health councils in Wales and that we will reform and revitalise them and give them a real say in how the health service works. Nevertheless, we need to find ways to boost their profile and make people and patients aware of what they can do so that they will have ownership of them. Perhaps we should consider a change of name to reflect how they will work. The community health councils need to maintain and enhance their independence, but they also need to represent ordinary people and patients while working in partnership with trusts and local health groups.

The document sets out a vision, a road map, offering direction in the way that we want to take the national health service in Wales in the twenty-first century. It will remain a service for all the people based on need and not on ability to pay. Our ambition is to improve the overall health of the people of Wales, but we must do more than that. We must close the gap between the health of the worst off and the health of the better off. We can no longer allow the lottery of where we live to determine the level of care we receive. In Wales, as other Members have mentioned in this debate, we have some of the worst figures for coronary heart disease, teenage pregnancies, breast and cervical cancer, not just in the United Kingdom but across

dywedodd llawer, gyflwyno gwasanaeth iechyd gwladol i Gymru, wedi'i drawsnewid o'r gwasanaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd i'r hyn y gwyddom y gall fod. Golyga hynny gyflwyno gwasanaethau cyflymach a mwy cyfleus o'r ansawdd uchaf i gleifion. Bydd yn NHS a ail-lunnir gyda'i gleifion yn ganolbwynt iddo. Croesawaf y penderfyniad i gael gwared ar haen yr awdurdodau iechyd. Yr oedd yn dda gennyf fod Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru wedi bod mor barod i dderbyn y penderfyniad hwn a'i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'r Cynulliad i'w weithredu.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymwneud â diwygio strwythur y gwasanaeth yn unig; mae'n ymwneud â newid barn cleifion am sut y mae'n gweithio. Mae'n dda gennyf hefyd y byddwn yn cadw cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru ac y byddwn yn eu diwygio a'u hadfywio gan roi llais iddynt ynglŷn â sut mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithio. Serch hynny, mae angen inni ddod o hyd i ffordd newydd i roi hwb i'w proffil ac i sicrhau bod pobl a chleifion yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud fel bod ganddynt ymdeimlad o berchenogaeth ohonynt. Efallai y dylem ystyried newid eu henw i adlewyrchu sut y byddant yn gweithio. Mae angen i'r cynghorau iechyd cymuned gynnal a gwella eu hannibyniaeth, ond mae angen iddynt hefyd gynrychioli pobl a chleifion cyffredin tra'n gweithio mewn partneriaeth ag ymddiriedolaethau a grwpiau iechyd lleol.

Noda'r ddogfen weledigaeth, map ffordd, sydd yn cynnig cyfeiriad i'r ffordd y dymunwn fynd â'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Parha i fod yn wasanaeth i bawb yn seiliedig ar angen ac nid ar y gallu i dalu. Gwella iechyd cyffredinol pobl Cymru yw ein huchelgais, ond rhaid inni wneud mwy na hynny. Rhaid inni gau'r bwlch rhwng iechyd y bobl dlotaf ac iechyd y bobl sydd yn well eu byd. Ni allwn barhau i ganiatáu i'r loteri o ble yr ydym yn byw benderfynu ar lefel y gofal a gawn. Yng Nghymru, fel y crybwyllwyd gan Aelodau eraill yn y ddadl hon, mae gennym rai o'r ffigurau gwaethaf ar gyfer clefyd coronari'r galon, beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, canser y

Europe.

To address these problems we must transform the national health service from a sickness service into a health service, not just by healing and mending the sick and the ill, but by preventing and protecting against illnesses. More community and primary care services are required, more screening programmes and more services and resources must be committed to those areas and regions where the need is greatest. We must be bold in pursuing this aim and clear in our objective that resources must be directed to where the need is greater.

To do this, we need to place a greater emphasis on the staff. Until we have enough heart surgeons and cardiac nurses, we will not be able to cut waiting times for heart surgery to the level that we wish to see. If we cannot recruit the extra nurses and physiotherapists to staff extra beds and intermediate care facilities, then our expansion plans will remain just that, plans. If we cannot increase the numbers of porters and laboratory technicians as well as others who make up the care team for patients in hospitals, then our expansion plans will remain just that, plans.

Jane Hutt stated in her opening remarks the increase in the number of students who will be training. This is a welcome start. However, is it enough to meet the increasing demand, not only for doctors and nurses but for technicians, pathology laboratory staff, physiotherapists, speech therapists, dieticians, radiographers and all the other professions allied to medicine? Even with the plans to expand the provision of medical training—I welcome plans to expand in Swansea and I believe that we should go further and consider expansion in Bangor and Wrexham sooner rather than later—it will still be several years before we have as many qualified doctors and nurses as we need to deliver our plans. That is why we need further efforts to recruit nurses and midwives. A more attractive pay package is part of the answer, but pay is only one aspect of the problem. Staff are also increasingly

from a chanser ceg y groth, nid dim ond yn y Deyrnas Unedig ond ledled Ewrop.

Er mwyn ymdrin â'r problemau hyn, rhaid inni newid y gwasanaeth iechyd gwladol o fod yn wasanaeth salwch i wasanaeth iechyd, nid drwy iacháu a gwella'r cleifion a phobl sâl yn unig, ond drwy atal a diogelu rhag salwch. Mae angen mwy o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, ac mae angen ymrwymo mwy o raglenni sgrinio a mwy o wasanaethau ac adnoddau i'r ardaloedd a'r rhanbarthau hynny sydd â'r angen mwyaf. Rhaid inni fod yn feiddgar wrth ddilyn y nod hwn a rhaid i'n hamcan fod yn glir sef bod rhaid cyfeirio adnoddau i'r lleoedd â'r angen mwyaf.

I wneud hyn, mae angen inni roi mwy o bwyslais ar y staff. Hyd nes bod gennym ddigon o lawfeddygon a nyrsys sydd yn rhoi triniaeth y galon, ni allwn leihau'r amserau aros ar gyfer llawdriniaeth ar y galon i'r lefel yr ydym am ei gweld. Os na allwn recriwtio nyrsys a ffisiotherapyddion ychwanegol i staffio gwelyau ychwanegol a chyfleusterau gofal canolradd, erys ein cynlluniau ehangu yn gynlluniau, a dim mwy na hynny. Os na allwn gynyddu nifer y porthorion a thechnegwyr labordy yn ogystal ag eraill sydd yn rhan o'r tîm gofal ar gyfer cleifion mewn ysbytai, erys ein cynlluniau ehangu yn gynlluniau, a dim mwy na hynny.

Nododd Jane Hutt yn ei sylwadau agoriadol y cynnydd yn nifer y myfyrwyr a fydd yn derbyn hyfforddiant. Croesewir y gwaith cychwynnol hwnnw. Fodd bynnag, a yw'n ddigon i fodloni'r galw cynyddol, nid am feddygon a nyrsys yn unig ond am dechnegwyr, staff labordai patholegol, ffisiotherapyddion, therapyddion lleferydd, dietegwyr, radiograffyddion a phob proffesiwn arall sydd yn gysylltiedig â meddygaeth? Hyd yn oed gyda'r cynlluniau i ehangu darpariaeth hyfforddiant meddygol—croesawaf y cynlluniau i'w hehangu yn Abertawe ac i ystyried ei hehangu ymhellach ym Mangor a Wrecsam yn hwyr neu'n hwyrach—bydd rhaid aros nifer o flynyddoedd o hyd cyn y bydd gennym gymaint o feddygon a nyrsys cymwys ag sydd eu hangen i gyflwyno'n cynlluniau. Dyna pam bod angen ymdrechion pellach arnom i recriwtio nyrsys a bydwagedd. Rhan



demanding that employers take account of the factors that affect their lives. A third of nurses have children of school age. A recent survey by the Royal College of Nursing, shows that for this group of nurses, the biggest single factor that would determine whether they would stay in their jobs was not how much they were paid, but flexible hours. That seems to be the principal reason why so many turn to agency nursing. Over reliance on agency staff can cause horrendous problems in our hospitals. I have evidence of this from hospitals in my constituency. We must halt this haemorrhage of nurses to private agencies and we must work to create the flexibility that nurses require in our national health service. A growing number of trusts are introducing a flexi pool that allows staff to adjust their work commitments to fit their domestic needs. However, some trust managers and senior nursing officers have not received that message and say: 'we did it, why can't you?' We must move away from that analysis.

As time is short, I will move on. If I can just mention laboratory staff who are grossly undervalued in our hospitals. Many professional staff are on such low pay that they could earn more stacking shelves in the supermarket. The dedication and professionalism of these people helps to save the lives of thousands of patients every year. We must recognise the vital contribution made by these people who remain stranded outside the pay review procedure. We too often overlook porters, cleaners and others who make up the teams in the national health service. The health service's staff are by far its biggest asset. They care deeply about the state of the service and the humanitarian principles that govern it. They need to know that this plan will protect their rights. People work hard giving care to others, when they could be selfish and earn far more money in a different profession. They work in the national health service because they believe in it. Our task is to let that belief flourish in a Welsh national health service, true to its principles but reborn for a new age. I hope

o'r ateb yw pecyn cyflog mwy deniadol, ond dim ond un agwedd ar y broblem yw cyflogau. Mynna staff yn gynyddol fod cyflogwyr yn ystyried y ffactorau sydd yn effeithio ar eu bywydau. Mae gan draean o nyrsys blant o oedran ysgol. Dengys arolwg diweddar gan Goleg Brenhinol y Nyrsys ar gyfer y grŵp hwn o nyrsys nad y cyflog fyddai'n gwneud iddynt benderfynu aros yn eu swyddi, ond oriau hyblyg. Ymddengys mai dyna'r prif reswm pam yr â cymaint o nyrsys i weithio i asiantaethau nyrsio. Gall gorddibynnu ar staff o asiantaethau achosi problemau ofnadwy yn ein hysbytai. Mae gennyf dystiolaeth o hyn o ysbysai yn fy etholaeth. Rhaid inni roi terfyn ar yr holl nyrsys hyn sydd yn gadael i weithio i asiantaethau preifat a rhaid inni weithio i greu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar nyrsys yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. Cyflwynna nifer gynyddol o ymddiriedolaethau gronfa oriau hyblyg sydd yn gadael i staff addasu eu hymrwymiaid yn y gwaith i gyd-fynd â'u hanghenion teuluol. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd y neges honno gan rai rheolwyr ymddiriedolaethau ac uwch swyddogion nyrsio sydd yn dweud: 'gwnaethom hynny, pam na allwch chi ei wneud?' Rhaid inni symud i ffwrdd o'r dadansoddiad hwnnw.

Gan fod amser yn brin, symudaf ymlaen. Os gallaf grybwyll staff labordai na chânt eu gwerthfawrogi hanner digon yn ein hysbytai. Caiff llawer o staff proffesiynol gyflog mor isel fel y gallent ennill mwy wrth stacio silffoedd yn yr archfarchnad. Helpa ymrwymiad a phroffesiynoldeb y bobl hyn i achub bywydau miloedd o gleifion bob blwyddyn. Rhaid inni gydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir gan y bobl hyn sydd yn parhau i fod y tu allan i'r weithdrefn adolygu cyflogau. Yn rhy aml, diystyriwn borthorion, glanhawyr ac eraill sydd yn rhan o'r timau yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Ased fwyaf y gwasanaeth iechyd o bell ffordd yw ei staff. Pryderant yn fawr am gyflwr y gwasanaeth a'r egwyddorion dyngarol sydd yn ei reoli. Mae angen iddynt wybod y bydd y cynllun hwn yn diogelu eu hawliau. Gweithia pobl yn galed gan ofalu am bobl eraill, pan allent fod yn hunanol gan ennill llawer mwy o arian mewn proffesiwn gwahanol. Gweithiant yn y gwasanaeth iechyd gwladol oherwydd y credant ynddo. Ein tasg ni yw gadael i'r gred honno ffynnu yng ngwasanaeth iechyd

that this plan will help us get there.

**Glyn Davies:** First, the consensus and the good feeling of inclusiveness that sometimes grips me leads me to congratulate Lynne Neagle on an outstanding contribution. I have long thought that the health authority tier was unnecessary. Anyone who was involved in public affairs in Dyfed or Powys in 1996-97 will understand why I, and perhaps all the others involved, would think that abolishing that tier is the right thing to do. From our experience then—although the health authority has changed and there are new individuals involved and there is a much more sympathetic feeling towards it now—it was clear that we could easily have managed without that tier. The cause of that negative attitude towards it then was a full-blooded attack on our community hospitals. That has been an issue that has gripped almost everyone in the Dyfed Powys area and still causes great concern. Yesterday I visited a community hospital in Machynlleth and was shown around by the dynamic new locality manager there, Vicky Morris. It is impressed on everyone how crucial these community hospitals are to an area like Powys where there is no district general hospital. I am sure that you will be happy to do this, Minister, but whenever you speak about a long strategic plan such as this, I always want you to make a commitment to the long-term security of all our community hospitals.

Although it is right that the health authority tier should disappear, I share the concern that I have heard from Nick Bourne and David Melding—in his outstanding contribution which I heard on the television upstairs—regarding what will replace the health authority tier. This phenomenon is creeping into several aspects of the Assembly's business. In economic development I am concerned about internationalisation being taken in-house. In health we now have the same process, with the management of the whole service being taken in-house and power being concentrated.

I will raise one further issue, which is that of

gwladol Cymru, sydd yn ffyddlon i'w egwyddorion ond sydd wedi'i aileni ar gyfer oes newydd. Gobeithiaf yr helpa'r cynllun hwn inni gyrraedd yno.

**Glyn Davies:** Yn gyntaf, arweinia'r consensws a'r ymdeimlad da o gynwysoldeb sydd yn fy meddiannu weithiau imi longyfarch Lynne Neagle ar gyfraniad ardderchog. Credwn ers peth amser nad oedd angen haen yr awdurdodau iechyd. Dealla unrhyw un a oedd yn ymwneud â materion cyhoeddus yn Nyfed neu Bowys yn 1996-97 pam y credwn i, ac efallai pawb arall a gymerodd ran, mai diddymu'r haen honno yw'r peth cywir i'w wneud. O'n profiad ni bryd hynny—er y newidiodd yr awdurdod iechyd a bod unigolion newydd yn ymwneud â'r gwaith a bod ymdeimlad llawer mwy cydymdeimladol tuag ato erbyn hyn—yr oedd yn amlwg y gallem fod wedi ymdopi'n hawdd heb yr haen honno. Achos yr agwedd negyddol honno tuag ato bryd hynny oedd ymosodiad grymus ar ein hysbytai cymunedol. Bu hynny'n fater a gydiodd ym mron pawb yn ardal Dyfed Powys a pharha i achosi pryder mawr. Ddoe, ymwelais ag ysbyty cymunedol ym Machynlleth ac fe'm tywyswyd gan y rheolwr lleoliad newydd bywiog yno, Vicky Morris. Pwysleisir i bawb pa mor hanfodol yw'r ysbytai cymunedol hyn i ardal fel Powys lle nad oes ysbyty cyffredinol rhanbarth. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn fodlon gwneud hyn, Weinidog, ond pryd bynnag y siaradwch am gynllun strategol hir fel hwn, yr wyf am ichi wneud ymrwymiad bob amser i ddiogelu pob un o'n hysbytai cymunedol yn y tymor hir.

Er ei bod yn briodol y dylai haen yr awdurdodau iechyd ddiplannu, rhannaf y pryder a glywais gan Nick Bourne a David Melding—yn ei gyfraniad ardderchog a glywais ar y teledu i fyny'r grisiau—o ran yr hyn a ddaw yn lle haen yr awdurdodau iechyd. Treiddia'r ffenomen hon i nifer o agweddau ar fusnes y Cynulliad. Ym maes datblygu economaidd, pryderaf y rheolir y gwaith rhyngwladoli yn fewnol. Mae gennym yr un broses erbyn hyn ym maes iechyd, lle y rheolir y gwasanaeth cyfan yn fewnol a lle y canolir y pŵer.

Codaf un mater arall, sef dyfodol cartrefi

the future of private residential and nursing homes. Over the last few months, several of the owners of private residential and nursing homes who have approached me believe that there is a covert strategy to make it impossible for them to survive. Many of them are going out of business. I have tabled a series of questions, which I intend to follow up when I have the answers, to find out exactly what the situation is. I would like to hear from you, Minister, a recognition that the private residential and nursing homes sector can deliver, at a competitive cost and at an equal standard, the sort of care they have been providing for many years, and that it is not part of your strategy to diminish their role.

preswyl a chartrefi nyrsio preifat. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, creda nifer o'r perchnogion cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio preifat a siaradodd â mi fod strategaeth gudd i'w gwneud yn amhosibl iddynt barhau. Mae llawer ohonynt yn mynd i'r wal. Cyflwynais gyfres o gwestiynau, y bwriadaf fynd ar eu trywydd pan gaf yr atebion, er mwyn darganfod beth yw'r sefyllfa yn union. Hoffwn eich clywed chi, Weinidog, yn cydnabod y gall y sector cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio preifat gyflwyno'r math o ofal a ddarparwyd ganddynt ers blynyddoedd lawer, ar gost gystadleuol ac o safon gyfartal, ac nad yw lleihau eu rôl yn rhan o'ch strategaeth.

### **Cynnig Trefniadol Procedural Motion**

**The Presiding Officer:** Before I call the Minister to respond to the debate, I have had a request for a procedural motion. I call David Melding to propose it.

**Y Llywydd:** Cyn imi alw'r Gweinidog i ymateb i'r ddadl, cefais gais am gynnig trefniadol. Galwaf ar David Melding i'w gynnig.

**David Melding:** I propose that

**David Melding:** Cynigiaf fod

*the National Assembly, under Standing Order No. 6.18, adjourns this debate.*

*y Cynulliad Cenedlaethol, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.18, yn gohirio'r ddadl hon.*

It would be more seemly to have a longer debate on such an important issue as the 10-year plan for the national health service in Wales.

Byddai'n fwy priodol cael dadl hwy ar fater mor bwysig â'r cynllun 10 mlynedd i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.

4.20 p.m.

**The Presiding Officer:** The Assembly knows that, under Standing Order No. 6.18, I am required to put this motion, which is not subject to debate, to a vote, provided that I am satisfied that to do so would not be an abuse of the Assembly's procedures or cause excessive delay. That is my view and I shall put this to a vote. However, first, I need to ensure that at least 10 Members express support for David Melding's motion. Do 10 Members support David Melding's proposition? I see that they do. We will therefore move to a vote.

**Y Llywydd:** Gŵyr y Cynulliad ei bod yn ofynnol imi, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.18, gynnal pleidlais ar y cynnig hwn, nad yw'n destun dadl, ar yr amod fy mod yn fodlon na fyddai gwneud hyn yn camddefnyddio gweithdrefnau'r Cynulliad nag achosi oedi gormodol. Dyna fy marn i a chynhaliad bleidlais ar hyn. Fodd bynnag, yn gyntaf, mae angen imi sicrhau y cefnogir cynnig David Melding gan o leiaf 10 Aelod. A gefnoga 10 Aelod gynnig David Melding? Gwelaf fod hynny'n wir. Felly, cynhaliwn bleidlais.

*Cynnig: O blaid 42, Ymatal 1, Yn erbyn 0.  
Motion: For 42, Abstain 1, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Melding, David  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelod canlynol:  
The following Member abstained:

Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

### **Strategaeth NHS Cymru: Parhad NHS Wales Strategy: Continued**

**The Presiding Officer:** We have a further five minutes for this debate before we adjourn it. **Y Llywydd:** Mae pum munud arall gennym ar gyfer y ddadl hon cyn inni ei gohirio.

**Gwenda Thomas:** While I welcome many aspects of this plan, I would like to comment **Gwenda Thomas:** Er y croesawaf lawer o agweddau ar y cynllun hwn, hoffwn ddweud

on the proposals for long-term care of older people. I welcome the commitment to making nursing care the NHS's responsibility and therefore free in all settings. However, I am concerned about the details of the proposal. I note that the Minister states that the needs of older people must be properly assessed, but that these needs can be complex and that she is not persuaded that we need rigid demarcation or elaborate charging arrangements. I support that, but we will need to be clear about the assessment, which should be easily understood by all, including carers. The question of what is deemed to be nursing care needs to be answered now. I realise that this question has been outstanding for a long time, but there is an urgent need for clarity. The proposals that we are considering today are weak on social care. I am particularly concerned about the benefits position. It is my understanding that benefit matters remain with Westminster. Given that there will be up to six weeks' free home care on discharge from hospital, will that mean that the cessation of attendance allowance, which occurs when someone has been in hospital for 28 days, will continue into that six-week period? Will the introduction of free nursing care into the residential sector mean that, although people pay the full remaining cost, because there will be a state contribution to the cost of care, they will also lose their entitlement to attendance allowance? That is an important issue. In the latter case, it could reduce the benefit payment to people paying for their own care by as much as 50 per cent.

I am also concerned as to the membership of the working group, which is to be set up under the Chief Nursing Officer. Can you assure me that there will be adequate input by social services? When your proposals mention entitlement of up to six weeks' free home care for older people, I realise that details will follow as to what you mean by 'older people'. In my experience, it is not only a matter of older people not being able to meet the cost of charges for home care packages, but of the availability of home care packages and the resources made available to social services. Will this entitlement be extended to families where there are child carers, or where there is a need for help with

rhywbeth am y cynigion ar gyfer gofal tymor hir pobl hŷn. Croesawaf yr ymrwymiad i wneud yr NHS yn gyfrifol am ofal nyrsio gan ei ddarparu am ddim ym mhob sefyllfa. Fodd bynnag, pryderaf am fanylion y cynnig. Nodaf y datgana'r Gweinidog fod yn rhaid asesu anghenion pobl hŷn yn gywir, ond y gall yr anghenion hyn fod yn gymhleth ac nad yw wedi'i hargyhoeddi bod arnom angen trefniadau diffinio llym na threfniadau codi costau cymhleth. Cefnogaf hynny, ond bydd angen inni fod yn glir am y gwaith asesu, y dylai pawb allu ei ddeall yn hawdd, gan gynnwys cynhalwyr. Mae angen ateb y cwestiwn o beth a gaiff ei ystyried fel anghenion gofal nyrsio yn awr. Sylweddolaf fod y cwestiwn hwn heb ei ateb ers amser maith, ond mae angen esboniad ar fyrder. Mae'r cynigion a ystyriwn heddiw yn wan o ran gofal cymdeithasol. Pryderaf yn benodol am y sefyllfa budd-daliadau. Deallaf y parha San Steffan i ymdrin â materion budd-daliadau. O ystyried y bydd hyd at chwech wythnos o ofal yn y cartref am ddim ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, a olyga hynny y bydd rhoi'r gorau i dalu'r lwfans gweini, a delir pan fu rhywun yn yr ysbyty am 28 diwrnod, yn parhau i mewn i'r cyfnod chwe wythnos hwnnw? A olyga'r ffaith y cyflwynir gofal nyrsio am ddim i'r sector preswyl, er bod pobl yn talu'r gost gyfan sydd yn weddill, oherwydd na fydd y wladwriaeth yn cyfrannu tuag at gost gofal, y collant hefyd eu hawl i gael lwfans gweini? Mae hynny'n fater pwysig. Yn yr ail achos, gallai leihau'r budd-daliadau i bobl sydd yn talu am eu gofal eu hunain cymaint â 50 y cant.

Pryderaf hefyd am aelodaeth y gweithgor, sydd i'w sefydlu o dan oruchwyliaeth y Prif Swyddog Nyrsio. A allwch fy sicrhau y bydd digon o fewnbwn gan y gwasanaethau cymdeithasol? Pan mae'ch cynigion yn crybwyll yr hawl i bobl hŷn gael gofal am ddim yn y cartref am hyd at chwe wythnos, sylweddolaf y cawn fanylion wedyn o ran yr hyn a olygwch wrth ddweud 'pobl hŷn'. Yn fy mhrofiad i, nid dim ond mater o bobl hŷn yn peidio â chwrdd â chost pecynnau gofal yn y cartref ydyw, ond argaeledd pecynnau gofal yn y cartref a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael yr adnoddau. A gaiff yr hawl hon ei hehangu i deuluoedd lle y ceir cynhalwyr sydd yn blant, neu lle bo angen help i ofalu

caring for children? David Melding's outburst today amazed me. Much of today's so-called bed-blocking is a direct result of the Conservatives' year-on-year cuts in social services' resources. The year of 1998-99, under a Labour Government, was the first in nearly a decade when no cuts were made in social services in Neath Port Talbot.

To be able to offer these home care packages, we must consider the availability of home care workers. These women—and they are mainly women, although there are some men—have been grossly undervalued. We must ensure that we do not end up postponing the problem. We must attract home care workers and improve their conditions of service. I know of many who give far beyond what is expected of them. The service has relied heavily on good will. This is an important issue, as is the adequacy of the social work sector.

Last week, I visited Neath General Hospital and Cimla Hospital. I congratulate the efforts of staff at both hospitals, and those at Tonna Hospital, which I have visited many times. My visits identified a need for long-term hospital beds for elderly people who are not fit enough, and will never be fit enough, to be discharged from hospital care. I hope that the working group will consider that.

I congratulate the Minister on presenting this strategy, which will lead to an improvement in our health service.

**Y Llywydd:** Gohiriwn y ddadl ar strategaeth NHS Cymru, fel y cytunwyd yn gynharach.

am blant? Fe'm synnwyd gan ffrwydrad David Melding heddiw. Mae llawer o'r achosion o flocio gwelyau bondigrybwyll a ddigwydd heddiw yn deillio yn uniongyrchol o doriadau'r Ceidwadwyr mewn adnoddau gwasanaethau cymdeithasol un flwyddyn ar ôl y llall. Y flwyddyn 1998-99, o dan Lywodraeth Lafur, oedd y flwyddyn gyntaf mewn degawd bron pan na wnaethpwyd toriadau mewn gwasanaethau cymdeithasol yng Nghastell Nedd Port Talbot.

Er mwyn gallu cynnig y pecynnau gofal yn y cartref hyn, rhaid inni ystyried argaeledd gweithwyr gofal yn y cartref. Ni werthfawrogwyd y merched hyn—a merched ydynt yn bennaf, er y ceir rhai dynion—hanner digon. Rhaid inni sicrhau na ohiriwn y broblem yn y pen draw. Rhaid inni ddenu gweithwyr gofal yn y cartref a gwella eu hamodau gwasanaeth. Gwn am lawer a roddodd lawer mwy na'r hyn a ddisgwyliwyd ganddynt. Dibynnodd y gwasanaeth yn drwm ar ewyllys da. Mae hyn yn fater pwysig, fel digonolrwydd y sector gwaith cymdeithasol.

Yr wythnos diwethaf, ymwelais ag Ysbyty Cyffredinol Castell Nedd ac Ysbyty Cimla. Llongyfarchaf ymdrechion y staff yn y ddau ysbyty, a staff Ysbyty Tonna, yr ymwelais ag ef droeon. Nododd fy ymweliadau yr angen am welyau tymor hir mewn ysbytai ar gyfer pobl hŷn nad ydynt yn ddigon iach, ac na fyddant byth yn ddigon iach, i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gobeithiaf y caiff hynny ei ystyried gan y gweithgor.

Llongyfarchaf y Gweinidog am gyflwyno'r strategaeth hon, a arweinia at welliannau yn ein gwasanaeth iechyd.

**The Presiding Officer:** We will adjourn the debate on the NHS Wales strategy, as was agreed earlier.

### **Mabwysiadu Canllaw Diwygiedig ar Gofrestru a Datgan Buddiant yr Aelodau Adoption of the Revised Guidance on the Registration and Declaration of Members' Interests**

**The Minister for Assembly Business** **Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigiaf fod  
(Andrew Davies): I propose that

*the National Assembly*

*y Cynulliad Cenedlaethol*

*Adopts the revised 'Guidance for Assembly Members on the Registration and Declaration of Members' Financial and Other Interests', which was laid in the Table Office on 5 February 2001.*

*yn mabwysiadu'r ddogfen ddiwygiedig, 'Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001.*

**David Melding:** As chair of the Committee on Standards of Conduct, I inform Members that this brings guidance up to date with the changes in Standing Orders. There are three main changes. First, the requirement in part 1 of the annex to Standing Order No. 4 to register and declare values on financial interests has been removed. Secondly, there are changes to arrangements for submission of register entries. Members' rights to submit register entries by post or via support staff have been incorporated into the guidance. Finally, the supplementary guidance issued to Members on the registration and declaration of interests has been incorporated into the main guidance for terms of clarity.

**David Melding:** Fel cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, hysbysaf yr Aelodau fod hyn yn diweddarau'r canllawiau yn unol â'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Mae tri phrif newid. Yn gyntaf, dilëwyd y gofyniad yn rhan 1 o'r atodiad i Reol Sefydlog Rhif 4 i gofrestru a datgan gwerth buddiannau ariannol. Yn ail, ceir newidiadau i'r trefniadau i gyflwyno cofnodion i'r gofrestr. Ymgorfforwyd hawliau'r Aelodau i gyflwyno cofnodion i'r gofrestr drwy'r post neu drwy staff cymorth yn y canllawiau. Yn olaf, ymgorfforwyd y canllawiau atodol a gyflwynwyd i'r Aelodau o ran cofrestru a datgan buddiannau yn y prif ganllawiau er eglurder.

*Cynnig: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion: For 43, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Law, Peter  
Lewis, Huw

Lloyd, David  
 Melding, David  
 Middlehurst, Tom  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Richards, Rod  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Williams, Kirsty  
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion adopted.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.28 p.m.  
 The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.28 p.m.*

**Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Geidwadol Cymru): Y Strategaeth Datblygu  
 Economaidd Genedlaethol  
 Minority Party Debate (Welsh Conservative Party): The National Economic  
 Development Strategy**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies.

**Alun Cairns:** I propose that

**Alun Cairns:** Cynigiau fod

*this Assembly notes the reservations of the Economic Development Committee on the Deputy First Minister's national economic development strategy and regrets the premature publication of a document which:*

*y Cynulliad yn nodi petruster y Pwyllgor Datblygu Economaidd ynghylch strategaeth datblygu economaidd genedlaethol Dirprwy Brif Weinidog Cymru, ac yn gresynu at gyhoeddiad cynamserol dogfen:*

*lacks adequate policy detail;*

*nad yw'n cynnwys digon o fanylion polisi;*

*set unrealistic growth targets;*

*sydd yn pennu targedau twf afrealistig;*

*and fails to tackle problems facing agriculture and manufacturing.*

*ac sydd yn methu â mynd i'r afael â'r problemau sydd yn wynebu'r sectorau amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu.*

About two weeks ago, the Welsh Conservative Party opposed the business statement on the basis that the national economic development strategy document was being presented in Plenary through a statement rather than a full debate, thus only allowing questions to be asked on it, and not a fair exchange of views. Unfortunately, Members of other parties thought otherwise, and did not support our concerns. It is in that context that the Welsh Conservative Party proposes this motion.

Tua phytnefnos yn ôl, gwrthwynebodd Plaid Geidwadol Cymru y datganiad busnes am y rheswm bod dogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn cael ei chyflwyno yn y Cyfarfod Llawn drwy ddatganiad yn hytrach na dadl lawn, ac felly dim ond yn caniatáu cwestiynau arni, ac nid cyfnewid barn. Yn anffodus, nid oedd Aelodau o bleidiau eraill yn cyd-fynd â ni ac ni chefnogasant ein pryderon. Yn y cyd-destun hwn felly y cynigia Plaid Geidwadol Cymru y cynnig hwn.



We will support amendment 3 in the name of Jocelyn Davies, although we will not support Jocelyn's amendments 1 and 2. I note that the Liberal Democrats and the Labour party have not tabled any amendments. We can therefore assume that they will support the motion, particularly as it only notes the view of all parties in the Economic Development Committee. I fail to appreciate how they could oppose the motion in its current form, or as amended. To do so would be to ignore the Committee's view and would be as nonsensical as calling 'black' 'white'.

4.30 p.m.

The objective of this document is to lay the foundation of the policy activity to revive the Welsh economy over the next 10 years or so. On many occasions, the Assembly has debated a range of aspirational documents. 'Betterwales.com' is an obvious example. In its current form, the national economic development strategy does not develop 'Betterwales.com' further. It sets out the Cabinet's and the Deputy First Minister and Minister for Economic Development's vision. The document includes ambitious targets, which could be viewed as positive, but lacks any form of policy detail. As a result, it is not, and cannot be, costed to establish the amount of resources that would be necessary to realise the targets and achieve the vision.

Cardiff Business School offers the most optimistic growth targets over the next 10 years or so, at a rate of 2.5 per cent. Other independent forecasters predict much lower growth targets. In order for the targets in the national economic development strategy document to be achieved, growth targets of double the highest predicted by independent forecaster, Cardiff Business School, would be necessary. Therefore, without these two essential elements, the targets will never be met and the vision will remain a pipe dream. That is why I believe the document lacks credibility and has been published prematurely.

The paper should be crucial to the formation of strategies from all Assembly quangos and

Cefnogwn welliant 3 yn enw Jocelyn Davies, er na chefnogwn welliannau 1 a 2 Jocelyn. Nodaf na chyflwynodd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Lafur unrhyw welliannau. Gallwn gymryd felly y byddant yn cefnogi'r cynnig, yn enwedig gan mai dim ond nodi barn pob plaid yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a wna. Ni ddeallaf sut y gallent wrthwynebu'r cynnig ar ei ffurf bresennol, nac ar ffurf ddiwygiedig. O wneud hynny, byddent fel pe baent yn diystyru barn y Pwyllgor a byddai hynny cystal â galw 'du' yn 'wyn'.

Amcan y ddogfen hon yw gosod sylfaen y gweithgarwch polisi i adfywio economi Cymru dros y 10 mlynedd nesaf. Bu'r Cynulliad, droeon, yn cynnal dadleuon ar ystod o ddogfennau llawn dyheadau. Mae 'Gwellcymru.com' yn enghraifft amlwg. Ar ei ffurf bresennol, nid yw strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn datblygu 'Gwellcymru.com' ymhellach. Noda weledigaeth y Cabinet a'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Mae'r ddogfen yn cynnwys targedau uchelgeisiol, y gellid eu hystyried yn gadarnhaol, ond nid yw'n cynnwys unrhyw fanylion polisi. O ganlyniad, nid yw wedi, ac ni ellir, ei brisio er mwyn cadarnhau faint o adnoddau a fyddai'n angenrheidiol i wireddu'r targedau a chyflawni'r weledigaeth.

Cynigia Ysgol Fusnes Caerdydd y targedau twf mwyaf optimistaidd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, sef cyfradd o 2.5 y cant. Mae rhagolygwyr annibynnol eraill yn rhagweld targedau twf llawer is. Er mwyn cyflawni'r targedau yn nogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, byddai angen targedau twf ddwywaith gymaint â'r targedau uchaf a ragwelir gan Ysgol Fusnes Caerdydd sef rhagolygydd annibynnol. Felly, heb y ddwy elfen hanfodol hyn, ni chaiff y targedau eu cyflawni byth a breuddwyd gwrrach fydd y weledigaeth o hyd. Dyna pam y credaf nad oes hygredd yn perthyn i'r ddogfen ac iddi gael ei chyhoeddi'n gynamserol.

Dylai'r papur fod yn holl bwysig o ran llunio strategaethau pob cwango ac asiantaeth y

agencies involved in driving forward economic activity, skills, training and investment. Its importance cannot be understated. However, most of all, it should set the agenda of private sector interest, which Wales needs if we are to close the gross domestic product per capita gap. It may have been through numerous drafts and informal briefings, but turning out an inferior document will not help anyone and will only fool the Minister himself.

Following the Minister's statement last week, I highlighted one contradiction in the paper. The Minister talked about diversifying the economic base, but in the same sentence he proposed clustering. Those are mutually exclusive. You will not diversify if you develop clusters focused on one industrial sector at a particular location. Our experience of over-dependence on certain industries is all too recent and real.

Focusing on furthering the cluster base will expose rather than diversify the Welsh economy. However, no detail is offered of how clustering will be achieved. Clustering was first proposed in 1990 by the distinguished business writer and commentator Michael Porter. In business and economic terms, following a policy based in 1990 would mean standing still. The latest business journals show a move away from clustering. Although it played its role at the time, it is almost part of history in a range of sectors because competition for labour will have driven costs upwards, rendering the companies uncompetitive. That is particularly true at a time of low unemployment. Furthermore, establishing a cluster in Cardiff, Swansea or on Deeside will do little to support rural areas. Clustering in rural areas is not a policy that can be pursued because of the lack of population density. It will also be impossible in many parts of the Valleys because of issues surrounding their structural foundation. Clustering may well be a catchy phrase but does not offer anything new or different to assist in achieving those unrealistic targets.

Cynulliad sydd yn ymwneud â gwthio gweithgaredd economaidd, sgiliau, hyfforddiant a buddsoddi ymlaen. Ni ellir gor-ddweud pa mor bwysig ydyw. Fodd bynnag, yn anad dim, dylai osod yr agenda ar gyfer y sector preifat, y mae ei angen ar Gymru er mwyn inni gau'r bwlch yn y cynnyrch mewnwladol crynswth y pen. Efallai y cafwyd lluo o ddrafftiau a briffiadau anffurfiol yn ei chylch, ond ni fydd cyhoeddi dogfen wael o gymorth i unrhyw un ac ni fydd yn argyhoeddi unrhyw un heblaw'r Gweinidog ei hun.

Yn dilyn datganiad y Gweinidog yr wythnos diwethaf, nodais un gwrthddywediad yn y papur. Soniodd y Gweinidog am arallgyfeirio'r sylfaen economaidd, ond yn yr un frawddeg cynigiodd glystyru. Nid yw'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd. Ni fyddwch yn arallgyfeirio os datblygwch glystyrau sydd yn canolbwyntio ar un sector diwydiannol mewn lleoliad penodol. Mae ein profiad o or-ddibyniaeth ar ddiwydiannau penodol yn un diweddar ac yn fyw yn y cof.

Bydd canolbwyntio ar ddatblygu clystyrau ymhellach yn peryglu economi Cymru yn hytrach na'i harallgyfeirio. Fodd bynnag, ni roddir unrhyw fanylion am sut y gellir cyflawni clystyru. Cynigiwyd clystyru am y tro cyntaf yn 1990 gan yr awdur a'r sylwebydd busnes nodedig, Michael Porter. Yn nhermau busnes ac economaidd, byddai dilyn polisi a luniwyd yn 1990 yn golygu sefyll yn yr unfan. Dengys y cylchgronau busnes diweddaraf fod ymgais i symud oddi wrth glystyru. Er iddo chwarae rhan ar y pryd, mae'n hen hanes bron mewn nifer o sectorau gan y bydd cystadleuaeth am lafur wedi gwthio costau i fyny, gan beri i gwmnïau fod yn anghystadleuol. Mae hynny'n arbennig o wir pan fydd diweithdra yn isel. At hynny, ni fydd sefydlu clwstwr yng Nghaerdydd, Abertawe neu Lannau Dyfrdwy fawr o gymorth i ardaloedd gwledig. Nid yw clystyru mewn ardaloedd gwledig yn bolisi y gellir ei ddilyn oherwydd teneurwydd poblogaeth. Bydd hefyd yn amhosibl mewn sawl rhan o'r Cymoedd oherwydd materion yn ymwneud â'u sylfaen strwythurol. Efallai bod clystyru yn ymadrodd bachog ond ni chynigia unrhyw beth newydd na gwahanol a fydd yn fodd i gyflawni'r targedau afrealistig hynny.

Attention must be paid to company strategies and the latest analysis of business and economic development. The latest journals show a distinct move away from the concept of clustering. Pursuing this policy in Wales will not only expose our employees should the Minister discover how to deliver it, but will also put Wales 10 years behind the most dynamic economies.

I mentioned the unrealistic targets that have been set. If we are to achieve these goals, the economy will need to grow at double the rate of every independent forecaster. Although this is desirable, stating objectives without providing the resources to follow them through means that they will never be achieved and the Minister will only be fooling himself.

Cost-cutting is one measure that would make Welsh businesses more competitive. There is nothing in this paper that seeks to aid businesses in cutting costs. Conversely, the Minister is planning to introduce a local business rate tax. If that does not send the wrong message to potential investors—that Wales is not the place to do business—then I do not know what will.

The Minister likes using phrases such as ‘clustering’, ‘value chains’ and ‘skills parks’. They make useful soundbites, but mean nothing. He also tries to describe every situation by using an analogy, but anyone with a real understanding of problem solving will appreciate that analogies are too simplistic and that the underlying influences are much more complicated than they suggest.

I hope that all Members will accept that, although this has been used as a political football up to now, there are serious flaws in this document. I am not here to make political capital from what would be an easy target. I am asking for support to urge the Minister to rethink, to hold back the document, and redraft the paper to include policy detail, realistic targets and the necessary resources to support them. There

Rhaid ystyried strategaethau cwmnïau a'r dadansoddiad diweddaraf o'r byd busnes a datblygiadau economaidd. Dengys y cylchgronau diweddaraf ymgais bendant i symud oddi wrth y cysyniad o glystyru. Bydd dilyn y polisi hwn yng Nghymru nid yn unig yn peryglu swyddi ein cyflogeion, a bwrw bod y Gweinidog yn canfod sut i'w gyflawni, ond golyga hefyd y bydd Cymru 10 mlynedd ar ei hôl hi o gymharu â'r economïau mwyaf deinamig.

Cyfeiriais at y targedau afrealistig a bennwyd. Er mwyn inni gyflawni'r nodau hyn, bydd angen i'r economi dyfu ar gyfradd ddwywaith gymaint â'r hyn a ragwelir gan bob rhagolygydd annibynnol. Er bod hyn yn ddymunol, mae pennu amcanion heb roi'r adnoddau i'w rhoi ar waith yn golygu na chânt eu cyflawni byth ac ni fydd y Gweinidog ond yn twyllo ei hun.

Lleihau costau yw un mesur a fyddai'n sicrhau bod busnesau Cymru yn fwy cystadleuol. Nid oes unrhyw beth yn y papur hwn sydd yn ceisio rhoi cymorth i fusnesau wrth leihau costau. Ar y llaw arall, bwriada'r Gweinidog gyflwyno treth fusnes leol. Oni fydd hynny'n rhoi'r neges anghywir i fuddsoddwyr posibl—sef nad yw Cymru yn lle da i wneud busnes—ni wn beth fydd.

Mae'r Gweinidog yn hoff o ddefnyddio ymadroddion fel ‘clystyru’, ‘cadwyni gwerth’, a ‘pharciau sgiliau’. Maent yn fachog iawn ond ni olygant unrhyw beth. Ceisia hefyd ddisgrifio pob sefyllfa drwy ddefnyddio cymhariaeth, ond bydd unrhyw un sydd â dealltwriaeth wirioneddol o ddatrys problemau yn gwerthfawrogi bod cymariaethau yn gor-symleiddio a bod y dylanwadau sylfaenol yn llawer mwy cymhleth nag y maent yn ei awgrymu.

Gobeithiaf y bydd pob Aelod yn derbyn y ffaith, er i'r ddogfen hon gael ei thrafod fel gêm wleidyddol hyd yma, mae iddi ddiffygion difrifol. Nid wyf yma i droi dŵr i'm melin fy hun am bwnc a fyddai'n darged hawdd. Gofynnaf am gymorth i annog y Gweinidog i ailfeddwl, oedi cyhoeddi'r ddogfen, ac ailddrafftio'r papur er mwyn cynnwys manylion polisi, targedau realistig a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cynnal.

are concerns from all political parties; I am not here to make political capital of this. If this document is sent out in its current form—as indeed it has been—it will need to come back to the Assembly for some policy detail to be presented. After these policies have been considered, the document will need to go back out for consultation again, so that the policies and the implementation can be analysed and consulted upon.

I will be interested to discover whether all the Labour Members will support this document, because it is very much the Minister for Economic Development's personal document. I would like to draw their attention to a recent publication, 'Inside Welsh Labour', that states that the Liberal Democrats have plenty of promises but no way of paying for them. That is just like the national economic strategy. Furthermore, this New Labour paper states that the Liberal Democrats are 'out of touch with the people of Wales'. Again, on managing the economy and proposing economic policy, it states that 'the Liberal Democrats would cause huge damage to Britain's economy and, in particular, the manufacturing industries in Wales'. I will therefore be particularly interested in the Labour Members' reaction, as well as that of their coalition partner, the Deputy First Minister.

**Mick Bates:** Since we are talking about damage to the economy, I remind you about the years 1980-82 when there was another party in power in Westminster. The Welsh working population fell by 106,000 people. In the same period the steel industry lost 35,000 jobs. If anyone has damaged the Welsh economy, it is you and your party.

**Alun Cairns:** I remind Mick Bates that although 65,000 jobs were lost in coal and steel between 1979 and 1985, because of the restructuring of the Welsh economy, at the same time, 75,000 jobs were created by attracting inward investment. That gives a net gain of employment.

**David Davies:** Are you aware that many more jobs were lost in the steel industry during the previous Labour Government, when Michael Foot signed the ministerial order that closed the steelworks in Ebbw

Mae pryderon ymhlith pob plaid wleidyddol; nid troi dŵr i'm melin fy hun yr wyf. Pe bai'r ddogfen hon yn cael ei hanfon ar ei ffurf bresennol—fel y digwyddodd mewn gwirionedd—bydd angen iddi ddod yn ôl i'r Cynulliad hwn am ragor o fanylion polisi. Ar ôl ystyried y polisiau hyn, bydd angen ymgynghori ar y ddogfen drachefn er mwyn dadansoddi'r polisiau a sut y cânt eu gweithredu ac ymgynghori arnynt.

Yr wyf yn awyddus i ganfod a fydd pob Aelod Llafur yn cefnogi'r ddogfen hon am mai dogfen bersonol y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ydyw yn y bôn. Hoffwn dynnu eu sylw at gyhoeddiad diweddar, 'Inside Welsh Labour', a noda fod gan y Democratiaid Rhyddfrydol ddigonedd o addewidion ond dim modd o dalu amdanynt. Mae hynny'n debyg iawn i'r strategaeth economaidd genedlaethol. At hynny, noda'r papur Llafur Newydd hwn fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn 'out of touch with the people of Wales'. Eto, o ran rheoli'r economi a chynnig polisiau economaidd, noda 'the Liberal Democrats would cause huge damage to Britain's economy and, in particular, the manufacturing industries in Wales'. Yr wyf felly yn awyddus iawn i weld ymateb yr Aelodau Llafur yn ogystal ag ymateb eu partner clymblaid, y Dirprwy Brif Weinidog.

**Mick Bates:** Gan ein bod yn siarad am niwed i'r economi, fe'ch atgoffaf am y blynyddoedd 1980-82 pan fu plaid arall mewn grym yn San Steffan. Gostyngodd nifer y bobl yn gweithio yng Nghymru 106,000. Yn yr un cyfnod collwyd 35,000 o swyddi yn y diwydiant dur. Os bu unrhyw un yn niweidio economi Cymru, chi a'ch plaid fu.

**Alun Cairns:** Atgoffaf Mick Bates, er i 65,000 o swyddi gael eu colli yn y diwydiant glo a dur rhwng 1979 a 1985, yn sgîl ailstrwythuro economi Cymru, ar yr un pryd crëwyd 75,000 o swyddi drwy ddenu mewnffuddsoddiad, sef cynnydd net mewn cyflogaeth.

**David Davies:** A ydych yn ymwybodol y collwyd llawer mwy o swyddi yn y diwydiant dur o dan y Llywodraeth Lafur flaenorol pan arwyddodd Michael Foot y gorchymyn gweinidogol i gau gwaith dur Glynebwy, gan

Vale, costing the area thousands of jobs? Is it not a disgrace that Members of other parties seek to make political points when their own record in this matter is abysmal?

**Alun Cairns:** I am aware of that, and I am also aware of Tony Benn's role in that when he was a Minister. However, I am sure that Mick Bates is not aware of it.

This document will need to go out for consultation again after this consultation is completed because it does not contain any policy detail. When it comes back it can be costed. However, this document clearly states that the Assembly's budget has almost been set for the next three years. How will the Minister achieve those ambitious targets, when they are totally unrealistic without the resources necessary to achieve them?

I am pleased that we have had the opportunity to debate this, and look forward to hearing views on 'Inside Welsh Labour', particularly on the statement that the Liberal Democrats are out of touch with the Welsh people.

4.40 p.m.

**Phil Williams:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. I propose amendment 1. Replace 'regrets' with 'notes'.

I propose amendment 2. Replace 'set unrealistic growth targets' with

*fails to set appropriate targets for net increase in employment in the various economic regions of Wales*

I propose amendment 3. Delete 'and' in third clause, and add as a new fourth clause:

*and does not indicate where the recommended strategy will involve substantial resources not covered by the present forward-look budget.*

This is a rare occasion when I am grateful to

arwain at golli miloedd o swyddi yn yr ardal? Onid yw'n warthus o beth bod Aelodau'r pleidiau eraill yn ceisio gwneud pwyntiau gwleidyddol pan fu eu hanes eu hunain o ran hynny yn druenus?

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ymwybodol o hynny, ac yr wyf hefyd yn ymwybodol o rôl Tony Benn yn hynny o beth pan oedd yntau'n Weinidog. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr nad yw Mick Bates yn ymwybodol o hynny.

Bydd angen ymgynghori drachefn ar y ddogfen hon pan ddaw'r ymgynghoriad hwn i ben am nad yw'n cynnwys unrhyw fanylion polisi. Pan ddaw yn ôl gellir ei phrisio. Fodd bynnag, noda'r ddogfen hon yn glir bod cyllideb y Cynulliad wedi ei phennu am y tair blynedd nesaf. Sut y bydd y Gweinidog yn cyflawni'r targedau uchelgeisiol hynny, a hwythau'n gwbl afrealistig heb yr adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni?

Yr wyf yn falch inni gael y cyfle i gynnal dadl ar hyn ac edrychaf ymlaen at glywed barn pobl ar 'Inside Welsh Labour', yn enwedig y datganiad bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi colli cysylltiad â phobl Cymru.

**Phil Williams:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Cynigiau welliant 1. Dileer 'gresynu', gan roi 'nodi' yn ei le.

Cynigiau welliant 2. Dileer 'sydd yn pennu targedau twf afrealistig', gan roi'r canlynol yn ei le:

*nad yw'n pennu targedau priodol ar gyfer cynnydd net mewn cyflogaeth yn amryfal ranbarthau economaidd Cymru;*

Cynigiau welliant 3. Dileer 'ac' yn y trydydd cymal, ac ychwaneger y canlynol fel pedwerydd cymal newydd:

*ac nad yw'n nodi a fydd angen adnoddau sylweddol, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gyllideb ragolwg bresennol, ar gyfer y strategaeth sydd yn cael ei hargymell.*

Dyma un o'r achlysuron prin pan fwyf yn

the Conservatives. Last week, I asked a series of questions and, looking through the Record, I see that I did not receive a single answer. Therefore, this debate gives me a chance to ask them again.

I will start by explaining amendment 1. I do not regret the publication of the Government's economic strategy. It gives the Plaid Cymru policy group an opportunity to present our economic strategy as evidence and we trust that the contrast will be obvious. In an announcement last week, we were told that the Government had been working on the strategy for almost a year. If this is the best that it can do after a year, it is time that we had a Government of competence.

Let us be clear that this is the Government's work. On 19 December, when Committee members had not seen anything that resembled a draft, I was worried about meeting the deadline of 8 February. Facing three weeks of enforced inactivity, I asked whether I could access the working documents so that I could contribute. I was firmly told I could not and that this was a Government document.

**Brian Gibbons:** In view of that record of incompetence, can Phil explain how the figures for the International Labour Organisation level of unemployment in Wales at a regional level show that unemployment has fallen more in Wales than in any other region in the United Kingdom? That is some incompetence by anybody's standards.

**Phil Williams:** The level is still far higher than in other regions, and the job losses in recent months will accentuate that and present a challenge.

An economic strategy should have clear targets, clear options for reaching those targets and the resources necessary to follow those options. This document fails. On targets, Plaid Cymru would prefer the target to be expressed in terms of jobs created. If you create extra jobs, gross domestic product will increase. However, you can increase GDP, for example, with a highly automated

ddiolchgar i'r Ceidwadwyr. Yr wythnos diwethaf, gofynnais gyfres o gwestiynau ac, o edrych drwy'r Cofnod, gwelaf na chefais ateb i'r un ohonynt. Felly mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle imi eu gofyn eto.

Dechreuaf drwy egluro gwelliant 1. Ni resynaf wrth y ffaith i strategaeth economaidd y Llywodraeth gael ei chyhoeddi. Rhydd cyfle i grŵp polisi Plaid Cymru gyflwyno ein strategaeth economaidd fel tystiolaeth a hyderwn fod y gwrthgyferbyniad yn amlwg. Mewn cyhoeddiad yr wythnos diwethaf, dywedwyd wrthym bod y Llywodraeth wedi bod wrthi'n gweithio ar y strategaeth ers blwyddyn bron. Os mai dyma'r gorau y gall ei wneud ar ôl blwyddyn, mae'n bryd inni gael Llywodraeth gymwys.

Gadewch inni fod yn glir mai gwaith y Llywodraeth ydyw. Ar 19 Rhagfyr, pan nad oedd aelodau'r Pwyllgor wedi gweld unrhyw beth y gellir ei alw'n ddrafft, yr oeddwn yn pryderu ynglŷn â chwrdd â'r dyddiad terfynol sef 8 Chwefror. A minnau'n wynebu tair wythnos o segurddod anorfod, gofynnais a allwn weld y dogfennau gwaith er mwyn imi gyfrannu. Dywedwyd wrthyf yn blwmp ac yn blaen mai dogfen y Llywodraeth ydoedd.

**Brian Gibbons:** O gofio'r hanes diffygiol hwnnw, a all Phil egluro pam y dengys ffigurau'r Mudiad Llafur Rhyngwladol am lefel y diweithdra yng Nghymru yn ôl rhanbarth fod diweithdra wedi gostwng ar raddfa fwy yng Nghymru nag mewn unrhyw ranbarth arall o'r Deyrnas Unedig? Dyna hanes go ddiffygiol.

**Phil Williams:** Mae'r lefel yn llawer uwch na'r rhanbarthau eraill o hyd, a bydd y diswyddiadau yn ystod y misoedd diwethaf yn peri i hynny waethygu ac yn rhoi her.

Dylai fod i strategaeth economaidd dargedau clir, opsiynau clir am gyrraedd y targedau hynny a'r adnoddau angenrheidiol i ddilyn yr opsiynau hynny. Mae'r ddogfen hon yn methu. O ran targedau, byddai'n well gan Blaid Cymru pe bai'r targed yn cael ei fynegi yn ôl swyddi a grëir. Os crëwch swyddi ychwanegol, bydd cynnyrch mewnwladol crynswth yn cynyddu. Fodd bynnag, gallwch

capital investment but the number of jobs falls. Prime targets should be to create sufficient jobs at all levels, including jobs in top management, in the professions and in research so that, by 2010, we will have reduced registered unemployment, raised activity rates and ended the drain of talented young people from Wales.

I asked last week whether the jobs target was 100,000, as noted on pages 11 and 39, or 150,000. I received no answer, but the correct figure is 100,000 jobs. Apparently, the figure of 150,000 is based on strange calculations on that worthy piece of imaginative fiction, 'Betterwales.com'. Moreover—

**Rod Richards:** I recognise Phil Williams's talent as a boffin but not as an economist, because the model of the Welsh economy that he described seems to be based on the old Soviet Union model. That country had full employment and created jobs for everybody, but its GDP per head was almost the worst in the modern world.

**Phil Williams:** I lived for three years in Sweden and that has set my target for what a civilised free democratic society should be like. That is what I intend to achieve in Wales.

We need to divide the target of 100,000 jobs into separate targets for the different regions of Wales. We need separate targets so that we can monitor the extent to which our economic progress is meeting the targets in Arfon, Pembrokeshire and Blaenau Gwent as well as on Deeside or in Chepstow.

On implementation, the document is from the same school of writers that produced 'Betterwales.com'. It includes a list of admirable aspirations but, unfortunately, there is no clear indication of how we are to achieve them. We remember the rebuke to Owain Glyndwr when he claimed that he could call spirits from the vasty deeps—'Aye, but do they come when you call?' What precise steps, for example, are proposed to develop our research capability?

gynyddu'r CMC, er enghraifft, drwy fuddsoddi cyfalaf tra awtomataidd ond bydd nifer y swyddi yn gostwng. Creu digon o swyddi ar bob lefel, gan gynnwys swyddi uwch reolwyr, yn y proffesiynau a maes ymchwil ddylai'r prif dargedau fod er mwyn inni, erbyn 2010, ostwng nifer y di-waith a gofrestrir, cynyddu cyfraddau gweithgarwch ac atal y llif o bobl ifanc ddawnus yn gadael Cymru.

Gofynnais yr wythnos diwethaf ai 100,000, fel y nodwyd ar dudalennau 11 a 39 ynteu 150,000 oedd y targed swyddi. Ni chefais ateb, ond 100,000 yw'r ffigur cywir. Mae'n debyg bod y ffigur o 150,000 yn seiliedig ar ryw gyfrifo rhyfedd yn y ffuglen wych honno 'Gwellcymru.com'. At hynny—

**Rod Richards:** Cydnabyddaf ddawn Phil Williams fel gwyddonydd ond nid fel economydd, am yr ymddengys i mi fod y model o economi Cymru a ddisgrifiodd yn seiliedig ar fodel yr hen Undeb Sofietaidd. Bu cyflogaeth lawn yn y wlad honno a chrëwyd swydd i bawb, ond yr oedd y CMC y pen yno un o'r gwaethaf yn y byd modern.

**Phil Williams:** Bûm yn byw am dair blynedd yn Sweden ac mae hynny wedi pennu fy nharged o'r hyn y dylai cymdeithas ddemocrataidd, rydd, waraidd fod. Dyna beth y bwriadaf ei gyflawni yng Nghymru.

Mae angen inni rannu'r targed o 100,000 o swyddi yn dargedau ar wahân ar gyfer yr amryfal ranbarthau o Gymru. Mae arnom angen targedau ar wahân fel y gallwn fonitro i ba raddau y mae ein cynnydd economaidd yn cyrraedd y targedau yn Arfon, Sir Benfro a Blaenau Gwent yn ogystal â Glannau Dyfrdwy a Chas-gwent.

O ran gweithredu, perthyn y ddogfen i'r un ysgol o awduron a luniodd 'Gwellcymru.com'. Mae'n cynnwys rhestr o ddyheadau clodwiw ond, yn anffodus, nid oes arwydd clir sut y byddwn yn eu cyflawni. Cofier am y cerydd a gafodd Owain Glyndwr pan honnodd y gallai alw'r ysbrydion o'r entrychion—'Ie, ond a ddônt, pan fyddoch yn galw?' Pa gamau yn union, er enghraifft, y bwriedir eu cymryd er mwyn datblygu ein gallu ymchwil?

I repeat my strong support for sector selectivity. It is the basis of the success of most small countries in western Europe over the last 20 years. However, how do we implement selectivity? It will involve the teaching syllabus and research programme of our universities. Does that imply an element of direction? It will involve the priorities that we give to developing different forms of communication infrastructure. It will involve changes in regional selective assistance. We need to consult on the options, but this document does not ask the questions for the consultees to answer. Perhaps the most crucial weakness is the reliance on fiscal variation before we know whether this is permitted. By now, we must have some idea as to whether the answer is 'yes' or 'no'. Thirdly, and most serious, is the lack of proper costing. The proposed education and research strategy is admirable, but how much more will it cost? A major boost to promote Wales world-wide is essential, but it needs to be well funded to be effective. Improved public transport and the shift of freight from road to rail are wonderful aims, but they are not in our present budget.

Finally, it is claimed on page 39 that the cost per net job is £17,500. I have since discovered through consultation that this figure is based on the regional selective assistance guidelines and does not include the substantial infrastructure in education costs that would be necessary to create jobs in a deprived area. In Objective 1 we require £2.4 billion to create 43,000 jobs, which is £55,000 per job. That is a realistic figure. On that basis, there should be a budget line of £500 million and we can then see what we can do. However, this strategy as presented is full of errors and contradictions and, above all, is incomplete. I note that it is a document from the present Government.

**David Davies:** This national economic development strategy document has one glaring omission that makes me question whether any of the people who are responsible for it should hold their posts. The

Nodaf drachefn fy nghefnogaeth gref dros ddetholusrwydd sector. Mae'n sail i lwyddiant y rhan fwyaf o wledydd bach gorllewin Ewrop yn ystod y 20 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, sut y gweithredwn ddetholusrwydd? Bydd yn cynnwys maes llafur a rhaglenni ymchwil ein prifysgolion. A yw hynny'n awgrymu rhywfaint o gyfeiriad? Bydd yn cynnwys y blaenoriaethau a roddwn i ddatblygu gwahanol fathau o isadeiledd cysylltiadau. Bydd yn cynnwys newidiadau i'r cymorth rhanbarthol dethol. Mae angen inni ymgynghori ar yr opsiynau, ond nid yw'r ddogfen hon yn gofyn y cwestiynau i'r ymgynghoreion eu hateb. Efallai mai'r gwendid mwyaf sylfaenol yw'r ddibyniaeth ar amrywio cyllidol cyn ein bod yn gwybod y caniateir hyn. Erbyn hyn, rhaid bod rhyw amcan gennym ai 'ie' neu 'nage' yw'r ateb. Yn drydydd, ac yn fwyaf difrifol, yw'r diffyg prisiadau cywir. Mae'r strategaeth addysg ac ymchwil arfaethedig yn un glodwiw, ond faint yn fwy y bydd yn ei gostio? Mae rhoi hwb i hyrwyddo Cymru ledled y byd yn hanfodol, ond mae angen iddo gael ei ariannu'n dda er mwyn iddo fod yn effeithiol. Mae gwell trafnidiaeth gyhoeddus a newid cludiant nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd yn nodau bendigedig, ond nid ydynt yn ein cyllideb bresennol.

I gloi, honnir ar dudalen 39 mai £17,500 yw'r gost net fesul swydd. Canfŷm ers hynny drwy ymgynghori bod y ffigur hwn yn seiliedig ar y canllawiau ar gymorth rhanbarthol dethol ac nad yw'n cynnwys yr isadeiledd sylweddol mewn costau addysg a fyddai'n angenrheidiol i greu swyddi mewn ardal ddifreintiedig. Yn Amcan 1, mae angen £2.4 biliwn i greu 43,000 o swyddi, sef £55,000 y swydd. Dyna ffigur realistig. Ar y sail honno, dylai fod cyllideb o £500 miliwn ac yna gwelwn beth y gallwn ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hon a gyflwynir yn llawn gwallau a gwrthddywediadau ac, yn anad dim, yn anghyflawn. Nodaf mai dogfen y Llywodraeth bresennol ydyw.

**David Davies:** Mae un diffyg amlwg gan y ddogfen strategaeth datblygu economaidd genedlaethol hon sydd yn peri imi amau a ddylai unrhyw un o'r bobl sydd yn gyfrifol amdani ddal eu swyddi. Un mater o'r braidd



one matter that is barely mentioned in this whole strategy is taxation. Taxation is crucial for the success of any businesses. We heard earlier from my colleague, Alun Cairns, that in order to achieve the sort of growth rates that this strategy sets out, we would have to become more successful than Eire, Singapore or Hong Kong. It may well be worthy to aim at trying to do better than those nations, but they survive and prosper because they have low taxation strategies.

**Phil Williams:** Do you accept that of the five countries that have the greatest economic success in Europe at present, the four Scandinavian countries have the highest levels of taxation?

**David Davies:** I agree that they have higher rates of taxation. A secret of their success is that they are presently outside the European Union and have no intention of joining the euro. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Many of the Scandinavian countries have no intention of joining the euro. I will not get into that debate. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Sweden is in Europe.'] Sweden is a member of the European Union, but there are several other Scandinavian nations. I will not impart a geography lesson to the Members of this Chamber. However, if they care to pull out their geography textbooks, they may find out that Norway and Finland are also part of Scandinavia, and they are not members of the European Union, but they are members of the European free trade area.

On Phil Williams's question, he seems to be drawing a link between taxation and economic success. Whether or not he believes that high taxation is good or bad for economic success, he links the two. As I said, where is taxation in this strategy? If we take Phil Williams's premise that taxation is important to businesses' success, where is it? It should be listed in this economic development strategy. The fact of the matter is that it is not there. All we have are the high-blown phrases which we are so used to hearing from New Labour. We have heard all sorts of talk about a business birth control strategy in this statement, or a business birth strategy. What we are getting from these people is business birth control. We are

bod sôn amdano drwy gydol y strategaeth hon yw trethiant. Mae trethiant yn holl bwysig i lwyddiant unrhyw fusnes. Clywsom yn gynharach gan fy nghyd-Aelod, Alun Cairns y byddai'n rhaid inni fod yn fwy llwyddiannus nag Iwerddon, Singapore neu Hong Kong er mwyn cyflawni'r fath gyfraddau twf ag y nodir yn y strategaeth hon. Peth clodwiw o bosibl yw ceisio rhagori ar y cenhedloedd hynny, ond maent yn goroesi ac yn ffynnu am fod ganddynt strategaethau trethiant isel.

**Phil Williams:** A dderbyniwch, o blith y pum gwlad sydd â'r llwyddiant economaidd mwyaf yn Ewrop ar hyn o bryd, mai ym mhedair gwlad Llychlyn, yw'r lefelau uchaf o drethiant.

**David Davies:** Cytunaf fod ganddynt gyfraddau trethiant uwch. Cyfrinach eu llwyddiant yw eu bod y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd ac ni fwriadant ymuno â'r ewro. [AELODAU CYNULLIAD: 'O.'] Nid oes bwriad gan lawer o wledydd Llychlyn ymuno â'r ewro. Nid af ar y trywydd hwnnw. [AELODAU CYNULLIAD: 'Mae Sweden yn aelod o'r Undeb.'] Mae Sweden yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ond mae sawl gwlad yn Llychlyn. Ni roddaf wers daearyddiaeth i Aelodau'r Siambr hon. Fodd bynnag, pe baent yn edrych yn eu gwrslyfrau daearyddiaeth, byddent yn gweld bod Norwy a'r Ffindir hefyd yn rhan o Llychlyn, ac nid ydynt yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, ond maent yn aelodau o ardal masnach rydd Ewrop.

Ynglŷn â chwestiwn Phil Williams, ymddengys ei fod yn gwneud cysylltiad rhwng trethiant a llwyddiant economaidd. Pa un a yw'n credu bod trethiant yn beth da ynteu'n beth drwg o ran llwyddiant economaidd, cysylltu'r ddau a wna. Fel y dywedais, ble mae trethiant yn y strategaeth hon? Os cymerwn osodiad Phil Williams fod trethiant yn bwysig i lwyddiant busnesau, ble y mae? Dylid bod wedi ei restru yn y strategaeth datblygu economaidd hon. Y gwir amdani yw nad yw yma. Y cyfan sydd gennym yw'r ymadroddion rhwysgfawr a glywn mor aml gan Lafur Newydd. Yr ydym wedi clywed pob math o sôn am strategaeth atal cenhedlu busnesau yn y datganiad hwn, neu strategaeth geni busnesau. Yr hyn a gawn

getting an increase in red tape and regulation. [Laughter.] I am trying to keep going, but it is getting rather difficult.

4.50 p.m.

**Alun Cairns:** This document is a business birth control strategy because it does not offer anything new to foster and encourage business. David Davies is right when he talks about a business birth strategy. There is no strategy in this. The Minister has also talked about a supplementary business rate tax which would devastate businesses in Wales and send a clear message to investors to go elsewhere.

**David Davies:** Members may laugh and snigger, but how many of them have had a real job in business? How many of them have struggled, as I have, to run a small business, spending my time on the phone trying to get money out of creditors, trying to deal with the red tape and regulations that Labour has imposed upon us? Alun Cairns was right. This is a business birth control strategy, and the contraception takes the form of red tape and regulations, the climate change levy and higher taxes. It is about time that somebody took the Minister for Economic Development outside and explained the facts of life to him.

**Alison Halford:** I am overwhelmed by the thought of David as a midwife. As a Member of the National Assembly, I have served on several Committees. In the Local Government and Housing Committee we beavered together with a huge agenda, and worked hard in a co-operative and spirited manner to find solutions. I am currently a member of the Audit Committee. This Committee has also worked as a team to ensure that public bodies are called to account and that profligacy is discouraged. We have worked hard to be a meaningful scrutiny body. For a brief period I was a member of Edwina Hart's Committee on Equality of Opportunity. Under her gentle and non-abrasive touch it was a joy to be party to well-meaning and important deliberations. We worked, despite our party loyalties, to ensure that common standards of equality applied throughout the Assembly

gan y bobl hyn yw atal cenhedlu busnesau. Gwelwn gynnydd mewn biwrocratiaeth a rheoliadau. [Chwerthin.] Yr wyf yn ceisio parhau i siarad, ond mae'n braidd yn anodd.

**Alun Cairns:** Strategaeth atal cenhedlu busnesau yw'r ddogfen hon am na chynigia unrhyw beth newydd a fydd yn meithrin ac annog busnes. Mae David Davies yn llygad ei le i gyfeirio at strategaeth geni busnesau. Nid oes unrhyw strategaeth yma. Siaradodd y Gweinidog hefyd am dreth fusnes atodol a fyddai'n dinistrio busnesau yng Nghymru ac anfon neges glir i fuddsoddwyr i fynd i rywle arall.

**David Davies:** Gall yr Aelodau chwerthin a gwawdio, ond faint ohonynt sydd wedi cael swydd go iawn mewn busnes? Faint ohonynt sydd wedi brwydro, fel minnau, i redeg busnes bach, gan dreulio fy amser ar y ffôn yn ceisio cael arian oddi wrth gredydwyr, ceisio ymgodymu â biwrocratiaeth a rheoliadau y gorfodwyd arnom gan Lafur? Yr oedd Alun Cairns yn llygad ei le. Dyma strategaeth atal cenhedlu busnesau, ac mae'r atal cenhedlu ar ffurf biwrocratiaeth a rheoliadau, ardoll newid yn yr hinsawdd a threthi uwch. Mae'n bryd i rywun gymryd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd o'r neilltu ac egluro ffeithiau bywyd wrtho.

**Alison Halford:** Mae syniad o David fel bydwaig yn drech na mi. Fel Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol, bûm yn aelod o sawl Pwyllgor. Yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, llafuriasom gyda'n gilydd ar agenda enfawr, gan weithio'n ddygn mewn ffordd gydweithredol ac egniol i ddod o hyd i atebion. Ar hyn o bryd yr wyf yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor hwn hefyd wedi gweithio fel tîm i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn atebol ac y'u darbwyllir rhag bod yn afradlon. Buom yn gweithio'n galed i fod yn gorff archwilio ystyrllon. Am gyfnod byr, bûm yn aelod o Bwyllgor Cyfle Cyfartal Edwina Hart. O dan ei harweiniad mwyn a thyner yr oedd yn braf bod yn rhan o drafodaethau pwysig, llawn bwriadau da. Gweithiem, er gwaethaf ein teyrngarwch pleidiol, i sicrhau bod safonau cydraddoldeb cyffredin, ar draws y Cynulliad a Chymru. Deuthum yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu

and Wales. I became a member of the Economic Development Committee because I thought that north Wales needed an extra representative. I was reluctant to join the Committee because my background is not in economic development.

**Alun Cairns:** Do not worry, the Minister's background is not in economic development either.

**Alison Halford:** Sadly, for the first time—and that remark might have something to do with it—I have witnessed challenging and combative behaviour, deep tensions, a certain undeserved robust approach towards our Chair, a general undercurrent of discontent, a plethora of opposing views, together with a perceived unwillingness to work as a team. What is the hidden agenda? How can all this turbulence do anything to inspire confidence in what this Committee is trying to achieve? This document is a good start. It is a sensible and honest beginning to a debate in full consultation.

**Alun Cairns:** This document is not a beginning. It is the end of the process before it goes out to consultation. It has taken almost two years to get this far, because the national economic development strategy was the very first paper considered in the first Economic Development Committee.

**Alison Halford:** Clearly, our definitions of the word 'consultation' are far apart. Consultation is about inclusiveness, listening and learning and finding out what the public, industry, commerce and business want to say about this document. Why do we think that all the expertise and wealth of knowledge on how to take this economy forward can only be found in the Committee? What message is today's debate giving to the business community and those committed to moving Wales up the growth ladder? If we cannot allow a little give and take and accept that every document has its strengths and weaknesses, then we are surely abdicating our role as true leaders of our communities and worthy representatives of our electorate. The Economic Development Committee is probably the most important of all the Subject Committees. If our economy does not flourish, then little else will. All our goals to

Economaidd am fy mod o'r farn bod angen cynrychiolydd ychwanegol o ogledd Cymru. Yr oeddwn yn petruso cyn ymuno â'r Pwyllgor am nad oes cefndir o ddatblygu economaidd gennyf.

**Alun Cairns:** Peidiwch â phoeni, nid oes cefndir o ddatblygu economaidd gan y Gweinidog ychwaith.

**Alison Halford:** Yn anffodus, am y tro cyntaf—ac efallai y gwnelo'r sylw hwnnw â hyn—gwelais ymddygiad heriol ac ymosodol, tyndra mawr, a rhyw ymagwedd lym tuag at ein Cadeirydd nad yw'n ei haeddu, rhyw anniddigrwydd cyffredinol, cryn wahaniaeth barn, ynghyd ag amharodrwydd i bob golwg i weithio fel tîm. Beth yw'r agenda gudd? Sut y gall yr anniddigrwydd hwn ennyn hyder yn yr hyn y mae'r Pwyllgor hwn yn ceisio ei gyflawni? Mae'r ddogfen hon yn fan cychwyn da. Mae'n fan cychwyn synhwyrol a gonest i gynnal dadl mewn ymgynghoriad llawn.

**Alun Cairns:** Nid man cychwyn mo'r ddogfen hon. Mae'n ddiwedd y broses cyn cynnal ymgynghoriad. Cymerodd ddwy flynedd bron i gyrraedd y man hwn, gan mai'r strategaeth economaidd genedlaethol oedd y papur cyntaf oll a ystyriwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd cyntaf.

**Alison Halford:** Yn amlwg, mae ein diffiniadau o'r gair 'ymgyngori' yn wahanol iawn. Golyga ymgynghori fod yn gynhwysol, gwrando a dysgu a chanfod yr hyn y mae'r cyhoedd, a'r byd diwydiant, masnach a busnes am ei ddweud am y ddogfen hon. Pam y credwn mai dim ond yn y Pwyllgor y gellir cael yr holl arbenigedd a chyfoeth gwybodaeth am sut i ddatblygu'r economi hon? Pa neges y mae'r ddadl heddiw yn ei rhoi i'r byd busnes a'r rhai sydd yn ymrwymedig i gynyddu twf Cymru? Os na allwn gael rhywfaint o hyblygrwydd a derbyn bod gan bob dogfen gryfderau a gwendidau, byddwn yn sicr yn ymwrthod â'n rôl fel gwir arweinwyr ein cymunedau a chynrychiolwyr teilwng ein hetholwyr. Y Pwyllgor Datblygu Economaidd yw'r pwyllgor pwysicaf o bosibl o blith yr holl Bwyllgorau Pwnc. Os na fydd ein heconomi'n ffynnu, prin y gwna unrhyw beth arall. Bydd pob un o'n nodau ar gyfer

make radical improvement will falter. Wales needs strong leadership, vision, faith in itself and a formula to stop us demeaning ourselves and fighting internally when we should be building ourselves up and building the economy externally.

We have enormous talent on this Committee. We have a former Cabinet Minister who brought devolution into being. Dafydd Wigley is a former party leader and is still an MP. One of the two Assembly Members who are professors is on the Committee, and we also have a variety of skills represented, including farming and banking—you, Alun—and also, Val Feld, a former Chair of the Equal Opportunities Commission for Wales. We have a wealth of talent, and still this Committee is at odds with itself. If progress is to be made at the speed needed to deal with this volatile economy, we must work together to find solutions. We risk being seen as introverted, narrow-minded players that strut and fret their hour upon the stage. I am the first to acknowledge that Alun Cairns has a breadth and depth of knowledge of economic affairs that I could never possess. I know that he reads widely and I am sure that he believes that what he is saying is right. However, he is not the only one who is right. Life is about compromise—listen to Granny Halford on that one.

I do not have experience in drafting the document. That is not the challenge. The challenge is getting the players to sign up to it and move it forward. I will vote against this motion today, and I regret that it had to be debated. We need help, vision, courage and teamwork. Alun Cairns's—much as I like him, bless his cotton socks—picturesque, untimely and headline-grabbing rhetoric may capture the attention of Colonel Blimp and the blue rinse brigade, but it will do nothing to reassure our hard-pressed businesses and industry, which are desperate for firm leadership now.

**The Deputy Presiding Officer:** We are running out of time. Alison had six minutes instead of four, so I fear there will be a problem unless we make that time up.

gwelliant sylfaenol yn methu. Mae angen arweinyddiaeth gryf, gweledigaeth a hunanffydd ar Gymru ynghyd â fformwla a fydd yn ein hatal rhag difrio ein hunain ac ymladd yn erbyn ein gilydd ar adeg pan ddylem fod wrthi'n codi ein hunain ac adeiladu'r economi o'r tu allan.

Mae gennym ddawn ryfeddol yn y Pwyllgor hwn. Mae gennym gyn-Weinidog Cabinet a ddaeth â datganoli i fodolaeth. Mae Dafydd Wigley yn gyn-arweinydd plaid ac yn AS o hyd. Mae un o'r ddau Aelod Cynulliad sydd yn athrawon prifysgol ar y Pwyllgor, ac mae gennym amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys amaeth a bancio—chi, Alun—a hefyd, Val Feld, cyn-Gadeirydd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yng Nghymru. Mae gennym gyfoeth o ddoniau, ac eto mae'r Pwyllgor hwn yn croestynnu o hyd. Er mwyn gwneud cynnydd mor gyflym ag sydd ei angen i ymdrin â'r economi anwadal hon, rhaid inni gydweithio i ddod o hyd i atebion. Mae perygl y cawn ein hystyried yn chwaraewyr mewnblyg, cul sydd yn rhodio a threulio eu hawr ar y llwyfan. Fi fyddai'r cyntaf i gydnabod bod Alun Cairns yn meddu ar ddyfnder o wybodaeth am faterion economaidd na allwn fyth feddu arni. Gwn ei fod yn darllen yn eang ac yr wyf yn siŵr ei fod yn credu bod yr hyn a ddywed yn gywir. Fodd bynnag, nid efe yw'r unig un sydd yn gywir. Rhaid cyfaddawdu mewn bywyd—gwrandawer ar Nain Halford yn hynny o beth.

Nid oes gennyf brofiad o ddrafftio'r ddogfen. Nid dyna'r her. Yr her yw sicrhau bod pawb yn ymrwymo iddi a'i datblygu. Pleidleisiaf yn erbyn y cynnig hwn heddiw, a gresynaf wrth y ffaith bod yn rhaid cynnal dadl arni. Mae arnom angen cymorth, gweledigaeth, dewrder a gwaith tîm. Efallai y bydd Alun Cairns â'i rethreg liwgar, anamserol sydd yn bachu'r penawdau—gymaint ag yr wyf yn hoff ohono, druan bach—yn cipio sylw'r adain adweithiol a'r bobl grach, ond ni wna unrhyw beth i dawelu meddyliau pobl yn ein busnesau a'n diwydiant sydd o dan y lach, sydd yn dyheu am arweinyddiaeth gadarn ar hyn o bryd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae amser yn mynd yn brin. Cafodd Alison chwe munud yn hytrach na phedair, felly ofnaf y cawn broblem oni fyddwn yn adennill yr amser

hwnnw.

**Geraint Davies:** I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council. A successful economic strategy for Wales must tackle the problems of the Valleys. The Valleys contain some of Wales's most deprived areas. If we tackle the problems of the Valleys, we would be well on the way to tackling the economic problems of Wales as a whole. Plaid Cymru—The Party of Wales recognises that and has specific policies to address the needs of the Valleys. The problems of the Valleys have been well rehearsed in this Chamber and the problems of the demise of the heavy industry of coal and steel are still with us. These problems will be exacerbated even further if the Corus closures happen.

In the Valleys we have higher levels of unemployment than elsewhere, but even these high levels are disguised by the number who retire early and the number of people who are on long-term sickness benefits. The Valleys have a low gross domestic product per capita, which in some Valley communities is as low as 62 per cent of the European average, bearing in mind that to qualify for Objective 1, GDP per capita only needs to be 75 per cent below the average. We need specific targets for an area with such acute problems. All-Wales targets are likely to be meaningless. Deeside or Cardiff may do particularly well and mask the failure to regenerate areas such as Blaenau Gwent and the Rhondda. We need regional targets so that policies can be evaluated in a worthwhile manner. In the way a modern business has cost centres, modern Wales needs regeneration centres.

I quoted GDP per capita figures to argue the case of the Valleys' special needs. However, job creation—as Phil mentioned—is a much better target for economic regeneration than GDP. There are many reasons for that. GDP is calculated historically and, therefore, is often years out of date. Looking at jobs gives a much better indication of whether economic development is staying within the community, as GDP profits are taken out of

**Geraint Davies:** Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhaid i strategaeth economaidd lwyddiannus dros Gymru fynd i'r afael â phroblemau'r Cymoedd. Yn y Cymoedd mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Pe baem yn mynd i'r afael â phroblemau'r Cymoedd, byddem ar y trywydd iawn i fynd i'r afael â phroblemau economaidd Cymru gyfan. Mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn cydnabod hynny ac mae ganddi bolisiau penodol i fynd i'r afael ag anghenion y Cymoedd. Clywsom am broblemau'r Cymoedd lawer gwaith yn y Siambr hon ac mae'r problemau a gyfyd yn sgîl diwedd y diwydiant glo a dur gyda ni o hyd. Bydd y problemau hyn yn gwaethygu eto os gweithredir y diswyddiadau yn Corus.

Yn y Cymoedd, ceir lefelau diweithdra uwch na manau eraill, ond mae hyd yn oed y lefelau uchel hyn yn cael eu hystumio gan nifer y bobl sydd yn ymddeol yn gynnar a nifer y bobl sydd yn cael budd-daliadau salwch tymor hir. Yn y Cymoedd ceir cynnyrch mewnwladol crynswth isel, sydd, mewn rhai cymunedau, gyn ised â 62 y cant o'r cyfartaledd Ewropeaidd, o gofio mai dim ond 75 y cant yn is na chyfartaledd CMC y pen sydd ei angen er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Amcan 1. Mae arnom angen targedau penodol mewn ardal sydd â phroblemau mor llym. Bydd targedau Cymru gyfan yn debygol o fod yn ddiystyr. Efallai y bydd Glannau Dyfrdwy neu Gaerdydd yn ffynnu gan guddio'r methiant i adfywio ardaloedd fel Blaenau Gwent a'r Rhondda. Mae angen targedau rhanbarthol er mwyn gwerthuso polisiau mewn modd ystyrlon. Fel y mae gan fusnesau modern ganolfannau cost, mae angen canolfannau adfywio ar Gymru fodern.

Dyfynnais ffigurau CMC y pen er mwyn pledio achos anghenion arbennig y Cymoedd. Fodd bynnag, mae creu swyddi—fel y soniodd Phil—yn darged llawer gwell na CMC o safbwynt adfywio economaidd. Mae llawer o resymau dros hynny. Cyfrifir CMC yn hanesyddol ac, felly, yn aml ni chaiff ei ddiweddarau am flynyddoedd. Mae ystyried swyddi yn rhoi darlun llawer gwell pa un a yw datblygiad economaidd yn aros o fewn y

the community.

gymuned, wrth i elw CMC gael eu cymryd o'r gymuned.

5.00 p.m.

According to the present data, there is a need to create about 50,000 jobs in the Valley areas over the next 10 years. Traditionally, there has been a higher proportion of manufacturing jobs in the Valleys than in other areas and comparatively few well-paid service sector jobs. Our research indicates that we will need 30 per cent in the manufacturing sector and 70 per cent in the service sector. These are realistic targets that we can achieve.

Yn ôl y data presennol, mae angen creu tua 50,000 o swyddi yn y Cymoedd dros y 10 mlynedd nesaf. Yn draddodiadol, bu cyfran uwch o swyddi gweithgynhyrchu yn y Cymoedd nag mewn ardaloedd eraill ac ychydig o swyddi yn y sector gwasanaeth ar gyflog da. Dengys ein hymchwil fod angen 30 y cant yn y sector gweithgynhyrchu a 70 y cant yn y sector gwasanaeth. Mae'r rhain yn dargedau realistig y gallwn eu cyflawni.

One of the key elements of any economic strategy in the Valleys must be to create an alternative to employment to the south of them on the coastal bed. As the Welsh saying goes, '*i'r pant y rhed y dwr*'—to the hollow runs the water. We must resist this flow by developing alternative economic growth points within, and to the north of the Valleys and along the A465 Heads of the Valleys road.

Rhaid mai elfen allweddol i unrhyw strategaeth economaidd yn y Cymoedd yw creu dewis arall i gyflogaeth i'r de ar yr arfordir. Fel y noda'r dywediad Cymraeg, '*i'r pant y rhed y dŵr*'. Rhaid inni wrthsefyll y llif hwn drwy ddatblygu pwyntiau twf economaidd amgen yn y Cymoedd ac i'r gogledd iddynt ac ar hyd ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd.

This polycentric development is not only vital to sustain Valley communities but to the development of the whole of Wales. The balanced development of our country must not mean that every development occurs within five miles of the M4. To achieve this, we need improved infrastructure with improved road and rail communications within and between our Valleys. The choice of the new operator for the all-Wales rail franchise will be crucial in this.

Mae'r datblygiad amlganolfan hwn nid yn unig yn holl bwysig i gynnal cymunedau'r Cymoedd ond i ddatblygu Cymru gyfan. Ni ddylai datblygu ein gwlad yn gytbwys olygu bod pob datblygiad yn digwydd o fewn pum milltir i'r M4. Er mwyn cyflawni hyn, mae arnom angen gwell isadeiledd a gwell cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn y Cymoedd a rhwng y Cymoedd. Bydd y dewis o'r cwmni newydd ar gyfer masnachfrait rheilffordd Cymru gyfan yn holl bwysig yn hyn o beth.

We also need improved communications with the Heads of the Valleys. I make a special plea for the Rhigos Mountain road to be recognised as a strategic route that is vital for the regeneration of both Rhondda Valleys. It is closed at present due to a landslip and that has had detrimental effects on the area. There is also a need for investment in infrastructure to clean up our polluted sites.

Mae angen hefyd gysylltiadau gwell â Blaenau'r Cymoedd. Apeliaf yn daer dros gydnabod ffordd Mynydd y Rhigos fel llwybr strategol sydd yn hanfodol i adfywio'r ddau Gwm Rhondda. Mae ar gau ar hyn o bryd oherwydd tirlithriad a chafodd hynny effaith andwyol ar yr ardal. Mae angen hefyd buddsoddi yn yr isadeiledd er mwyn glanhau ein safleoedd llygredig.

I welcome the emphasis on training and skills. These were the basis of the Irish economic miracle. Universities, the further education sector and local comprehensive

Croesawaf y pwyslais ar hyfforddiant a sgiliau. Yr oedd y rhain yn sail i wyrth economaidd Iwerddon. Ar hyn o bryd mae'r prifysgolion, y sector addysg bellach a'r

schools currently undertake good initiatives in the Valleys. However, far too many students miss out. These new training initiatives must be costed so that their implications for the Assembly's budget can be assessed.

**The Deputy Presiding Officer:** You have had five minutes. I would like you to finish now.

**Geraint Davies:** We must address the paucity of small and medium-sized enterprises. We need operating aid and we need to choose an industrial sector, such as renewable energy, in which to invest. There is a need to develop tourism and e-commerce. Any economic strategy must improve the physical environment and facilities within the Valleys in order to succeed.

The Valleys are a great place to live but to survive in the twenty-first century they need attention and investment. They must not be ignored as they have been in the past.

**Glyn Davies:** From the day that I accepted the reality of the National Assembly, the Conservative response was to do all that we could to ensure that it is a success. There are many different ways of measuring success—probably every Member has a different way—but for me the measurement of success that really matters is that the Assembly would benefit the economy of Wales. The only way that we would make the people of Wales accept the Assembly and come to regard it with affection was if their economic prospects were improved. That is one reason why I constantly argue against what I perceive to be a waste of the resources that should be invested in economic development.

I now turn to the national economic development strategy. How do we face the challenge of making Wales a more economically beneficial place in which to live? I accept that we must have a detailed assessment of where we are, where we are going, and, perhaps most importantly, how we get there. Much work has been done on where we were before the Assembly was in place and since. The strategy provides more

ysgolion cyfun lleol yn ymgymryd â mentrau da yn y Cymoedd. Fodd bynnag, mae llawer gormod o fyfyrwyr yn colli cyfle. Rhaid i'r mentrau hyfforddi newydd hyn gael eu prasio er mwyn asesu eu goblygiadau i gyllideb y Cynulliad.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cawsoch bum munud. A wnewch orffen yn awr os gwelwch yn dda.

**Geraint Davies:** Rhaid inni fynd i'r afael â phrinder mentrau bach a chanolig eu maint. Mae arnom angen cymorth gweithredu ac mae angen inni ddewis sector diwydiannol, megis ynni adnewyddadwy, y gallwn fuddsoddi ynddo. Mae angen datblygu twristiaeth ac e-fasnach. Rhaid i unrhyw strategaeth economaidd wella'r amgylchedd ffisegol a'r cyfleusterau yn y Cymoedd er mwyn iddi fod yn llwyddiant.

Mae'r Cymoedd yn lle gwych i fyw ond er mwyn goroesi'r unfed ganrif ar hugain mae angen sylw a buddsoddiad arnynt. Rhaid peidio â'u hanwybyddu fel y'u hanwybyddwyd yn y gorffennol.

**Glyn Davies:** O'r diwrnod pan dderbyniais realiti'r Cynulliad Cenedlaethol, ymateb y Ceidwadwyr oedd gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y byddai'n llwyddo. Mae llawer o ffyrdd gwahanol i fesur llwyddiant—mae gan bob Aelod ffordd wahanol siŵr o fod—ond i mi y llinyn mesur pwysig yw y byddai'r Cynulliad o fudd i economi Cymru. Yr unig ffordd y byddem yn sicrhau bod pobl Cymru yn derbyn y Cynulliad a dod yn hoff ohono oedd pe bai eu rhagolygon economaidd yn gwella. Dyna un rheswm pam fy mod bob amser yn dadlau yn erbyn yr hyn sydd, yn fy marn i, yn gwastraffu'r adnoddau y dylid eu buddsoddi mewn datblygu economaidd.

Trof yn awr at y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Sut yr wynebwn yr her o sicrhau bod Cymru yn lle llawer mwy manteisiol yn economaidd i fyw ynddo? Derbyniaf fod yn rhaid inni gael asesiad manwl o ble yr ydym, i ble yr ydym yn mynd, ac, efallai yn bwysicaf oll, sut y cyrhaeddwn yno. Gwnaethpwyd llawer o waith ar ble yr ydym cyn bodolaeth y Cynulliad ac ers hynny. Rhydd y strategaeth

information on that. There is also much information on where we want to go, particularly in the single programming documents and much of the other work that we have done. I expected the national economic development strategy to outline how we would get from one to the other. It does not do that. It is a well-written document, a good read and a well-argued analysis. However, unless it outlines how it will deliver the aspirations to which it refers, it serves no real new purpose. Minister, it is time for you to tell us what you intend to do and how you intend to acquire resources and distribute them. There is more to being a Minister than driving around in a chauffeur-driven limousine. You must outline what you think will deliver the policies that you refer to in this document.

This week, in a written answer to me, you stated that you expected the gross domestic product per capita of west Wales and the Valleys to rise from, I think, 73 per cent to 78 per cent. That is an ambitious target. How do you plan to achieve that? Will there be more resources in economic development? Do not quote the comprehensive spending review, because that applies to the whole of Britain. We are playing catch-up in Wales and that is what we are talking about. Will more money be taken from health resources in the Assembly? I have heard that point argued rationally, but is that your policy? Will more money be taken from education, despite the fact that headteachers are already complaining that they lose out in Wales compared with England and Scotland? Will it be taken from local government where, for the third year in a row, there will be massive council tax increases? Will it come from Westminster? I think not, especially given the way that the First Minister has been handbagging the Islington set. I suspect that if he asked for more resources he would get a finger in the eye.

Without the 'how', the national economic development strategy document is only suitable for consultation, and that is how you have sold it. In my view, the Committee was unable to endorse this document. There is

lawer o wybodaeth am hynny. Ceir llawer o wybodaeth hefyd ynghylch ble yr ydym am fynd, yn enwedig yn y dogfennau rhaglennu sengl ac mewn llawer o'r gwaith arall a wnaethom. Yr oeddwn yn disgwyl i'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol nodi sut y byddem yn mynd o'r naill le i'r llall. Ni wna hynny. Mae'n ddogfen sydd wedi ei hysgrifennu'n dda, yn ddiddorol ac yn ddadansoddiad craff. Fodd bynnag, oni noda sut y bydd yn gwireddu'r dyheadau y cyfeiria atynt, nid oes unrhyw ddiben newydd gwirioneddol iddi. Weinidog, mae'n bryd ichi ddweud wrthym am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud a sut y bwriadwch gael yr adnoddau a'u dyrannu. Mae bod yn Weinidog yn golygu mwy na chael eich cludo o gwmpas mewn limwsîn â gyrrwr. Rhaid ichi nodi'r hyn a fydd, yn eich barn chi, yn cyflawni'r polisiau y cyfeiriwch atynt yn y ddogfen hon.

Yr wythnos hon, mewn ateb ysgrifenedig imi, dywedasoich eich bod yn disgwyl i gynnyrch mewnwladol crynswth y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gynyddu o 73 y cant, fe gredaf, i 78 y cant. Mae hwnnw'n darged uchelgeisiol. Sut y bwriadwch gyflawni hynny? A gaiff datblygu economaidd ragor o adnoddau? Peidiwch â dyfynnu'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, am fod hwnnw'n berthnasol i bob rhan o Brydain. Dal i fyny yr ydym yng Nghymru a dyna beth yr ydym yn sôn amdano. A gaiff mwy o arian ei dynnu oddi wrth adnoddau iechyd yn y Cynulliad? Clywais y pwynt hwnnw yn cael ei ddadlau'n rhesymegol, ond ai hwnnw yw'ch polisi? A gaiff mwy o arian ei dynnu oddi wrth addysg, er gwaethaf y ffaith fod penaethiaid ysgolion eisoes yn cwyno eu bod ar eu colled yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban? A gaiff ei dynnu oddi wrth lywodraeth leol, lle y bydd cynnydd enfawr yn y dreth gyngor am y drydedd flwyddyn yn olynol? A ddaw o San Steffan? Ni chredaf hynny, yn enwedig o ystyried y modd y bu Prif Weinidog Cymru yn beirniadu criw Islington. Credaf y câi fys yn ei lygad pe bai'n gofyn am ragor o adnoddau.

Heb y 'sut', nid yw dogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ond yn addas i ymgynghoriad, a dyna sut yr ydych wedi ei chyflwyno. Yn fy marn i, ni allai'r Pwyllgor gymeradwyo'r ddogfen hon. Mae



argument about the words used to describe the Committee's reaction to the document: Alun feels that it was rejected, others feel it was not endorsed. I think that it was just not ready for consultation. You should decide on what you think should happen. You should produce a meaningful document that invites a meaningful response. You should finish the strategy, put flesh on the bones and call the spirits from the deep.

**Ron Davies:** I will not support the Conservative party motion. Any proposition suggesting that the Conservatives, given their track record and their future policies, have anything to offer to solve the problems of agriculture or manufacturing is untenable.

**Alun Cairns** *rose*—

**Ron Davies:** I would love to engage in a debate, but time is pressing. I hope that I get injury time for that intervention.

I acknowledge that there is much that is good in the document. I do not argue with the analysis, the key objectives or the policy priorities as far as they go. However, the document as a whole lacks credibility. On the one hand it fails to deal with the immediate problems that face the Welsh economy while, on the other, its content and scope are too limited to offer the more substantial analysis and prescriptions to which it lays claim. There has been an inadequate consideration of what it is intended to do and this flaw lies at its heart.

The latest GDP per capita figures reveal that the Welsh economy operates at less than 80 per cent of the UK average. That is an all-time low in relation to the UK as a whole and that is even before we take into account the adverse impact of the Corus announcement and other recent manufacturing setbacks. The latest figures from the Office for National Statistics on unfilled vacancies and the growth in employment show that that gap continues to widen. The National Assembly's independent forecasters confirm that divergence rather than convergence is the present trend. An immediate plan of action is

gwahaniaeth barn ynglŷn â'r geiriau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio ymateb y Pwyllgor i'r ddogfen: cred Alun iddi gael ei gwrthod, cred eraill nas cymeradwywyd. Yn fy marn i, y gwir yw nad oedd yn barod ar gyfer ymgynghoriad. Dylech benderfynu beth a ddylai ddigwydd yn eich barn chi. Dylech lunio dogfen ystyrion sydd yn gofyn am ymateb ystyrion. Dylech gwblhau'r strategaeth, rhoi cig ar yr esgryn a galw ar yr ysbrydion o'r entrychion.

**Ron Davies:** Ni chefnogaf gynnig y Ceidwadwyr. Ni ellir dal at unrhyw gynnig sydd yn awgrymu bod gan y Ceidwadwyr, o gofio eu hanes a'u polisiau ar gyfer y dyfodol, unrhyw beth i'w gynnig i ddatrys problemau amaethyddiaeth a'r sector gweithgynhyrchu.

**Alun Cairns** *a gododd*—

**Ron Davies:** Hoffwn ddadlau â chi, ond mae amser yn brin. Gobeithiaf y caf amser ychwanegol ar gyfer yr ymyriad hwnnw.

Cydnabyddaf fod llawer o rinweddau i'r ddogfen hon. Nid amheuf y dadansoddiad, yr amcanion allweddol na'r blaenoriaethau polisi o ran hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw hygredd yn perthyn i'r ddogfen hon yn ei chyfanrwydd. Ar y naill law, mae'n methu ag ymdrin â'r problemau presennol a wyneba economi Cymru tra, ar y llaw arall, mae ei chynnwys a'i chwmpas yn rhy gyfyngedig i gynnig y dadansoddiad a'r atebion mwy sylweddol y mae'n honni ei bod yn eu darparu. Ni fu digon o ystyriaeth i'r hyn y bwriedir iddi ei wneud ac mae'r diffyg hwn wrth graidd y ddogfen.

Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer CMC y pen fod economi Cymru'n gweithredu yn ôl llai na 80 y cant o gyfartaledd y DU. Dyma'r ganran isaf erioed mewn perthynas â'r DU gyfan ac mae hynny cyn inni ystyried effaith andwyol cyhoeddiad Corus a'r problemau eraill yn y byd gweithgynhyrchu yn ddiweddar. Dengys y ffigurau diweddaraf o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar swyddi gwag a thwf mewn cyflogaeth fod y blwch yn tyfu o hyd. Cadarnha rhagolygwyr annibynnol y Cynulliad Cenedlaethol fod y bwlech ar hyn o bryd yn tyfu yn hytrach na lleihau. Mae angen cynllun gweithredu ar unwaith i

needed to stimulate the Welsh economy. There is an obvious way to do that. It is traditional, but it works. There must be a substantial increase in public sector expenditure in areas that are likely to affect economic growth. That means investing more money into transport and communications infrastructure, a substantial increase in local authorities' capital programmes to allow them to take forward their own plans, an acceleration of WDA programmes, with an enhanced budget, and more money for education, with a boost for post-16 training and university departments that interface with the private sector economy.

There is little point in talking, as the national economic development strategy does, about a vision for 10 or 15 years' hence when there are serious and immediate issues that need to be addressed now. That action requires substantial sums of money. The solution will not be found by abandoning the Wales Millennium Centre in Cardiff and redirecting resources to Ebbw Vale. The issue that we face is not about redistributing slices of the cake but increasing the size of the cake. Whatever the merits of the Barnett formula over the past years, there is now one inescapable fact: the existing block formula system is disadvantaging Wales. The Barnett block, being historically determined, does not reflect the social and economic difficulties that Wales has experienced over the last 20 years, and is leading to convergence of levels of public expenditure vis-à-vis England, rather than divergence, as our economic and social needs demand. This is not whingeing; it is a matter of the basic socialist principles of equity, redistribution and social justice. The present system of financing Welsh public expenditure should be scrapped, and replaced with a needs-based system. That is the single most important issue facing the National Assembly and, until it is resolved, we have no realistic prospects of successfully tackling our economic deficit or our social problems. I thought that that was Liberal Democrat policy and I am, therefore, surprised that there is no mention of it in the national economic development strategy document.

5.10 p.m.

symbylu economi Cymru. Mae ffordd amlwg o wneud hynny. Mae'n draddodiadol, ond mae'n llwyddo. Rhaid bod cynnydd sylweddol mewn gwariant yn y sector cyhoeddus yn y meysydd sydd yn debygol o effeithio ar dwf economaidd. Golyga hynny fuddsoddi mwy o arian yn yr isadeiledd trafniadaeth a chysylltiadau, cynnydd sylweddol yn rhaglenni cyfalaf awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, sbarduno rhaglenni'r WDA, ynghyd â chyllideb fwy, a rhagor o arian ar gyfer addysg, gan roi hwb i hyfforddiant ôl-16 ac adrannau prifysgolion sydd yn rhyngwynebu ag economi'r sector preifat.

Ni thâl siarad, fel y gwna'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, am weledigaeth ymhen 10 neu 15 mlynedd pan fo materion difrifol y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Mae'r camau hynny'n gofyn am arian sylweddol. Ni ddeuir o hyd i'r ateb drwy roi'r gorau i Ganolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ac ailgyfeirio adnoddau i Lynebwy. Nid a wnelo'r broblem a wynebwn ag ailddyrrannu tafelli o deisen ond cynyddu maint y deisen. Pa rinweddau bynnag a fu i fformwla Barnett yn y gorffennol, mae un ffaith anochel: mae'r system fformwla bloc bresennol o anfantais i Gymru. Nid yw bloc Barnett, a bennwyd yn hanesyddol, yn adlewyrchu'r anawsterau cymdeithasol ac economaidd a wynebai Cymru yn ystod y 20 mlynedd diwethaf, ac mae'n arwain at y bwlch mewn lefelau gwariant cyhoeddus, o'i gymharu â Lloegr, yn lleihau, yn hytrach na thyfu, wrth ateb ein gofynion economaidd a chymdeithasol. Nid cwyno yr wyf, mater ydyw o egwyddorion sylfaenol sosialaidd sef tegwch, ailddosbarthu a chyfiawnder cymdeithasol. Dylid diddymu'r system bresennol o ariannu gwariant cyhoeddus Cymru, a rhoi system yn seiliedig ar angen yn ei lle. Dyna'r mater pwysicaf a wyneba'r Cynulliad Cenedlaethol ac, hyd nes yr ymdrinnir ag ef, nid oes gennym unrhyw obaith mewn gwirionedd o fynd i'r afael â'n diffyg economaidd a'n problemau cymdeithasol. Credais mai hynny oedd polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol a synnaf felly nad oes unrhyw sôn am hynny yn nogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.

This document is not entitled to be called a strategy. A strategy should set clear and achievable targets, analyse the major influences on the possible delivery of that strategy, specify how it will be delivered, by whom, when and where, and it should make clear how the proposed action will be carried through, how much it will cost and how that cost will be met. The national economic development strategy document does not answer any of these questions. The present combination of policies and expenditure has produced a Welsh economy systematically falling below the UK average. Reversing this trend will require a change in policy and expenditure levels. Policy change as forecast in national economic development strategy is minimal. There has been no analysis, despite frequent debate, of the merit of different types of expenditure in the economic development main expenditure group. We do not know, for example, whether increasing Wales Tourist Board expenditure will be more effective than increasing WDA expenditure as a means of accelerating economic growth. We do not know the value or the cost per job of the various National Assembly programmes. There has been no meaningful discussion or analysis of, for example, local authority economic development programmes as opposed to the contribution of higher education.

Finally, I will refer to the available budgets. We must examine carefully the money that is available and how it is spent. Other than the European regional programmes, the national economic development strategy document reveals that cash expenditure on the economic development main expenditure group will be virtually static over the next three years. The total cash increase is over £200 million. However, of this, £182 million will come directly from Europe. If you take out inflation, the Objective 1 match funding and the unaccountable estimate for regional selective assistance increases, three years hence, the amount of money available to deliver Mike's economic miracle in 2004 is likely to be less than it is in 2001. Objective 1 is available from Europe to help meet the proven existing underperformance of the Welsh economy. The national economic

Nid yw'r ddogfen hon yn haeddu cael ei galw'n strategaeth. Dylai strategaeth nodi targedau clir a chyflawnadwy, dadansoddi'r prif ddylanwadau ar sut y gellir cyflawni'r strategaeth honno o bosibl, manylu ar sut y'i cyflawnir, gan bwy, pryd a ble, a dylai egluro sut y caiff y camau arfaethedig eu cymryd, faint y bydd yn ei gostio a sut y telir am y gost honno. Nid yw dogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn ateb unrhyw un o'r cwestiynau hyn. Mae'r cyfuniad presennol o bolisiâu a gwariant wedi arwain at economi yng Nghymru sydd yn disgyn yn is na chyfartaledd y DU yn systematig. Er mwyn newid y duedd hon bydd angen newid polisi a lefelau gwariant. Bach iawn yw'r newidiadau polisi fel y rhagwelir yn nogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Ni fu unrhyw ddadansoddi, er gwaethaf y ddadl gyson ynghylch rhinweddau'r gwahanol fathau o wariant yn y prif grŵp gwariant datblygu economaidd. Ni wyddom, er enghraifft, a fydd cynyddu gwariant Bwrdd Croeso Cymru yn fwy effeithiol na chynyddu gwariant yr WDA fel modd o sbarduno twf economaidd. Ni wyddom beth yw gwerth neu gost fesul swydd amryfal raglenni'r Cynulliad Cenedlaethol. Ni fu unrhyw drafodaeth ystyrion am, er enghraifft, raglenni datblygu economaidd awdurdodau lleol o'i gymharu â chyfraniad addysg uwch na dadansoddiad ohonynt.

I gloi, cyfeiriaf at y cyllidebau sydd ar gael. Rhaid inni ystyried yr arian sydd ar gael a sut y'i gwerir yn fanwl. Heblaw am y rhaglenni rhanbarthol Ewropeaidd, noda dogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol y bydd gwariant yn nhermau arian ar y prif grŵp gwariant datblygu economaidd yn aros yr un peth bron yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae cynnydd o dros £200 miliwn yn y cyfanswm yn nhermau arian. Fodd bynnag, o'r swm hwn, daw £182 miliwn yn uniongyrchol oddi wrth Ewrop. Os diystyrwch chwyddiant, arian cyfatebol Amcan 1 a'r cynnydd yn y cymorth dethol rhanbarthol na ellir ei gyfrifo, ymhen tair blynedd bydd yr arian sydd ar gael i wireddu gwyrrth economaidd Mike yn 2004 yn debygol o fod yn llai na'r hyn sydd ar gael yn 2001. Mae Amcan 1 ar gael oddi wrth Ewrop er mwyn helpu wrth unioni'r tanberfformiad

development strategy document says that the money flowing from Objective 1 status is, effectively, the total available additional resource to turn around the Welsh economy, implement any initiatives that may be adopted from national economic development strategy and maintain a rate of economic growth that we have never achieved before, to be sustained over a 10-year period. That is not credible. It elevates wishful thinking to an art form and substitutes hope for realism. By chasing clouds, we will give hostages to future fortune and ignore the real choices that face us today. I hope that time will prove me wrong.

**Val Feld:** I would like to make it clear that not all Economic Development Committee members think that this document is inadequate or that now is not the right time for consultation. I firmly believe that it is way past time to consult on this fundamental issue. I take issue with Ron's comment that there was inadequate consideration of what it is meant to achieve. I do not know on what you have been concentrating in the meetings. The Committee has had several discussions on this document over the last 18 months. I have always perceived and understood from others that we were considering a long-term strategy, and that we were working to set a framework in which the Welsh economy would grow over a sustained period, which is necessary because we have so much to do. Not only have we have tried to map the entire territory of current problems—on which we have much information—but we have mapped the issues and areas for activity, which has not been done before. Geraint made that point clearly when he talked about a range of issues that need to be tackled to regenerate the Welsh economy.

This document determines what needs to be done, the kinds of businesses that we want to grow, and how and where we want them to grow. It determines what we need to do in terms of our people, their skills, education, achievements and potential and what we need to do to make our businesses more competitive, keep our existing businesses and

presennol a brofwyd yn economi Cymru. Dywed dogfen y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol mai'r arian sydd yn llifo o statws Amcan 1, i bob diben, fydd cyfanswm yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael i adfer economi Cymru, gweithredu unrhyw fentrau y gellir eu mabwysiadu o'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol a chynnal cyfradd twf economaidd na welwyd erioed o'r blaen, a'i chynnal dros gyfnod o 10 mlynedd. Nid yw hynny'n gredadwy. Dyna freuddwyd gwrrach heb os ac yn lle realaeth cynigia obaith. Drwy redeg ar ôl cysgodion, byddwn yn rhoi gwystlon ffawd yn y dyfodol gan anwybyddu'r gwir ddewisiadau a wynebwn heddiw. Gobeithiaf y caf fy ngwrthbrofi yn nhreigl amser.

**Val Feld:** Hoffwn egluro nad yw pob aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd o'r farn bod y ddogfen hon yn annigonol neu nad dyma'r adeg briodol i gynnal ymgynghoriad. Credaf yn gryf ei bod yn hen bryd inni ymgynghori ar y mater sylfaenol hwn. Anghytunaf â sylw Ron na roddwyd digon o ystyriaeth i'r hyn y mae i fod i'w gyflawni. Ni wn am beth y buoch yn pendroni yn y cyfarfodydd. Cafodd y Pwyllgor sawl trafodaeth ar y ddogfen hon yn ystod y 18 mis diwethaf. Yr argraff a gefais erioed a'r hyn a ddeallais gan bobl eraill yw ein bod yn ystyried strategaeth dymor hir, a'n bod yn gweithio i bennu fframwaith lle y byddai economi Cymru yn tyfu dros gyfnod maith, sydd yn angenrheidiol am fod gennym gymaint i'w wneud. Yr ydym nid yn unig wedi ceisio mapio holl gylch ein problemau presennol—y mae gennym lawer o wybodaeth amdanynt—ond yr ydym wedi mapio'r materion a'r meysydd o weithgarwch, nas gwnaethpwyd o'r blaen. Nododd Geraint y pwynt hwnnw yn glir pan siaradodd am ystod o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn adfywio economi Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn pennu yr hyn y mae angen ei wneud, y mathau o fusnesau yr ydym am eu datblygu, a sut a ble yr ydym am eu datblygu. Mae'n pennu yr hyn y mae angen inni ei wneud o ran ein pobl, eu sgiliau, addysg, cyflawniadau a photensial a'r hyn y mae angen inni ei wneud i sicrhau bod ein busnesau'n fwy cystadleuol, ein bod yn

ensure that we export goods and bring more money into Wales. It highlights what we need to do to develop Wales's role internationally to open up new opportunities in tourism, inward investment, and exports; what we need to do in terms of infrastructure, roads and information and communications technology, and the measures that need to be put in place to enable the economy to grow sustainably.

In this document we also recognise the fundamental importance of increasing economic activity. I know that Phil agrees that creating jobs is one thing, but that ensuring that our people are fit and able and that there are no barriers to them taking those jobs is another and fundamental to increasing our GDP per capita. Also, for the first time, this document starts to set out the case for spatial planning and regional development, which is important to the vast majority of Assembly Members.

**The Deputy Presiding Officer:** Will you draw to a close?

**Val Feld:** I will, but I just want to say one or two words on targets because that has been the subject of much debate.

**The Deputy Presiding Officer:** You have had three minutes. Please bring your speech to a close.

**Val Feld:** I will do so quickly.

The question of targets is raised, but it is raised for us to consider the range of potential targets that we should develop. It is fundamental that we engage the people who will deliver these programmes across Wales, enabling us to set targets and programmes that can bring about sustainable change. I am not surprised that the Conservatives do not like it.

**The Deputy Presiding Officer:** Val, I ask you to resume your seat.

**Val Feld:** The Conservatives do not like driving and planning our economy, but that is what people expect of us.

cadw ein busnesau presennol ac yn sicrhau ein bod yn allforio nwyddau ac yn dod â mwy o arian i Gymru. Pwysleisia yr hyn y mae angen inni ei wneud i ddatblygu rôl Cymru yn rhyngwladol er mwyn cynnig cyfleoedd newydd mewn twristiaeth, mewnfuddsoddi, ac allforion; yr hyn y mae angen inni ei wneud o ran isadeiledd, ffyrdd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a'r mesurau y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn i'r economi dyfu mewn modd cynaliadwy.

Yn y ddogfen hon, yr ydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol cynyddu gweithgarwch economaidd. Gwn fod Phil yn cytuno mai un peth yw creu swyddi, ond peth arall yw sicrhau bod ein pobl yn gymwys ac nad oes rhwystrau iddynt ymgymryd â'r swyddi hynny a bod hynny'n hanfodol i gynyddu ein CMC y pen. Hefyd, am y tro cyntaf, mae'r ddogfen hon yn dechrau dadlau dros gynllunio gofodol a datblygu rhanbarthol, sydd yn bwysig i'r mwyafrif llethol o Aelodau'r Cynulliad.

**Y Dirprwy Lywydd:** A wnewch chi ddirwyn i ben?

**Val Feld:** Gwnaf ond hoffwn ddweud ychydig eiriau am dargedau am fod cymaint o ddadlau wedi bod yn eu cylch.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cawsoch dair munud. A wnewch chi ddirwyn eich araith i ben?

**Val Feld:** Gwnaf hynny yn union.

Codwyd y mater o dargedau, ond fe'i codwyd er mwyn inni ystyried yr ystod o dargedau posibl y dylem eu datblygu. Mae'n hanfodol inni gysylltu â'r bobl a fydd yn cyflwyno'r rhaglenni hyn ledled Cymru, gan ein galluogi i bennu targedau a rhaglenni a all arwain at newid cynaliadwy. Ni synnaf nad yw'r Ceidwadwyr yn hoffi hynny.

**Y Dirprwy Lywydd:** Val, Gofynnaf ichi eistedd i lawr.

**Val Feld:** Nid yw'r Ceidwadwyr yn hoffi llywio a chynllunio ein heconomi, ond dyna'r hyn y mae pobl yn disgwyl inni ei wneud.

**Michael German:** This is an interesting motion because it refers to a document that does not yet exist. I am pleased to ask the Assembly to reject the motion on the grounds that it is incompetent.

It has been made clear that the national economic development strategy will be published in the summer, after the consultation period has concluded. The document that has been published is a consultation paper designed to inform the development of the national economic development strategy. I know that the Conservatives find that distinction difficult. Over the next three months, I will ensure that an intense period of consultation is conducted across a matrix structure, which takes account of the views of the economic regions of Wales, and our partners. It will be subject to interdepartmental consultation in the National Assembly, at political and official levels.

I am interested to note that Alun Cairns attacked the issue of clusters vigorously despite claiming that there are no policies in this document. That is a policy in this document.

**Alun Cairns** *rose—*

**Michael German:** I will not give way for a moment. I will let you speak later, when you have heard a few more things that I have to say.

I welcome a debate on policy, although this is the first time that we have heard that from the Conservatives. Now, there will be an opportunity for the Conservatives to take part in the discussion on sector selectivity and clusters. These are key parts of the change in our economic policy. This consultation paper asks questions and seeks views. It puts forward ideas for improving Welsh economic performance, but they are not set in stone. It is as much about stimulating creative thinking in our consultees as suggesting prescriptive solutions. I am determined that our minds should not be closed to new thinking. It puts forward new policy priorities that the National Assembly can formulate,

**Michael German:** Mae hwn yn gynnig diddorol am ei fod yn cyfeirio at ddogfen nad yw'n bodoli eto. Mae'n dda gennyf ofyn i'r Cynulliad wrthod y cynnig am y rheswm nad yw'n gymwys.

Eglurwyd y caiff y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ei chyhoeddi yn yr haf, ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd yn bapur ymgynghorol â'r nod o lywio datblygiad y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Gwn ei bod yn anodd i'r Ceidwadwyr ddeall y gwahaniaeth hwnnw. Yn ystod y tri mis nesaf, byddaf yn sicrhau y cynhelir cyfnod ymgynghori dwys ar draws strwythur matrices a fydd yn ystyried safbwyntiau rhanbarthau economaidd Cymru, a'n partneriaid. Cynhelir ymgynghoriad rhyngadrannol arni yn y Cynulliad Cenedlaethol, ar lefel y gwleidyddion a'r swyddogion.

Mae'n ddiddorol nodi bod Alun Cairns wedi ymosod yn ffyrnig ar fater clystyrau er gwaethaf y ffaith iddo honni nad oes unrhyw bolisiau yn y ddogfen hon. Dyna un o'r polisiau sydd yn y ddogfen hon.

**Alun Cairns** *a gododd—*

**Michael German:** Nid ildiaf yn awr. Gadawaf ichi siarad ymhen ychydig, ar ôl ichi glywed ychydig mwy o'r pethau yr wyf am eu dweud.

Croesawaf ddadl ar bolisi, er mai dyma'r tro cyntaf inni glywed hynny gan y Ceidwadwyr. Bellach, bydd cyfle i'r Ceidwadwyr gymryd rhan yn y drafodaeth ar ddetholusrwydd sector a chlystyrau. Mae'r rhain yn rhannau allweddol o'r newid yn ein polisi economaidd. Mae'r papur ymgynghorol hwn yn gofyn cwestiynau ac yn ceisio barn. Cynigia syniadau ar gyfer gwella perfformiad economaidd Cymru, ond nid ydynt ar eu ffurf derfynol o reidrwydd. Symbylu meddwl creadigol yn ein hymgyngoreion yw'r nod, llawn cystal ag awgrymu atebion pendant. Yr wyf yn benderfynol na ddylem gau ein meddyliau i ddulliau newydd o feddwl. Cynigia flaenoriaethau polisi newydd y gall y

fund and execute.

Cynulliad Cenedlaethol eu llunio, eu hariannu a'u rhoi ar waith.

5.20 p.m.

However, for a strategy to be successful, we must have maximum buy-in from the organisations and individuals throughout Wales who will be affected by it. I hope to have that as a result of this consultation. Most of the document is dedicated to policy issues and is jam-packed with policy proposals emerging from the analysis. I propose key policy priorities to deliver the vision, which is closing the regional productivity gap.

I take issue with Phil about the target for the number of jobs to be created. The statement recognised that GDP per capita may not be an effective measure. On Ron's point about GDP, all we have is the level when he was Secretary of State for Wales, three years ago, and even those are provisional figures. We do not know the level of GDP per capita for the last year. It is right that we should have other tools and measures. On the target of 100,000 jobs, I note that your e-mail quotes the figure that Plaid Cymru used in its strategy. I recognise that that figure has been cleared up in this document.

However, the issue of clusters and sectors has not been taken on board in any previous government, party, Assembly or Welsh Office national economic strategy. Skills, training and education are critical to assisting this step change. Internationalisation is also a key part of the strategy. This morning, I attended a session with potential exporters in which I announced an increase in the money that has been made available to Wales Trade International to help to build our export base. We must tackle the activity gap by fighting unemployment and economic inactivity.

There are key policies included in the consultation document. I am glad that we can have a debate on strategic clusters because that is what I want the partnership

Fodd bynnag, er mwyn i strategaeth fod yn llwyddiannus, rhaid inni gael yr ymrwymiad mwyaf posibl oddi wrth y mudiadau a'r unigolion ledled Cymru y bydd yn effeithio arnynt. Gobeithiaf gyflawni hynny o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r ddogfen yn ymdrin â materion polisi ac yn llawn o gynigion polisi sydd yn deillio o'r dadansoddiad. Cynigiaf flaenoriaethau polisi allweddol er mwyn gwireddu'r weledigaeth, sef cau'r bwch mewn cynhyrchiant rhanbarthol.

Anghytunaf â Phil ynglŷn â'r targed ar gyfer nifer y swyddi i'w creu. Cydnabu'r datganiad efallai nad yw CMC y pen bob amser yn llinyn mesur effeithiol. O ran pwynt Ron ar CMC, y cyfan sydd gennym yw'r lefel pan oedd yntau'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru, dair blynedd yn ôl, ac mae hyd yn oed y ffigurau hynny yn rhai dros dro. Ni wyddom beth oedd lefel CMC y pen y llynedd. Mae'n briodol inni gael arfau a mesurau eraill. O ran y targed o 100,000 o swyddi, nodaf fod eich e-bost yn dyfyngu'r ffigur a ddefnyddiwyd gan Blaid Cymru yn ei strategaeth. Cydnabyddaf i'r ffigur hwnnw gael ei egluro yn y ddogfen hon.

Fodd bynnag, ni fu unrhyw lywodraeth flaenorol, na phlaid, na'r Cynulliad a'r Swyddfa Gymreig erioed yn ymdrin â'r mater o glystyrau a sectorau mewn strategaeth economaidd genedlaethol. Mae sgiliau, hyfforddiant ac addysg yn holl bwysig i gyflawni'r newid sylweddol hwn. Mae rhyngwladoli hefyd yn rhan allweddol o'r strategaeth. Y bore yma, mynychais sesiwn gydag allforwyr posibl lle y cyhoeddais gynnydd yn yr arian sydd ar gael i Masnach Cymru Rhyngwladol er mwyn helpu i ddatblygu ein sail allforio. Rhaid inni fynd i'r afael â'r blwch gweithgarwch drwy wrthsefyll diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnwys polisiâu allweddol. Yr wyf yn falch ein bod yn gallu cynnal dadl ar glystyrau strategol am mai dyna'r hyn yr wyf am i'r Llywodraeth

Government to do. Included in the document are the other seven or eight key policies that I read out at our last debate on this matter.

To correct David Davies, the words 'fiscal variation' in the document refer to taxation, so I hope, David, that you will do some homework on that matter. Furthermore, several Scandinavian states are not outside the European Union. Only Norway, which has to implement all the European economic directives because it is part of the European economic area, is outside the EU. I wonder if your comments are an example of seeing Norway as being run by Europe but not part of Europe. Maybe that is part of your new strategy to try to defeat development across the European base. I hope that you will take that on board.

I turn to targets. The existing target, to which we have signed up as an Assembly, is to reach 90 per cent of UK average GDP per capita by 2010. I recognise that that is a challenging task. To close the gap, we need more and better jobs. The 100,000 new jobs at average productivity level will take Welsh GDP per capita to 86 per cent of the UK average. Attracting better quality jobs will further close the gap, as will demand measures such as increasing exports.

The target is challenging, but to aim for anything less would be to condemn Wales to the bottom of the UK prosperity league. We would be accepting that Wales would always have a third-rate economy. How dare we say to the people of Wales that in 10 years' time we will not be able to get halfway towards closing the prosperity gap with the rest of the UK?

The paper contains a range of targets that will be used to underpin the main headline. Factors such as increased economic activity, higher-skills levels and new business formation all contribute to growth. Other issues, such as regional targeting and qualitative indicators are also discussed and will be part of the consultation.

I have set out a vision for the future without losing sight of the present. The manufacturing sector will continue to be a

partneriaeth ei wneud. Yn y ddogfen mae saith neu wyth polisi allweddol a ddarllenais ichi yn ein dadl ddiwethaf ar y mater hwn.

I gywiro David Davies, cyfeiria'r geiriau 'amrywio cyllidol' yn y ddogfen at drethiant, felly gobeithiaf, David, y gwnewch ychydig o waith cartref ar y pwnc hwnnw. At hynny, nid oes sawl gwladwriaeth Sgandinafaidd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Dim ond Norwy, ac y mae'n rhaid iddi weithredu'r holl gyfarwyddbau economaidd Ewropeaidd am ei bod yn rhan o'r ardal economaidd Ewropeaidd, sydd y tu allan i'r UE. Tybed a yw'ch sylwadau'n enghraifft o weld Norwy yn cael ei rhedeg gan Ewrop ond heb fod yn rhan o Ewrop. Efallai mai dyna ran o'ch strategaeth newydd i geisio atal datblygiad ar draws Ewrop. Gobeithiaf yr ystyriwch hynny.

Trof at dargedau. Y targed presennol, y cytunasom arno fel Cynulliad, yw cyrraedd 90 y cant o gyfartaledd y DU ar gyfer CMC y pen erbyn 2010. Cydnabyddaf fod hynny'n gryn sialens. Er mwyn cau'r bwlch, mae arnom angen mwy o swyddi a swyddi gwell. Bydd y 100,000 o swyddi newydd ar lefel cynhyrchiant cyfartalog yn codi CMC y pen yng Nghymru i 86 y cant o gyfartaledd y DU. Bydd denu gwell swyddi yn cau'r bwlch ymhellach, ynghyd â gofynion megis cynyddu allforion.

Mae'r targed yn heriol, ond byddai anelu at unrhyw beth llai yn condemnio Cymru i fod ar waelod cynghrair ffyniant y DU. Byddem yn derbyn y byddai economi drydedd radd o hyd yng Nghymru. Sut y beiddiwn ddweud wrth bobl Cymru na allwn gau hyd yn oed hanner y bwlch o ran ffyniant o gymharu â gweddill y DU ymhen 10 mlynedd?

Mae'r papur yn cynnwys ystod o dargedau a ddefnyddir yn sail i'r prif bennawd. Mae ffactorau megis cynyddu gweithgarwch economaidd, sgiliau uwch, a sefydlu busnesau newydd oll yn cyfrannu at dwf. Trafodir materion eraill, megis targedau rhanbarthol a dangosyddion ansoddol yn ogystal a byddant yn rhan o'r ymgynghoriad.

Nodais weledigaeth ar gyfer y dyfodol heb golli golwg o'r presennol. Bydd y sector gweithgynhyrchu yn parhau i fod yn rhan



vital component of the Welsh economy. There have been recent problems, such as that with Corus, that have been a major body blow to manufacturing. However, we should not lose sight of the fact that, despite this blow, much of our manufacturing sector is employing, and will continue to employ, a productive and skilled workforce. This paper highlights the need to add value to manufacturing and agriculture to drive forward future growth in Wales. It is essential that our industries are efficient and modern. We have a competitive advantage in manufacturing and we must capitalise on that to ensure that Wales is a centre for world-class manufacturing excellence.

**Alun Cairns** *rose—*

**The Deputy Presiding Officer:** Please ensure that your intervention is brief.

**Alun Cairns:** I am grateful to the Minister for the opportunity to clarify a point or two.

**The Deputy Presiding Officer:** You cannot clarify anything. You may intervene, but it must be brief.

**Alun Cairns:** I assure you that I will be brief. Will the Minister tell us, if he is aiming for the GDP per capita specified in the document, why are we not aiming for a GDP per capita double or treble the UK average? Those figures are as unrealistic as those contained in this document. Also, had the Minister listened to my speech, I said that, where there is a policy implication, it is clustering. I then moved forward to analyse clustering. I could not take his policy on clustering apart because he does not have a policy on it. It is yet another soundbite. It is an useful, catchy phrase for the media but means nothing to those people without jobs in west Wales and the Valleys and in other parts of Wales.

**Michael German:** I will not be lectured at by the Conservatives, given their appalling record on manufacturing and agriculture. Has anyone in Wales forgotten that it was the Tories who presided over the BSE crisis, an

hanfodol o economi Cymru. Bu problemau yn ddiweddar, megis problem Corus, a fu'n ergyd fawr i'r sector gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, ni ddylem golli golwg o'r ffaith fod ein sector gweithgynhyrchu, er gwaethaf yr ergyd hon, yn cyflogi gweithlu cynhyrchiol a medrus, a bydd yn parhau i wneud hynny. Pwysleisia'r papur fod angen ychwanegu gwerth at y sector gweithgynhyrchu a'r sector amaethyddiaeth er mwyn gwthio twf yng Nghymru yn y dyfodol ymlaen. Mae'n hanfodol bod ein diwydiannau'n effeithlon ac yn fodern. Mae gennym fantais gystadleuol yn y sector gweithgynhyrchu a rhaid inni wneud y defnydd gorau posibl ohoni er mwyn sicrhau bod Cymru yn ganolfan o ragoriaeth mewn gweithgynhyrchu yn y byd.

**Alun Cairns:** *a gododd—*

**Y Dirprwy Lywydd:** Sicrhewch fod eich ymyriad yn fyr.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am y cyfle i egluro un neu ddau o bwyntiau.

**Y Dirprwy Lywydd:** Ni chewch egluro unrhyw beth. Cewch ymyrryd, ond rhaid bod yn gryno.

**Alun Cairns:** Fe'ch sicrhaf y byddaf yn gryno. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pam, os yw'n anelu at y CMC y pen a nodwyd yn y ddogfen, nad ydym yn anelu at CMC y pen sydd ddwywaith neu deirgwaith gymaint â chyfartaledd y DU? Mae'r ffigurau hynny yr un mor afrealistig â'r rhai yn y ddogfen hon. Hefyd, pe bai'r Gweinidog wedi gwrandao ar fy araith, dywedais, lle ceir goblygiad polisi, mai clystyru ydyw. Wedyn symudais ymlaen i ddadansoddi clystyru. Ni allwn ddadansoddi ei bolisi ar glystyru am nad oes ganddo un. Datganiad bachog arall ydyw. Mae'n ymadrodd bach hwylus i'r cyfryngau ond ni olyga ddim i'r bobl hynny sydd heb swyddi yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac mewn rhannau eraill o Gymru.

**Michael German:** Ni dderbyniaf bregeth gan y Ceidwadwyr, o gofio eu hanes ofnadwy ym meysydd gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth. A oes unrhyw un yng Nghymru wedi anghofio mai'r Toriaid oedd

unprecedented decline in agricultural incomes and massive job losses in farming and manufacturing during their tenure in office? Being lectured at by the Conservatives is on a par with being taught childcare by King Herod. Are there any bounds to Tory hypocrisy? Their coming to the Assembly—the creation of which they opposed—to bleat and moan about sectors that they neglected, has all the sincerity of John Redwood's bobbing head as he recited the national anthem.

All the policy priorities in this paper will have an effect on manufacturing and agriculture. Internationalisation will provide new markets for our firms, allowing them to grow. By increasing exports, we can start to reduce the gap between ourselves and other regions.

Skills, education and training programmes are essential to us all. If we are to be a world-class economy we must be willing to continually update our knowledge and skills. Our commitment to vocational skills will enable a more skilled workforce to enter employment in the first place. We have identified strengthening the science and technology base in Wales as being key to growth. Policies to encourage enterprise are crucial to all industries and sectors of the economy, and we are committed to overcome peripherality by using modern infrastructure.

I look forward to what the Labour party's general election manifesto will say on the Barnett formula, and to seeing whether Ron has been able to influence it. As I have repeatedly made clear, this paper is not a final strategy. It is designed to inform the development of a national economic development strategy for Wales. The final strategy will evolve after the consultation period, informed by the responses that we receive. It will contain an implementation plan, which will prioritise the policies, identify lead agencies, consider resources and set ambitious but realistic targets. We must never allow paucity of ambition to undermine our efforts for Wales. We must work closely with our partners to ensure that the strategy is widely accepted and reflected in their

mewn grym pan gafwyd yr argyfwng BSE, dirywiad mewn incwm amaethyddiaeth na welwyd ei debyg erioed a nifer enfawr o swyddi yn cael eu colli yn y sector amaeth a gweithgynhyrchu? Mae cael pregeth gan y Toriaid cystal â chael gwers gan y Brenin Herod ar ofal plant. A oes diwedd i ragrith y Toriaid? Mae'r ffaith y dônt i'r Cynulliad—ar ôl gwrthwynebu ei sefydlu—i gwynfan am y sectorau a esgeuluswyd ganddynt yr un mor ddiffuant â gweld pen John Redwood yn siglo wrth adrodd yr anthem genedlaethol.

Caiff pob blaenoriaeth polisi yn y papur hwn effaith ar y sector gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth. Bydd rhyngwladoli yn cynnig marchnadoedd newydd i'n cwmnïau, gan ganiatáu iddynt dyfu. Drwy gynyddu allforion, gallwn ddechrau lleihau'r bwlch rhyngom ni a'r rhanbarthau eraill.

Mae sgiliau, addysg a rhaglenni hyfforddiant yn hanfodol i bob un ohonom. Er mwyn inni gael economi o'r radd flaenaf rhaid inni fod yn fodlon bob amser i ddiweddarau ein gwybodaeth a'n sgiliau. Bydd ein hymrwymiad i sgiliau galwedigaethol yn galluogi gweithlu mwy medrus i gael eu cyflogi yn y lle cyntaf. Nodasom fod atgyfnerthu'r sail gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru yn allweddol i sicrhau twf. Mae polisiau a fydd yn annog menter yn holl bwysig i bob diwydiant a sector yn yr economi, ac yr ydym yn ymrwymedig i oresgyn y broblem o fod ar yr ymylon drwy ddefnyddio isadeiledd modern.

Edrychaf ymlaen at weld yr hyn a ddywed manifestio etholiad cyffredinol y blaid Lafur am fformwla Barnett, i weld a lwyddodd Ron i ddylanwadu arno. Fel yr eglurais droeon, nid strategaeth derfynol mo'r papur hwn. Ei nod yw llywio datblygiad strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ar gyfer Cymru. Bydd y strategaeth derfynol yn esblygu ar ôl y cyfnod ymgynghori, wedi ei llywio gan yr ymatebion a gawn. Bydd yn cynnwys cynllun gweithredu, a fydd yn blaenoriaethu'r polisiau, nodi'r asiantaethau arweiniol, ystyried adnoddau a phennu targedau uchelgeisiol ond realistig. Rhaid inni beidio â chaniatáu i ddiffyg uchelgais danseilio ein hymdrechion dros Gymru. Rhaid inni weithio'n agos gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau y caiff y strategaeth ei

planning. Let us be positive, get on with the job in hand and reject the Tory motion.

**Nick Bourne:** The Welsh Conservatives agree with the Deputy First Minister on one thing. He said that this was not the national economic development strategy. He is probably right. Ron Davies also told us that he did not think it was a strategy. He did not seem to think that it was national or economic either. It is a development, although a pretty unwelcome one. I have read the document; it is fascinating stuff—I love a good mystery.

I agree with Ron Davies that state spending has a part to play in the creation of jobs. However, we must learn the lessons of the last 30 or 40 years. State spending is only part of the story. We must have a climate of deregulation and a bonfire of the forms. We also need a low level of taxes for business. If we are to create jobs in Wales, we can only achieve that by competition with our competitors. This document does not—*[Interruption.]* This is extraordinary. The First Minister seems to be reading something about Hannibal Lecter.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. We do not have rules against reading anything in the Chamber.

**Nick Bourne:** We need improved infrastructure, competition, low taxes for business and deregulation in Wales. Although this document is long on ambition, it is whistling in the dark. What we have in the Deputy First Minister is a sort of poor man's Mr Micawber, maintaining that something will surely turn up. This document includes growth rates that are unrivalled outside the tiger economies of South-East and Eastern Asia, of Singapore and Hong Kong. Are you seriously suggesting that your economic policy is the same as theirs? I think not.

5.30 p.m.

It is alarming that you do not have up-to-date GDP figures for Wales. The most recent

derbyn yn eang a'i hadlewyrchu yn eu cynlluniau hwy. Gadewch inni fod yn gadarnhaol, bwrw iddi a gwrthod cynnig y Toriaid.

**Nick Bourne:** Cytuna Ceidwadwyr Cymru â'r Dirprwy Brif Weinidog ar un mater. Dywedodd nad hon oedd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Mae yn llygad ei le. Dywedodd Ron Davies yntau wrthym nad strategaeth ydoedd, yn ei farn ef. Ymddengys na theimlai ei bod yn genedlaethol nac yn economaidd ychwaith. Mae'n ddatblygiad, er yn un eithaf annymunol. Darllenais y ddogfen; mae'n ddiddorol tu hwnt—yr wyf yn gwirioni ar stori ddirgelwch dda.

Cytunaf â Ron Davies fod yn rhaid i wariant gwladol chwarae rhan wrth greu swyddi. Fodd bynnag, rhaid inni ddysgu gwersi'r 30 neu 40 mlynedd diwethaf. Dim ond un agwedd yw gwariant gwladol. Rhaid inni gael hinsawdd o ddadreoleiddio a llosgi'r ffurflenni. Mae angen hefyd inni gael lefel isel o drethi ar gyfer busnesau. Os ydym yn mynd i greu swyddi yng Nghymru, mae'n rhaid cystadlu â'n cystadleuwyr. Nid yw'r ddogfen hon—*[Torri ar draws.]* mae hyn yn anhygoel. Ymddengys fod y Prif Weinidog yn darllen rhywbeth am Hannibal Lecter.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid oes rheolau gennym yn erbyn darllen unrhyw beth yn y Siambr.

**Nick Bourne:** Mae arnom angen gwell isadeiledd, cystadleuaeth, trethi isel ar gyfer busnesau a dadreoli yng Nghymru. Er bod y ddogfen hon yn llawn uchelgais, nid oes gobaith iddi lwyddo. Yr hyn sydd gennym yn y Dirprwy Brif Weinidog yw rhyw fersiwn tila o Mr Micawber, yn honni siawns y daw rhywbeth i law. Mae'r ddogfen yn cynnwys cyfraddau twf na welwyd mo'u tebyg y tu allan i economïau teigr De-ddwyrain a Dwyrain Asia, Singapore a Hong Kong. A ydych o ddifrif wrth awgrymu bod gennych yr un polisi economaidd â hwy? Ni chredaf hynny.

Mae'n frawychus nad oes gennych ffigurau CMC cyfredol ar gyfer Cymru. Ymddengys

figures that you appear to have are from 18 months ago. How can you possibly work within a framework when you do not even know the percentage GDP rate? This document is jargon-ridden and full of soundbites. There is a great deal about spatial planning, infrastructure objectives and sector specificity. However, it is light on detail and on what is needed to address the problems of Wales. I suspect that it is a Liberal Democrat document put together by the Liberal lackeys. One feels a bit sorry for the Labour Party for having this foisted on it, but that was the price of the alliance, lads and lasses. I am afraid that that is what you have to put up with.

I do not disagree with Alison Halford's contribution on the need for a Team Wales approach, but only when people can agree on matters. However, we have already seen an outbreak of brotherly strife in her party between the Chairman of the Economic Development Committee and—

**Cynog Dafis:** Brotherly and sisterly strife.

**Nick Bourne:** Brotherly and sisterly strife—I am grateful for Cynog's correction—between the Chairwoman of the Economic Development Committee and the former Secretary of State for Wales on the matter of a Team Wales approach. Perhaps, you should put matters right in your own party before you lecture others.

As we have already established, the national economic development strategy is not a strategy; it is a consultation document. The Deputy First Minister used a marvellous phrase to describe it, stating that it was not a 'final strategy'; presumably it is a provisional one.

**Rosemary Butler:** Point of order. It is now past 5:30 p.m., and we have not yet voted on this debate.

**The Deputy Presiding Officer:** I hope that we will finish soon. I want to give Nick his allotted time to speak. Any fault for overrunning is mine, but given the importance of this debate, I thought that

mai'r ffigurau diweddaraf sydd gennych yw'r rhai 18 mis yn ôl. Sut ar y ddaear y gallwch weithio o fewn fframwaith pan na wyddoch hyd yn oed cyfradd y CMC? Mae'r ddogfen hon yn llawn jargon a datganiadau bachog. Ceir cryn dipyn am gynllunio gofodol, amcanion isadeiledd a detholusrwydd sector. Fodd bynnag, mae'n brin o fanylion a'r hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â phroblemau Cymru. Yr wyf yn amau mai dogfen y Democratiaid Rhyddfrydol ydyw, wedi ei llunio gan weision y Blaid honno. Mae dyn yn teimlo'n flin dros y Blaid Lafur am gael hyn wedi ei gorfodi arni, ond dyna bris cynghreirio, fechgyn a merched. Ofnaf fod rhaid ichi ddygymod â hynny.

Nid anghytunaf â chyfraniad Alison Halford am yr angen am ymagwedd Tîm Cymru, ond dim ond pan fydd pobl yn gallu cytuno ar faterion. Fodd bynnag, yr ydym eisoes wedi gweld bod anghydfod wedi codi ymhlith y brodyr yn ei phlaid rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a—

**Cynog Dafis:** Anghydfod ymhlith y brodyr a'r chwiorydd.

**Nick Bourne:** Anghydfod ymhlith y brodyr a'r chwiorydd—yr wyf yn ddiolchgar i Cynog am fy nghywiro—rhwng Cadeiryddes y Pwyllgor Datblygu Economaidd a chyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn ag ymagwedd Tîm Cymru. Efallai y dylech unioni pethau yn eich plaid eich hun cyn rhoi pregeth i eraill.

Fel y nodwyd gennym eisoes, nid strategaeth yw'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol; mae'n ddogfen ymgynghorol. Defnyddiodd y Dirprwy Brif Weinidog ymadrodd penigamp i'w disgrifio, gan nodi nad 'strategaeth derfynol' ydoedd; un dros dros ydyw mae'n debyg.

**Rosemary Butler:** Pwynt o drefn. Mae wedi troi 5:30 p.m., ac nid ydym wedi dechrau pleidleisio ar y ddadl hon.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gobeithiaf y byddwn yn gorffen yn y man. Yr wyf am i Nick gael siarad am ei amser penodedig. Fi sydd ar fai am i'r ddadl redeg yn hwyr, ond o ystyried pa mor bwysig yw'r ddadl hon, credwn y

Members would agree to allow it to overrun by a few minutes.

**Nick Bourne:** In fairness, it is the Welsh Conservative Party's debate, and I know that Rosemary Butler is always fair. The extra time was probably taken by earlier speakers from other parties, which is part of the problem because I should be allowed five minutes to wind up.

I invite people to support this motion. The strategy is a disappointment, and it will not help to create jobs. It seems to be a matter of plucking a figure out of the air, of saying that it is an ambitious target and that anybody who sells that short will be selling Wales short. You can double and treble that figure, and accuse us all of being unrealistic and unambitious for Wales, but we need more than that. We need some reality. There is no reality in the document. That is why we tabled this motion and why I ask you to support it.

byddai'r Aelodau yn caniatáu i'r ddadl redeg yn hwyr am ychydig funudau.

**Nick Bourne:** A bod yn deg, dadl Plaid Geidwadol Cymru ydyw, a gwn fod Rosemary Butler bob amser yn deg. Siaradwyr cynharach o bleidiau eraill a oedd wedi mynd â'r amser ychwanegol, siŵr o fod, sydd yn rhan o'r broblem oherwydd y dylwn gael pum munud i ddirwyn i ben.

Gofynnaf i bobl gefnogi'r cynnig hwn. Mae'r strategaeth yn siomedig, ac ni fydd yn helpu i greu swyddi. Ymddengys mai mater o dynnu ffigur o'r awyr ydyw, mater o ddweud ei bod yn darged uchelgeisiol ac y bydd unrhyw un sydd yn lladd arno yn lladd ar Gymru. Gellir dyblu neu dreblu'r ffigur hwnnw, a'n cyhuddo ni oll o fod yn afrealistig a heb uchelgais, ond mae arnom angen mwy na hynny. Mae angen rhywfaint o realiti arnom. Nid oes unrhyw realiti yn perthyn i'r ddogfen hon. Dyna pam ein bod wedi cyflwyno'r cynnig hwn a pham y gofynnaf ichi ei gefnogi.

*Gwelliant 1: O blaid 11, Ymatal 27, Yn erbyn 9.  
Amendment 1: For 11, Abstain 27, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Dafis, Cynog  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Williams, Phil

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bourne, Nick  
Black, Peter  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Graham, William  
Melding, David  
Richards, Rod  
Rogers, Peter

Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment adopted.*

*Gwelliant 2: O blaid 11, Ymatal 28, Yn erbyn 9.  
Amendment 2: For 11, Abstain 28, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Dafis, Cynog  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bourne, Nick  
Black, Peter  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Graham, William  
Melding, David  
Richards, Rod  
Rogers, Peter

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment adopted.*

*Gwelliant 3: O blaid 19, Ymatal 28, Yn erbyn 1.  
Amendment 3: For 19, Abstain 28, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Graham, William  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Melding, David  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:  
The following Member voted against:

Black, Peter

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment adopted.*

Amended motion:

*this Assembly notes the reservations of the Economic Development Committee on the Deputy First Minister's national economic development strategy and notes the premature publication of a document which:*

*lacks adequate policy detail;*

*fails to set appropriate targets for net increase in employment in the various economic regions of Wales;*

*fails to tackle problems facing agriculture and manufacturing; and*

*does not indicate where the recommended strategy will involve substantial resources not covered by the present forward-look budget.*

Cynnig wedi'i ddiwygio:

*y Cynulliad yn nodi petruster y Pwyllgor Datblygu Economaidd ynghylch Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Dirprwy Brif Weinidog Cymru, ac yn nodi cyhoeddiad cynamserol dogfen:*

*nad yw'n cynnwys digon o fanylion polisi;*

*nad yw'n pennu targedau priodol ar gyfer cynnydd net mewn cyflogaeth yn amryfal ranbarthau economaidd Cymru;*

*sydd yn methu â mynd i'r afael â'r problemau sydd yn wynebu'r sectorau amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu; ac*

*nad yw'n nodi a fydd angen adnoddau sylweddol, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gyllideb ragolwg bresennol, ar gyfer y strategaeth sydd yn cael ei hargymell.*

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 29.*

*Amended motion: For 18, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Graham, William  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Melding, David  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.  
Amended motion rejected.*



**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.  
**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.35 p.m.*  
*The session ended at 5.35 p.m.*